

Strategaeth Ddehongli ar gyfer Ardal Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru

Tachwedd 2019



Strategaeth Ddehongli ar gyfer Ardal Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru

12^{fed} Tachwedd 2019


Cynnwys

Crynodeb Gweithredol

1.	Cyflwyniad	9
2.	Stori Llechi Gwynedd (y stori rydym ni am ei hadrodd)	10
3.	Ardal yr enwebiad am statws Safle Treftadaeth y Byd	19
3.1	Cyflwyniad i'r Safle Treftadaeth y Byd	19
3.2	Crynodeb o'r ardaloedd yn ardal yr Enwebiad i fod yn Safle Treftadaeth y Byd	20
4.	Datblygu dull newydd o weithio	26
4.1	Heriau a chyfleoedd	26
4.2	Canlyniadau'r Strategaeth Ddehongli	28
5.	Y gwaith dehongli cyfredol	29
5.1	Cyflwyniad i'r archwiliad o'r gwaith dehongli cyfredol	29
5.2	Archwiliad o'r gwaith dehongli cyfredol	31
5.3	Ymgynghori â rhanddeiliaid ac atyniadau allweddol	38
5.4	Rhwystrau i fynediad a chyfleoedd i'w datrys	42
6.	Dull gweithredu newydd	43
6.1	Themâu a negeseuon allweddol	43
6.2	Y Fframwaith Dehongli a'r themâu	45
6.3	Hunaniaeth pob un o'r safleoedd dan sylw	55
6.4	Edrych ar brofiad ymwelwyr mewn ffordd strategol	57
6.5	Lleoedd a chyfleoedd i'w dehongli	61
6.6	Argymhellion	71
6.7	Pecynnau a awgrymir ar gyfer ymwelwyr	75
7.	Monitro a gwerthuso	76
7.1	Canlyniadau a mesurau	76
7.2	Rhaglen ar gyfer monitro a gwerthuso	77

GWELEDIGAETH Y PROSIECT

Bydd y gwaith dehongli ar dreftadaeth y diwydiant llechi'n grymuso, yn ailgysylltu ac yn adfywio cymunedau llechi Gwynedd.



RHWYSTRAU I FYNEDIAD A CHYFLEOEDD I'W DATRYS

HERIAU	FFYRDD O'U DATRYS
Bylchau yn y stori, dim cysylltiad rhwng safleoedd, a'r stori anghywir yn cael ei hadrodd mewn rhai mannau	Creu ymbarél a phorth digidol sy'n cyflwyno'r stori gyfan ac yn cysylltu safleoedd. Creu fframwaith a rheoli ansawdd
Dim un corff cydlynus yn dwyn ynghyd wahanol atyniadau a lleoedd	Creu hunaniaeth weledol ar gyfer y dirwedd llechi a helpu rhanddeiliaid i'w defnyddio
Anawsterau rheoli a diffyg cyfleusterau a seilwaith i ymdopi â chynnydd mewn ymwelwyr i'r ardal	Ymestyn y tymor ymwelwyr ac annog pobl i ymweld â mwy o atyniadau
Dim ond i ychydig o atyniadau mawr y mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr yn mynd	Datblygu llefydd i roi blas ar yr ardal neu bytiau o wybodaeth a helpu cymunedau i adrodd eu stori
Mae'r gwaith dehongli mewn amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol yn hen ffasiwn	Datblygu amrywiaeth o gyfryngau dehongli, gan ddefnyddio celf, perfformiadau a graffeg digidol, rhyngweithiol ac anturus
Mae gan gymunedau ymdeimlad cryf o hunaniaeth ac maent yn awyddus i adrodd eu stori	Parhau i ymgysylltu â chymunedau er mwyn sicrhau y gallant adrodd eu straeon
Mae'r ardal yn wasgaredig yn ddaearyddol	Datblygu atyniadau canolig eu maint a all helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal gyfan

ARCHWILIAD O'R GWAITH DEHONGLI CYFREDOL

Pynciau	Ogwen	Dinorwig	Nantlle	Chwareli Gorseddau a Thywysog Cymru	Blaenau Ffestiniog a'r Rheilffordd	Bryneglwys, Abergynolwyn a Rheilffordd Talylyn	Aberllefenni
Y graig a'r gwaith prosesu							
Cludo ac allforio							
Pobl a chymunedau							
Y gweithwyr							
Gwneud arian							
Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth							
Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft							
Y dirwedd a bioamrywiaeth							
Allforio byd-eang							

	Gwaith dehongli cyfredol
	Cyfleoedd i ddehongli

THEMÂU A NEGESEUON ALLWEDDOL

PRIF NEGES ALLWEDDOL:

Mae hanes epig diwydiant llechi Cymru, a ddefnyddiwyd i doi'r byd, wedi saernïo tirwedd a chymunedau gogledd-orllewin Cymru.

THEMÂU

Oherwydd eu nodweddion unigryw, roedd llechi'n ddelfrydol ar gyfer toi. Am bron i 200 o flynyddoedd, defnyddiwyd llechi o'r fan hon i doi'r byd.

Roedd rhaid i berchnogion y chwareli a pheirianwyr ganfod ffyrdd dyfeisgar a thechnoleg newydd i gludo llechi o'r chwareli i'r porthladdoedd. Mae rheilffyrdd cul a adeiladwyd i gludo llechi wedi ysbrydoli rheilffyrdd ym mhedwar ban byd.

Yn sgil y chwareli, datblygodd trefi prysur, gydag ymdeimlad cryf o hunaniaeth a balchder sydd wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

Roedd y chwarelwyr yn fedrus, yn annibynnol ac ar brydiau mewn anghydfod â'r perchnogion. Roedd merched yn chware rhan weithredol, ond llai amlwg, yn y chwareli.

Mae tirwedd y chwareli, a fu'n esgor ar gyfoeth, yn dal i ysbrydoli pobl sy'n chwilio am hanes, diwylliant ac antur.


Yn ystod y blynyddoedd prysuraf, roedd y chwareli'n toi adeiladau ledled y byd ac roedd y chwarelwyr yn gwneud y gorau o'r cyfnod llewyrchus.

Roedd angen dyfeisgarwch a medrusrwydd ar weithwyr y chwareli ac roedd y perchnogion yn buddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf ac mewn atebion deallus i oresgyn heriau gweithio yn y dirwedd hon.

Mae'r dirwedd unigryw a ffurfiwyd gan y chwareli llechi wedi creu amgylchedd trawiadol a phwysig sydd wedi'i hawlio yn ôl gan fyd natur.


Nid llechi yn unig a allforiwyd ledled y byd, ond syniadau, technoleg a gweithwyr medrus a deithiodd oddi yma.

PRIF GANOLFANNAU, CANOLFANNAU CANOLIG A CANOLFANNAU LLOEREN



PRIF GANOLFANNAU, CANOLFANNAU CANOLIG A CANOLFANNAU LLOEREN

PROFIAD YMWELWYR - STRATEGAETH



RHITHWIR

Gwaith dehongli rhithwir ar-lein

- Ysbrydoli pobl cyn iddynt ymweld
- Gwybodaeth i dwristiaid
- Deunydd dehongli
- Beth sy'n digwydd / Digwyddiadau
- Adnodd i roi gwybodaeth hyrwyddo i randdeiliaid

PRIF GANOLFANNAU

Gwaith dehongli ar lefel sylfaenol

- Arddangosfeydd parhaol mawr
- Paneli graffeg awyr-agored
- Gosodweithiau celf
- Llwybrau i'w dilyn
- Gweithgareddau
- Teithiau tywys

CANOLFANNAU CANOLIG

Gwaith dehongli ar lefel ganolradd

- Arddangosfeydd parhaol bychan
- Paneli graffeg awyr-agored
- Gweithiau celf
- Llwybrau i'w dilyn
- Mynediad at ddeunyddiau ar-lein
- Gweithgareddau
- Teithiau hunan-dywys

CANOLFANNAU LLOEREN

Gwaith dehongli ar lefel eilaidd

- Arddangosiadau graffeg bychan y tu mewn
- Paneli graffeg awyr-agored
- Gweithiau celf
- Llwybrau i'w dilyn
- Mynediad at ddeunyddiau ar-lein
- Gweithgareddau
- Teithiau hunan-dywys

ARGYMHELLION

Y Camau Cyntaf

- Datblygu hunaniaeth brand gweledol
- Creu porth digidol newydd

Datblygu prosiectau cyfalaf yn y Prif Ganolfannau

- Castell Penrhyn – cyflwyno'r straeon sydd heb eu hadrodd
- Rheilffordd Ffestiniog – gwaith dehongli newydd ar hyd y rheilffordd gyfan ac yn Boston Lodge
- Amgueddfa Lechi Cymru – datblygu strategaeth ar gyfer ailwampio llwyr
- Llechwedd – Melin Lechi Maenofferen – prosiect treftadaeth, addysg a thwristiaeth
- Rheilffordd Talyllyn – cyfres o brosiectau dehongli

Argymhellion ar gyfer y Cynlluniau Cynefin

- Mewn partneriaeth â'r gymuned

Datblygu'r Canolfannau Canolig a'r Canolfannau Lloeren

- Prosiectau cyfredol yng Nghanolfan Ymwelwyr Ogwen a Mynydd Gwefru
- Straeon heb eu hadrodd yn gysylltiedig â Chae'r Gors
- Datguddio'r Tirwedd ym Mhlas Tan y Bwlch
- Paneli graffeg newydd ar safleoedd eraill
- Arddangosfa deithiol yng Ngwynedd a'r tu hwnt
- Cyflwyno'r cymeriadau trwy gelfyddyd a pherfformio
- Datblygu cyfres newydd o bwyntiau gwybodaeth History Point ac iddynt godau QR

1. Cyflwyniad

Paratowyd y Strategaeth Ddehongli hon gan ymgynghorwyr yn Headland Design gyda chymorth yr hanesydd, Dr Dafydd Gwyn (o Ymgynghoriaeth Govannon sy'n gwneud gwaith ymchwil) i gefnogi cais i UNESCO am statws Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru. Cafwyd cymorth ar gyfer y gwaith ymgynghori trwy gyfrwng y Gymraeg gan Lowri Goss (o Lowri Goss Consulting) sy'n cydweithio â Headland. Mae'r adroddiad wedi elwa ar waith ymchwil gan Mari Beynon Owen, Rob Chambers a Julia Thomason ar gyfer y Cynlluniau Cynefin. Bydd Pecyn Cymorth Marchnata ar wahân yn cynnig syniadau syml, cyngor ac adnoddau i ddangos sut y gall rhanddeiliaid a busnesau lleol ddefnyddio cysyniad "Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru" yn eu hymgyrchoedd marchnata i'w helpu i hyrwyddo eu busnes. Bydd yn edrych ar gynlluniau marchnata ardal Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru yn eu cyfarwydd a bydd yn gwneud yr arlwy a gynigir i ymwelwyr yn fwy deniadol trwy hyrwyddo busnesau fel rhan o rywbeth llawer mwy. Bydd yn helpu rhanddeiliaid a busnesau i elwa i'r eithaf ar y manteision a all ddod o fod yn rhan o deulu Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru.

Mae gweithdai a gwaith ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid strategol wedi cyfrannu at y gwaith ar y Strategaeth Ddehongli.

Dyma'r rhanddeiliaid: • Amgueddfa Lechi Cymru • Zip World • Llechwedd • Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri • Rheilffordd Talyllyn • Castell Penrhyn - yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol • Y Mynydd Gwefru • Dorothea Pumped Hydro • Treftadaeth Ddisylw • Cadw • Cyngor Gwynedd • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Y partneriaid strategol yw: • Llywodraeth Cymru (Cadw) • Amgueddfa Lechi Cymru • Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri • Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru • Prifysgol Bangor
--	---

Gwaith dehongli yw'r ddolen gyswllt rhwng ymwelwyr a'r dreftadaeth. Mae'n helpu i ysbrydoli pobl (ymwelwyr a phobl leol), rhoi gwybodaeth iddynt a'u cysylltu â safleoedd hanesyddol, casgliadau amgueddfeydd, mannau arbennig a straeon o'r gorffennol. Er mwyn datblygu strategaeth ddehongli, mae angen i ni ddeall diddordebau ac anghenion y gynulleidfa darged (yn cynnwys cynulleidfaoedd presennol), diffinio'r stori yr ydym am ei hadrodd, deall a disgrifio'r asedau treftadaeth y daw ymwelwyr ar eu traws a nodi sut y byddwn yn mynd ati i'w dehongli. Caiff y stori y mynnwn ei hadrodd ei disgrifio o ddwy ongl; yn gyntaf trwy ardaloedd daearyddol neu ddarnau cydrannol y cais am statws Safle Treftadaeth y Byd, ac yn ail trwy gyfres o themâu sy'n dwyn ynghyd y straeon allweddol.

2. Stori Llechi Gwynedd (y stori rydym ni am ei hadrodd)

Mae'r naratif a nodir isod yn disgrifio stori diwydiant llechi Gwynedd mewn ffordd thematig yn hytrach nag yn nhrefn amser. Awn i'r afael â hyn eto trwy'r Fframwaith Dehongli yn adran 6.2.

Y Graig a'r Gwaith Prosesu

Caiff llechfaen ei ffurfio o laid a roddir o dan bwysedd daearegol enfawr mewn gwres mawr. Gall gweithwyr medrus ei hollti'n hawdd yn ddalenni ysgafn, llyfn sy'n dal dŵr ac sy'n ddelfrydol fel deunydd toi. Yn ogystal, mae llechfaen wedi'i ddefnyddio i wneud llechi ysgrifennu mewn ysgolion, byrddau biliards, linteli, cerrig beddi, slabiau llawr, cafnau mewn bragdai, dodrefn, switchfyrddau ac wrinalau. Llwyd neu borffor yw lliw'r rhan fwyaf o lechi gogledd-orllewin Cymru ond mae rhai yn wyrdd neu'n rhesog.



Gellir cludo llechi'n hawdd ar longau a chawsant eu hallforio i bedwar ban byd. Roedd toeau llechi'n addas ar gyfer adeiladau mawreddog fel palasau ac eglwysi cadeiriol, yn ogystal â ffatrioedd, warysau a thai teras. Caiff llechi o ogledd-orllewin Cymru eu hallforio'n eang o hyd, yn aml ar gyfer adeiladau hanesyddol. Gwneir agregau, anrhegion a nodweddion gardd o lechfaen hefyd.



Câi llechfaen ei gloddio o bonciau ar lethrau mynydd, o byllau ar lawr dyffryn neu o dan y ddaear. Câi blociau mawr o lechfaen eu ffrwydro o wyneb y graig a'u torri'n ddarnau llai â morthwylion pren mawr neu â llifiau mecanyddol. Yna câi llechi toi eu hollti gan weithiwr â chŷn a morthwyl.



Roedd llawer o wastraff. Roedd dros 90% o'r llechfaen yn anaddas i'w ddefnyddio ac roedd rhaid ei daflu i domenni. Mae'r tomenni enfawr hyn yn dal yn ffurfiau amlwg yn nhirwedd chwareli, trefi a phentrefi. Mewn

cyfnodau tlawd, roedd pobl yn chwilio'r tomenni am ddarnau o lechfaen y gellid eu gwerthu a'u defnyddio.

'Chwarelwyr' oedd yr enw ar yr holl ddynion a weithiai mewn chwarel neu gloddfa lechi, ond roedd llawer o wahanol swyddi. Roedd creigwyr neu rocmyr yn tynnu blociau o lechfaen o wyneb y graig. Byddai manholtwyr yn gweithio mewn lloches agored ('y wal') neu felin i greu llechi unigol o'r blociau hyn. Byddai difrigwyr yn casglu'r gwastraff a'r meinars yn creu twneli tanddaear. Labrws oedd yn symud y wagenni rwbel ac yn eu gwagio.



Roedd gweithwyr y chwareli llechi yn rhai medrus iawn ac roedd angen cryn feddwl wrth y gwaith. Roedd rhaid i'r creigwyr ddeall y ddaear a sut i gael y gorau o flocyn llechfaen. Roedd angen meddwl yn ofalus hyd yn oed wrth wneud pethau fel llwytho llechi ar y cei, fel y gellid eu trosglwyddo'n hawdd i long neu drên.

Roedd y chwarelwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn falch o'u swydd. Yn aml, roedd ganddynt enw amserol neu ffansiol ar y rhan o'r chwarel neu'r gloddfa lle'r oeddent yn gweithio. Dechreuwyd gweithio yn 'Agor Boni' yn Chwarel y Penrhyn yn ystod Rhyfeloedd Napoleon.

Cludo ac Allforio



Yn y dyddiau cynnar, câi llechi a'r gwastraff eu symud â throl neu geffyl a chart ond dechreuwyd defnyddio rheilffyrdd yn y chwareli tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roeddent yn defnyddio incleinau a châi'r wagenni eu tynnu gan raff, o ddrwm neu olwyn yn y pen uchaf, yn gweithio ag olwyn ddŵr, injan stêm neu fotor. Os oedd y llwyth yn mynd i lawr, gallai dynnu wagenni gwag i fyny ar drac cyfochrog. Mae llawer o'r rhain i'w gweld o hyd yn y chwareli, a gwelir enghraifft weithiol yn Amgueddfa Lechi Cymru. Roedd rhaffyrdd awyr yn cludo llechfaen o gwmpas y

chwareli hefyd. Roedd 'Blondins' yn fath arbennig o raffordd a ddefnyddid yn chwareli Nantlle, wedi'u henwi ar ôl y rhaffgerddwr enwog.

Yna, roedd rhaid cludo'r llechi i'r glannau. Ceffylau pwn a ddefnyddid i ddechrau ac yna geffyl a chart. Yn ardal Ffestiniog, roedd modd cario llechi i lawr yr afon mewn cychod i gyfarfod â'r llongau. Roedd y cychwyr yn cael eu galw'n 'Philistiaid' ac yn enwog am wisgo 'fel Gwyddelod Tipperary. Câi llechi eu cario mewn cychod o chwarel Dinorwig ar draws Llyn Padarn i gerti oedd yn eu cario i harbwr Caernarfon. Mae un o'r cychod hyn i'w weld yn Amgueddfa Lechi Cymru.

Wrth i'r galw am lechi gynyddu, adeiladwyd y ffordd haearn gyntaf yn 1801. Defnyddiai hon yr un egwyddor â chamlas – teithiai ar lwybr gwastad a defnyddio incleins yn lle lociau. Bu peirianwyr enwog fel y brodyr Stephenson yn cynghori ar y dyluniad gorau ar gyfer y rheilffyrdd. Defnyddiai'r rheilffyrdd cynnar geffylau ac, yn Ffestiniog, ddisgyrchiant ar gyfer teithio i lawr allt.

Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bu cynnydd eto yn y galw a dechreuwyd defnyddio locomotifau yn lle ceffylau. Mae leiniau bach Ffestiniog a Thalyllyn yn dal i ddefnyddio llawer o'u locos cynnar. Daeth peirianwyr a swyddogion llywodraethau o bedwar ban byd i weld sut roedd Rheilffordd Ffestiniog yn gweithio mewn ardal fynyddig, ac yna aethant ati i osod systemau tebyg yn eu gwledydd eu hunain.



Roedd y rheilffyrdd yn cysylltu'r chwareli â phorthladdoedd yn Abercegin (Port Penrhyn), Caernarfon, y Felinheli a Phorthmadog. Oddi yma, roedd llongau hwylio bach pren yn cario llechi i bedwar ban byd. Pan gyrhaeddodd prif rwydwaith rheilffyrdd Prydain i ogledd-orllewin Cymru, roedd modd cario llechi ar y trê'n i doi tai yn Lloegr.

Erbyn yr 20fed ganrif, daeth lorïau i gymryd lle'r rheilffyrdd ac ychydig o lechi oedd yn cael eu cludo mewn llongau. Pan ddaeth bygythiad i gau Rheilffordd Talyllyn yn 1950, hi oedd y rheilffordd gyntaf yn y byd i gymdeithas wirfoddol ei chymryd drosodd i'w gwarchod. Rai blynnyddoedd yn ddiweddarach, aeth gwirfoddolwyr ati i adfer Rheilffordd Ffestiniog a oedd yn adfeilio. Mae'r ddwy lein fach hyn a Rheilffordd Llyn Llanberis yn dal i ddefnyddio locos, cerbydau a wagenni hanesyddol. Caiff eraill eu gwarchod yng Nghastell Penrhyn, Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa'r Rheilffyrdd Bach Cul yn Nhywyn.

Pobl a chymunedau

Y diwydiant llechi yw'r Cymreiciaf o holl ddiwydiannau Cymru, ac efallai mai dyma'r unig ddiwydiant sylweddol ym Mhrydain lle'r oedd bron yr holl weithwyr yn siarad iaith heblaw Saesneg. Defnyddiai'r gweithwyr eu hiaith eu hunain i ddisgrifio agweddau ar y gwaith. Mae bron 900,000 o bobl yn siarad Cymraeg, yng Nghymru yn bennaf, ond hefyd yn Lloegr, yr Ariannin ac mewn lluo o wledydd eraill. Mae'r Gymraeg yn tarddu o'r Frythoneg, sef iaith y rhan fwyaf o bobl Prydain cyn ac yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid, ac mae'n perthyn yn agos i'r Gernyweg a'r Llydaweg, ac ychydig yn bellach i'r Wyddeleg, y Fanaweg a Gaeleg yr Alban. Pan gyhoeddwyd y Beibl Cymraeg cyntaf yn 1588 lluniwyd iaith safonol sydd wedi sicrhau bod y Gymraeg yn dal yn iaith ysgrifenedig yn ogystal ag yn iaith lafar. Defnyddir y Gymraeg yn helaeth ym myd addysg, llywodraeth leol, busnes a bywyd bob-dydd ledled Cymru. Yn y gogledd-orllewin y mae'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn byw. Y Gymraeg oedd iaith y diwydiant llechi a dyna pam y mae'r iaith mor gryf yn y gogledd-orllewin hyd heddiw.



Pan agorwyd y chwareli, roeddent yn eithaf pell o'r pentrefi a'r trefi. Roedd rhai chwarelwyr yn byw mewn trefi fel Caernarfon a Bangor ond sefydlodd y rhan fwyaf eu cymunedau eu hunain yn nes at y gwaith ac roedd perchnogion y chwareli'n darparu llety mewn rhai mannau. Roedd gwahanol fathau o lety. Roedd rhai o deuluoedd y chwareli'n byw ar dyddynnod, lle gallent ennill arian yn magu anifeiliaid ac yn tyfu cnydau ar ychydig o gaeau neu ar lain o ardd. Ymgasglai eraill mewn trefi a phentrefi newydd. Yn aml, roedd capel ymhlith yr adeiladau cyntaf ac enwyd y gymuned newydd ar ôl y capel, e.e. Bethesda ac Ebeneser (Deiniolen). Erbyn hyn, caiff y rhain eu cydnabod yn enghreifftiau ardderchog o aneddiadau diwydiannol Fictoraidd.

Roedd llawer o'r aneddiadau chwarelyddol yn gymdeithasau garw, ond roeddent yn parchu addysg. Roeddent yn ymfalchïo yn y traddodiadau cerddorol a barddonol a gâi eu hamlygu mewn eisteddfodau ac roeddent wrth eu bodd yn trafod a dadlau. Roedd lle amlwg hefyd i'r traddodiadau crefyddol cryf a ddatblygodd yng Nghymru yn y 18fed ganrif. Roedd llawer yn rhoi bri mawr ar bregeth raenus ac yn ei chofio am flynyddoedd. Roedd gweinidogion yr efengyl yn bobl bwysig yn yr ardaloedd hyn a llawer ohonynt yn annog agweddau radical, blaengar yng nghymunedau'r chwareli.



Kate Roberts

Ychydig o fenywod oedd yn gweithio yn y chwareli. Yn y 18fed ganrif a'r 19eg, roedd rhai menywod yn gyfrifol am redeg chwareli yr oeddent yn berchen arnynt neu'n dal cyfranddaliadau ynddynt. Yn aml, roedd menywod yn gofalu am y ceffylau pwn, y ceffylau a'r ceirt a hyd yn oed, weithiau, y trenau a gariai'r llechi i'r môr. Wrth i'r diwydiant ddatblygu, roedd y menywod yn fwy tebygol o gael eu cyfyngu i fagu'r teulu, neu weithiau gadw siop. Roedd y nofelydd, Kate Roberts, yn mawrygu bywydau llafurus, darbodus y menywod yn ardal Rhosgadfan lle magwyd hi, ardal o chwareli a thyddynnod. Fodd bynnag, roedd eraill yn feirniadol o fenywod trefi'r chwareli, gan gwyno eu bod yn ddiog ac yn hel clecs.

Roedd Angharad Ellis (chwaer Tom Ellis AS) yn dysgu coginio a chwynai hi bod gwragedd y chwarelwyr yn wastraffus ac yn rhy hoff o hel straeon. Dywedai ei bod yn well ganddynt agor tuniau na choginio bwyd go iawn. Roedd rhai gweinidogion yn feirniadol o ymddygiad menywod – efallai mai adlewyrchiad o wahaniaeth mewn agweddau rhwng y trefi a chefn gwlad oedd hyn. Mae'r ffilm Gymraeg lafar gyntaf, Y Chwarelwr (1935) yn dramatiddio'r dewisiadau anodd yr oedd yn rhaid eu gwneud mewn teuluoedd clòs; ar ôl i chwarelwr yn Ffestiniog farw'n annisgwyl, collodd y teulu y prif gyflog. Gadawodd ei fab ieuengaf yr ysgol ramadeg i fynd i weithio yn y chwarel fel y gallai ei chwaer, oedd yn fwy galluog, fanteisio ar ysgoloriaeth a mynd yn feddyg.

Roedd llawer o chwarelwyr a menywod yng nghymunedau'r chwareli yn feirdd brwd. Weithiau byddai cystadleuaeth yng nghaban y chwarel i gyfansoddi cerdd ar gynghanedd. Câi cerddi eu cyhoeddi yn y cylchgronau enwadol. Roedd y beirdd adnabyddus Robert Williams Parry (1884-1956) a Syr Thomas Herbert Parry-Williams (1887-1975) yn aml yn defnyddio'r chwarel fel delwedd yn eu gwaith.

Y Gweithwyr

Roedd hwn yn ddiwydiant teuluol, â bechgyn yn dilyn eu tadau, eu hewythrod a'u brodyr hŷn i'r chwarel, ac yn dysgu crefftau'r chwarel oddi wrthynt. Yn y 18fed ganrif, roedd menywod yn aml yn gyfrifol am gario'r llechi i'r harbwr â cheffyl pwn neu gart a cheffyl.

Byddai creigwyr a manholtwyr yn gweithio mewn partneriaeth o rhwng chwech ac wyth dyn a elwid yn 'fargen'. Caent eu contractio gan y rheolwyr i weithio ar ddarn neilltuol o'r graig neu siambr danddaear. Roeddent yn cael eu talu yn ôl eu cynnyrch ac nid oedd rheolaeth gaeth ar eu horiau gwaith. Yn aml, byddai'r dynion yn gweithio o doriad gwawr tan y machlud. Câi labrws eu talu fesul tunnell am symud y gwastraff. Yn ôl y dydd y câi gyrwyr injans, mecanyddion a gofaint eu talu. Roedd y cyflog yn dda yn ôl safonau'r 19eg ganrif. Byddai rhai chwarelwyr yn byw yn agos at y gwaith, ac eraill yn teithio'n bell ar droed neu ar drên, gan aros mewn barics yn ystod yr wythnos. Gellir dilyn y llwybrau a'r camau ddilynent yn ôl a blaen i'r gwaith. Mewn un chwarel, roedd gan bob dyn ei gar gwyllt ei hunan i deithio adre o ben y mynydd. Math o sglefrwrdd oedd hwn, yn eistedd ar un gledren â braich yn ymestyn at gledren gyfochrog, ac roedd yn rhedeg i lawr yn inclên.

Am flynyddoedd lawer, nid oedd y rheolwyr yn pwysu'n drwm ar y gweithwyr ond, wrth i'r galw leihau ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd y rheolwyr ddisgwyl oriau sefydlog ac ni fu cynnydd yn y cyflogau. Sefydlwyd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru yn 1874 i gynrychioli buddiannau'r chwarelwyr. Yn ôl safonau heddiw, roedd yn waith caled o dan amodau anodd ond, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd diwydiannau eraill ag amodau gwaeth.



Roedd y chwarelwyr yn enwog am eu hannibyniaeth barn. Roeddent yn darparu eu hoffer eu hunain ac yn cyfrif mai nhw oedd yn gyfrifol am eu hincwm a'u hiechyd a diogelwch ac, weithiau, roeddent yn gwrthdaro â'r perchnogion a'r rheolwyr. O ganlyniad i streic faith yn Chwarel y Penrhyn rhwng 1900 ac 1903, bu chwerwder mawr rhwng y rhai a ddaliodd at y streic a'r rhai a aeth yn ôl i weithio ac nid yw amser wedi llwyr feirioli'r teimladau. Roedd gan ferched ran amlwg yn y streic. Er enghraifft, bu côr merched Bethesda yn codi arian i gefnogi'r streicwyr. Mae'r gagendor cymdeithasol rhwng y chwarelwyr a'r prif dirfeddianwyr i'w weld yn amlwg yn y gwahaniaeth rhwng adeiladau'r pentrefi llechi a chartrefi tirfeddianwyr fel Castell Penrhyn, y Faenol a Phlas Tan y Bwlch.



Mae Ysbyty Chwarel Dinorwig ar agor i ymwelwyr

Roedd y gwaith yn beryglus. Câi dynion eu lladd trwy eu gwasgu dan ddarnau o'r graig yn cwmpo, mewn damweiniau wrth danio, trwy gael eu tynnu i mewn i beiriannau neu wrth gael eu taro gan drên. Roedd llifiau crwn a drilio mecanyddol yn creu llwch llechi mân a achosai silicosis, afiechyd ar y system anadlu na chafodd ei gydnabod am flynyddoedd. Agorodd tri o dirfeddianwyr cyfoethocaf y diwydiant llechi ysbytai ar gyfer y chwarelwyr a'u teuluoedd, yn Chwarel y Penrhyn, yn Ffestiniog ac yn Chwarel Dinorwig. Agorwyd ysbyty Chwarel Dinorwig yn yr 1860au ac erbyn hyn mae'n amgueddfa sy'n agored i'r cyhoedd.


Roedd gan y dynion gwt o'r enw "y caban" lle byddent yn bwyta eu cinio. Daeth y caban yn ganolfan ddiwylliannol lle byddai llawer o ddadlau a thrafod. Byddai'r caban yn codi arian i chwarelwr fynd i brifysgol neu goleg diwinyddol neu i helpu cydweithwyr oedd yn sâl. Roedd y rhan fwyaf o'r chwarelwyr a'u teuluoedd yn grefyddol. Âi rhai i eglwysi Anglicanaidd ond byddai'r rhan fwyaf yn mynd i gapeli'r Methodistiaid, y Bedyddwyr neu'r Annibynwyr, sy'n nodwedd amlwg yn nhirwedd Cymru. Roedd y capeli'n annog y cynulleidfaoedd i ddarllen a dysgu hefyd.

Gwneud arian



Arglwydd Palmerston

Roedd y chwareli llechi a'u systemau trafndiaeth yn ffyrdd o wneud arian. Yn aml, byddai'r perchnogion yn ailfuddsoddi elw o'u tir neu fusnesau eraill er mwyn gwneud y chwareli'n fwy cynhyrchiol. Roedd teulu Castell Penrhyn a bancwyr o Lerpwl a Dulyn a fuddsoddodd yn Rheilffordd Nantlle a Rheilffordd Ffestiniog, wedi gwneud eu harian o'r fasnach gaethweision a phlanhigfeydd siwgwr lle'r oedd caethweision yn gweithio yn Jamaica. Gwnaeth y teulu Oakeley eu harian o waith Charles Oakeley yn weinyddwr ym Madras (India) ac yna'n Llywodraethwr y dalaith.



Gan y tirfeddianwyr yr oedd yr hawliau cloddio. Roedd rhai tirfeddianwyr yn gosod yr hawliau ar brydles i eraill (unigolion, partneriaethau neu gwmnïau) ond roedd rhai chwareli, gan gynnwys y tair fwyaf, Penrhyn, Dinorwig a'r Oakeley, yn cael eu gweithio'n uniongyrchol gan eu perchnogion. Roedd hyn yn anghyffredin ym myd diwydiant Prydain ar y pryd ond nid yn unigryw.

Mewn cyfnodau llewyrchus, roedd y chwareli llechi'n fuddsoddiad gwerthfawr iawn. Daeth llawer o'r incwm i gynnal gyrfa wleidyddol yr Arglwydd Palmerston, Ysgrifennydd Tramor a Phrif Weinidog Prydain, o'i fuddsoddiadau yn niwydiant llechi Ffestiniog. Ni lwyddodd pob chwarel i wneud ffortiwn enfawr. Prin oedd elw rhai chwareli, fel Bryn Eglwys, ac fe gollodd y cyfranddalwyr arian.

Enillai chwarelwyr gyflog da yn y rhan fwyaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ond ddim cystal erbyn yr 20fed ganrif pan oedd y diwydiant yn dirywio. Yn ystod cyfnodau llewyrchus, credai rhai bod chwarelwyr yn gwisgo'n rhy grand er mwyn dangos eu hunain. Wrth i'r galw am lechi ostwng, roedd llai o waith a'r cyflogau'n is.

Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth

O ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, bu ymwelwyr o Ewrop ac America'n dod i chwareli a chloddfeydd llechi gogledd-orllewin Cymru i weld y mannau ysblennydd hyn drostynt eu hunain neu i ddysgu am y systemau rheilffyrdd dyfeisgar. Arlunwyr oedd rhai, a fu'n paentio'r golygfeydd ac roedd eraill yn ysgrifennu eu hargraffiadau o'r ardal.

Ar ôl i'r diwydiant llechi ddirywio, dechreuodd pobl ymddiddori yn nhreftadaeth y diwydiant. Yn 1951, aeth gwirfoddolwyr brwd ati i adfywio Rheilffordd Talyllyn. Yn eu plith roedd y Parchedig Wilbert Awdry, crëwr storïau Tomos y Tanc, a seiliodd y rheilffordd ddychmygol yn y storïau ar lein fach Talyllyn. Ailagorwyd Rheilffordd Ffestiniog gyda chymorth gwirfoddolwyr rhwng 1955 ac 1982. Bu locos y chwarel yn rhedeg ar Rheilffordd Llyn Llanberis ers 1972. Bu llawer o ddiddordeb yn yr hen adeiladau hefyd. Ers 1970, bu archaeolegwyr gwirfoddol yn cofnodi'r chwareli llechi eu hunain. Daeth twristiaeth antur yn elfen boblogaidd mewn hen chwareli a cheudyllau, yn cynnwys gwifrau gwib, trampolîns, llwybrau beicio a cherdded, ogofa a phlymio.



Bu amgylchoedd y chwareli a'u cymunedau yn ysbrydoliaeth i bobl gogledd-orllewin Cymru ers yr un faint o amser. Mae llechfeini a gerfiwyd i addurno tai chwarelwyr yn arwydd o bobl hyderus ac eang eu gorwelion oedd yn mwynhau pethau da bywyd ac yn ymddiddori yn eu hamgylchoedd. Cafodd y traddodiad hwn ei adfywio gan Merched Chwarel, grŵp o artistiaid benywaidd cyfoes a ysbrydolwyd gan y chwareli.

Oherwydd diwylliant y caban a'r pwyslais ar ddysgu, cafodd dynion a merched o gymunedau'r chwareli eu hannog i fynd yn gerddorion, yn haneswyr, yn feirdd ac yn nofelwyr. Roedd William Williams o Landygái yn awdur arloesol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd T. Rowland Hughes o

Lanberis yn fardd, yn emynydd ac yn nofelydd ac ef oedd y cyntaf i gynnwys rheg mewn nofel Gymraeg (yn 1944). Mae nofelau a straeon byrion Kate Roberts yn darlunio'r bywyd anodd a gâi merched yng nghymunedau'r chwareli. Mae'r bwthyn lle magwyd hi, Cae'r Gors, yn agored i'r cyhoedd.

Mae pobl wedi'u hysbrydoli gan y chwareli llechi yn ddiweddarach hefyd,. yn eu plith artistiaid fel Peter Prendergast, Ivor Pritchard ac M E Thompson, cerddorion fel y Super Furry Animals, Anweledig, 9Bach a Martin Dawes; ac awduron cyfoes fel Manon Steffan Ros ac Alys Conran y bu i'w nofel gyntaf 'Pidgin', y tybia llawer iddi gael ei gosod ym Methesda, ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn Cymru yn Saesneg yn 2017. Mae canolfannau fel CellB a Neuadd Ogwen yn dod â digwyddiadau diwylliannol i'r cymunedau llechi ac yn helpu ymwelwyr i ddarganfod y diwylliant unigryw. Caiff ymwelwyr â'r ardal eu hannog i ddysgu ychydig o Gymraeg ac i ddefnyddio'r enwau lleoedd Cymraeg er mwyn eu helpu i gael ymdeimlad o le.

Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft

Roedd chwarelwyr yn grefftwyr medrus. Roedd angen iddynt ddeall daeareg er mwyn ffrwydro'r blociau llechfaen o wyneb y graig heb eu chwalu ac er mwyn eu llifio a'u hollti. Er mwyn sicrhau'r pris gorau am eu bargaen gan y rheolwyr, roedd rhaid iddynt fod yn graff wrth drafod telerau. Roedd rhaid i beirianwyr, mecanyddion a thechnegwyr feistroli gwahanol sgiliau wrth i dechnolegau newydd gael eu cyflwyno i'r chwareli, yn cynnwys pŵer dŵr, aer cywasgedig, injans petrol a diesel, a thrydan.



Deuai arbenigwyr a gweithwyr arbenigol o rannau eraill o Gymru a'r tu hwnt i wneud tasgau penodol yn y chwareli llechi. Daeth Mormoniaid o Ferthyr Tudful yn y de i fod yn dwnelwyr oedd yn creu'r dyfrffosydd tanddaearol yn Chwarel y Penrhyn, cyn ymfudo i Ddinas y Llyn Halen, Utah. Dilynodd Charles Easton Spooner ei dad fel peiriannydd Rheilffordd Ffestiniog ar ôl dysgu ei grefft gydag Isambard Kingdom Brunel. Cafodd technolegau o ddiwydiannau eraill eu haddasu yn y chwareli llechi, yn cynnwys defnyddio leiniau bach haearn (o'r de), injans pwmpio (o Gernyw) a rhaffyrdd awyr (o'r Alban).

Mae'r diwydiant llechi'n dal i weithio heddiw a gwelir sgiliau arbenigol, fel hollti llechi, yn cael eu harddangos yn Amgueddfa Lechi Cymru. Mae cymunedau'r chwareli yn dal yn llefydd prysur heddiw. Mae llechfaen yn dal i gael ei gloddio a'i ddefnyddio nid yn unig ar gyfer toi a gwaith adeiladu traddodiadol ond ar gyfer gemwaith, gwaith celf a gweithgareddau antur. Fel y canodd Anweledig (band o Flaenau Ffestiniog) "“rioed di gweithio'n chwarael, ond gennai lechan yn y gwaed”. Mae ymwelwyr yn heidio i'r chwareli a'r cloddfeydd llechi i gael profiadau fel trampolinio a gwifrau gwib, yn ogystal â llwybrau seiclo a cherdded. Sefydlwyd Gwaith Llechi Inigo Jones yn 1861 i wneud llechi ysgrifennu. Wrth i'r galw am lechi ysgrifennu leihau, dechreuodd y cwmni wneud pethau eraill, fel

platiau trydanol, wedi'u gwneud o lechi enamlog. Parhaodd y cwmni i arallgyfeirio ac mae'n dal i wneud nwyddau o lechfaen. Mae hefyd yn cynnig sgysiau, teithiau ac arddangosiadau i'r cyhoedd.

Y dirwedd a bioamrywiaeth

Wrth i'r diwydiant llechi ddirywio, daeth natur i gymryd drosodd. Mae sawl gwahanol fath o ystlum, yn enwedig yr ystlum pedol lleiaf, sydd â'i gadarnle yng ngogledd Cymru, yn gaeafgyssu mewn ceudyllau a chloddfeydd llechi yng Ngwynedd. Mae chwarel Gorseddau yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion, safle a ddynodwyd oherwydd presenoldeb ystlumod pedol lleiaf. Mae chwarel Nantlle o fewn 2km i Ardal Cadwraeth Arbennig Glynllifon, safle magu a gaeafgyssu ar gyfer poblogaeth fawr o ystlumod pedol lleiaf, sydd tua 6% o'r holl boblogaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae poblogaethau sylweddol o ddyfrgwn yn byw ger y chwareli.

Mae rhai rhywogaethau eiconig o adar yn gysylltiedig â'r chwareli a'u hamgylchoedd, yn cynnwys y frân goesgoch, y mae ei niferoedd yn dirywio'n ddifrifol ac a warchodir o dan Atodlen 1 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981. Yn aml, gwelir yr adar hyn yn nythu mewn chwareli, siafftau mwynloddio a hyd yn oed hen adeiladau chwareli. Rhywogaethau eraill a gysylltir â thirweddau chwareli ac sydd weithiau'n nythu mewn chwareli yw'r hebog tramor, y gigfran a mwyalchen y mynydd.

Mae tirwedd gogledd-orllewin Cymru'n cofnodi stori'r diwydiant llechi – o dystiolaeth o chwareli cynharaf y Rhufeiniaid, i dechnoleg ac adeiladau a godwyd yng nghyfnod diwethaf y diwydiant. Yn aml, y chwareli a'r offer byrraf eu hoes weithiol sydd â'r mwyaf o olion i'w gweld, fel yn Chwarel Gorseddau. Mae'r olion a welir o hyd yn dangos maint buddsoddiad ac optimistaeth y perchnogion, ac yn arwydd o'r datblygiadau a gafwyd o ran cludiant a thechnoleg.

Allforio syniadau a llechi i bedwar ban byd

Roedd y Rhufeiniaid yn allforio llechi o ogledd-orllewin Cymru, dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, roedd llechi'n cael eu defnyddio ar ystadau teulu Pennant yn India'r Gorllewin. Effeithiwyd ar allforion llechi gan ddigwyddiadau fel y cynnydd mewn treth ar lechi a allforiwyd ar y môr, a gyflwynwyd yn 1793 gan y Prif Weinidog, William Pitt, i helpu i dalu am ran Prydain yn rhyfeloedd Napoleon. Pan ddaeth y rhyfel i ben yn 1815, bu cynnydd yn yr allforion unwaith eto. Erbyn 1830 roedd toeau llechi ar hanner adeiladau Efrog Newydd, ac ar ôl tân trychinebus yn Hamburg yn 1842, llechi Cymru oedd y dewis cyntaf ar gyfer toeau yn y ddinas honno. Defnyddir llechi o Gymru o hyd ar adeiladau mawreddog, rhai hanesyddol a rhai newydd.

Fel yr oedd chwarelwyr a pheirianwyr chwareli'n dysgu oddi wrth ddiwydiannau eraill a mewnfudwyr, roeddent hefyd yn allforio'u syniadau a'u sgiliau eu hunain. Symudodd llawer ohonynt o gwmpas Gwynedd ac i fannau eraill gan rannu eu sgiliau a'u profiad. Gadawodd eraill Gymru i redeg chwareli llechi yn Lloegr, Iwerddon, yr Almaen, Awstralia, Tasmania ac America. Cafodd y rheilffyrdd bach cul a ddatblygwyd yn y diwydiant llechi eu haddasu ledled y byd, at ddibenion diwydiannol a milwrol, ac fel math rhad o reilffyrdd cyhoeddus i deithwyr yn nhrefedigaethau gwledydd Ewropeaidd, fel Rheilffordd Himalaiaidd Darjeeling, sydd hefyd yn Safle Treftadaeth y Byd.

Mae llechi o ogledd-orllewin Cymru yn dal i gael eu gwerthu ledled y byd. Mae chwareli'r Penrhyn a Chwt y Bugail yn allforio llechi Cymreig nodedig i bedwar ban byd.

Mae Safle Treftadaeth y Byd presennol gogledd-orllewin Cymru, Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd, yn deillio o gyfnod pan welwyd newid pwysig yng Nghymru'r Canoloesoedd, pan symudodd y bobl yn ôl i fyw mewn trefi am y tro cyntaf ers cyfnod y Rhufeiniaid, a chyflwyno economi a ddefnyddiai arian, wrth i deyrnas Gwynedd a fu unwaith yn annibynnol, gael ei hymgorffori yn y drefn Normanaidd-Blantagenetaidd. Mae hon yn stori o ddarostyngiad wrth i'r Brenin Normanaidd, Edward I fynd ati i godi cestyll. Gwelir y gwrthwyneb yn achos y diwydiant llechi sy'n stori o edrych tuag allan. Yn y diwydiant llechi, roedd yn hanfodol datblygu sgiliau a chrefftau newydd ac fe gafodd y rheiny eu hallforio i wledydd y byd. Yn y naill achos a'r llall, daeth Cymru'n rhan o'r byd mawr y tu allan ac fe gafodd hyn effaith bellgyrhaeddol ar y wlad. Mae'r Safleoedd Treftadaeth y Byd sydd eisoes yng Nghymru yn cyfleu trobwynt pwysig arall yn hanes Cymru – y genedl ddiwydiannol gyntaf. Fel stori diwydiant llechi Cymru, mae Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, a Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn dangos y rhan a chwaraeodd Cymru yn y Chwyldro Diwydiannol ym Mhrydain. Mae Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn adrodd stori diwydiant eithriadol o Gymreig oedd ag effaith fyd-eang.

3. Ardal yr enwebiad am statws Safle Treftadaeth y Byd

3.1 Cyflwyniad i'r Safle Treftadaeth y Byd

Rhannwyd y dirwedd llechi sy'n rhan o'r cais i fod yn Safle Treftadaeth y Byd yn saith ardal ddaearyddol neu ddarn cydrannol. Mae i bob ardal ei chymeriad unigryw, wedi'i ddiffinio gan ei daeareg, y ffordd y cloddiwyd am y llechfaen, y dull o gludo'r llechi i ffwrdd, a'r rhai oedd yn rheoli'r chwareli ac yn gweithio yno. Mae i bob ardal rhwng pedair a dwsin o elfennau allweddol, sef y safleoedd allweddol sy'n helpu i ddangos arwyddocâd yr ardal. Mae tirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru yng Ngwynedd yn adrodd stori fawreddog esblygiad bro amaethyddol, fynyddig, brin ei phoblogaeth i fod yn ardal lle nad oedd dianc rhag y diwydiant llechi; lle'r ymddangosodd chwareli a threfi, ac y cerfiwyd ffyrdd a rheilffyrdd trwy Eryri i borthladdoedd eiconig y glannau. Mae'r broses gyfan, y chwareli, y pyllau dwfn, y ceudyllau a'r tomenni; y systemau cludiant a'r aneddiadau; a'r cynnyrch gorffenedig yn weladwy iawn ac yn hawdd i'w chanfod.

Wrth ddatblygu'r prosiect mae'r saith darn cydrannol wedi troi'n chwech. Nid yw Chwarel Lechi Aberllefenni yn rhan o ardal yr enwebiad bellach. Fodd bynnag, mae'n dal yn rhan bwysig o'r stori ac mae'r adroddiad hwn yn cynnwys pob un o'r saith ardal.

Mae i'r saith ardal deitlau disgrifiadol a ddefnyddir yn Dossier Safle Treftadaeth y Byd ond defnyddir fersiwn fer yn yr adroddiad hwn mewn tablau ac er gwybodaeth fel a ganlyn (isod). Dangosir y gwahanol ardaloedd ar y map ar dudalen 16.

Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Borth Penrhyn	Ogwen
Tirwedd fynyddig Chwarel Dinorwig	Dinorwig
Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle	Nantlle
Chwareli Gorseddau a Thywysog Cymru, y Rheilffyrdd a'r Felin	Chwareli Gorseddau a Thywysog Cymru
Ffestiniog: ei Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog	Blaenau Ffestiniog a'r Rheilffordd
Chwarel Bryneglwys, pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn	Bryneglwys, Abergynolwyn

	a Rheilffordd Talyllyn
Chwarel Aberllefenni	Aberllefenni

3.2 Crynodeb o'r ardaloedd yn ardal yr Enwebiad i fod yn Safle Treftadaeth y Byd

Ceir disgrifiad isod o bob un o'r saith ardal ddaearyddol ac fe'u dangosir ar y map a ganlyn gydag elfennau allweddol pob ardal.

1) Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Borth Penrhyn

Chwarel enfawr a ddaeth yn llewyrchus gyda buddsoddiad teulu'r Penrhyn (a'u hystadau siwgwr). Hon, yn aml, oedd y gyntaf i ddefnyddio technoleg newydd. Mae Castell Penrhyn yn yr ardal hon.



Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, chwarel y Penrhyn oedd y fwyaf yn y byd. Bu pobl yn cloddio am lechfaen yma ers dros 500 mlynedd ac maent yn dal i wneud heddiw.

O ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen, roedd y chwareli'n cael eu rhedeg gan deulu cyfoethog a oedd yn berchen arnynt ac a gododd Gastell Penrhyn wedi hynny. Gwnaeth y teulu Pennant eu cyfoeth ar ystadau siwgwr a chaethweision yn India'r Gorllewin a gallent wario ar y dechnoleg ddiweddaraf i gloddio'r llechfaen a chludo'r llechi o'r chwareli i'r porthladd, ac oddi yno i bedwar ban byd. Melin slabiau Felin Fawr oedd y lle cyntaf yn y byd lle gwyddom iddynt ddefnyddio llifiau crwn i dorri cerrig. Câi'r felin, fel llawer o offer y chwarel, ei gyrru gan ddŵr. Câi'r wagenni eu tynnu ar reiliau gan geffylau ac yna gan locos stêm.

Roedd y chwarelwyr a'u teuluoedd yn byw gerllaw, rhai ar stad y Penrhyn ym Mynydd Llandygái ac eraill, a oedd yn fwy annibynnol, yn dewis codi eu tai eu hunain ger capel Bethesda. Cafodd y dref a dyfodd yno ei henwi ar ôl y capel. Bu awyrgylch chwerw yn yr ardal am amser hir yn dilyn anghydfod maith rhwng y gweithwyr a'r perchnogion a barodd o 1900 tan 1903.

2) Tirwedd fynyddig Chwarel Dinorwig

Dyma ardal sy'n llawn adeiladau, offer a llwybrau cludiant sydd wedi cadw'n dda. Maent yn dangos technoleg a ddefnyddid 150 mlynedd yn ôl i gloddio llechfaen a symud llechi. Dyma lle mae Amgueddfa Lechi Cymru.

Mae ynghanol golygfeydd trawiadol o fynyddoedd a llynnoedd. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, hon oedd y chwarel fwyaf ond un yn y byd. Roedd yn eiddo i deulu Assheton-Smith ac yna i deulu Duff, a oedd yn cystadlu â theulu chwarel y Penrhyn. O'r



ddeunawfed ganrif ymlaen, bu'r teulu'n gosod y tewiau neu'r gwelyau llechi i eraill ond, yn 1820, dechreuodd y perchennog eu rheoli. Roedd yn anghyffredin i dirfeddiannwr reoli'r gwaith diwydiannol ar ei stad (fel a ddigwyddai yn Chwarel y Penrhyn hefyd).

Bu'r chwareli'n gweithio o'r ddeunawfed ganrif tan 1969, gan greu 30 o bonciau ar ochr y mynydd. Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn defnyddio hen adeiladau peiranyddol y chwarel. Mae'r rhain yn adeiladau trawiadol, yn arwydd o statws y perchnogion. Mae'r amgueddfa wedi gwarchod ac adfer llawer o adeiladau'r chwarel. Dim ond un inclên weithiol sydd ar ôl o'r cannoedd a gâi eu defnyddio yn y ardal i symud llechfaen i lawr llethrau'r mynyddoedd. Roedd y system ffyrdd, y ffordd haearn a'r rheilffordd yn cysylltu'r chwareli â phorthladd y Felinheli.

Sefydlodd y gweithwyr Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru i warchod eu buddiannau. Yng Nghraig yr Undeb y byddent yn cyfarfod. Mae rhai o'r adeiladau lle byddai'r gweithwyr yn byw yn dal ar eu traed, o'r Dre Newydd a elwid hefyd yn 'Anglesey Barracks' lle byddent yn aros yn ystod yr wythnos, i fythynnod a godwyd gan deuluoedd y gweithwyr (trwy gynlluniau cydweithredol a chynlluniau benthyg) ym mhentrefi Deiniolen a Chlwt y Bont. Byddai perchennog y tir yn gosod tir, a fu gynt yn dir comin, ar brydles i'r gweithwyr godi tai arno. Erbyn hyn, mae ysbyty'r chwarel a godwyd gan berchnogion y stad yn amgueddfa sy'n dangos gwahanol driniaethau ac yn esbonio anafiadau ac amodau gwaith.

3) Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle

Roedd nifer o dirfeddianwyr yn rhedeg chwareli yn Nyffryn Nantlle. Defnyddid technoleg arloesol o Gernyw a'r Alban i helpu i oresgyn trafferthion a gafwyd wrth gloddio llechfaen o'r dyffryn.

Roedd nifer o dirfeddianwyr yn berchen ar dir a chwareli'r dyffryn ac yn gosod y chwareli ar brydles. Roedd rhai o'r chwareli ar lawr y dyffryn yn hytrach nag ar y llethrau ac maent wedi'u llenwi â dŵr erbyn hyn. Agorwyd un o'r chwareli mwyaf, Chwarel Dorothea, yn 1829, a phan gaewyd hi yn 1970 roedd wedi cyrraedd dyfnder o 100M. Yn Chwarel Dorothea y gosodwyd un o'r injans trawst Cernywaidd olaf, yn 1906, i bwmpio dŵr o'r gloddfa. Roedd olwynion dŵr a flatrods yn Chwarel Pen-y-bryn wedi'u seilio ar system a ddefnyddid mewn mwyngloddiau yn ne-orllewin Lloegr. Defnyddid rhaffyrdd stêm o'r Alban o'r enw 'Blondins' yn Chwarel Blaen y Cae a fersiynau trydan ym Mhen-yr-orsedd. Enwyd y system ar ôl y rhaff-gerddwr enwog, Charles Blondin, ac roedd yn codi tryciau llawn blociau llechi a gwastraff o lawr y dyffryn i'w cysylltu â'r rheilffyrdd a'r tracffyrdd.



Roedd Rheilffordd Nantlle'n cysylltu inclêns a rheilffyrdd mewnol y chwareli â'r porthladd. Câi'r rheilffordd ei hailwampio pan fyddai cloddfeydd yn agor neu'n ehangu ac fe'i gwnaed o reiliau haearn gyrru a sliperi o flociau cerrig. Cynigiai rheolwr Chwarel Pen yr Orsedd dai ar

gyfer y gweithwyr ym mhentref Nantlle, gyda'r nod o wella'u hamodau byw a chadw trefn arnynt. Symudodd llawer o'r chwarelwyr o ardaloedd gwledig i weithio yn y chwareli. Mae llochesi garw'r chwarelwyr yn dal i'w gweld ac maent yn arwydd o dlodi'r 1930au pan fyddai chwarelwyr di-waith yn chwilota'r tomenni llechi er mwyn crafu byw.

4) Chwareli Gorseddau a Thywysog Cymru, y Rheilffyrdd a'r Felin

Sefydlwyd chwareli Gorseddau a Thywysog Cymru ym mlynedd ffyniannus y chwareli llechi, 1850-70au, pan oedd galw mawr am lechi.

Ffurfiwyd ponciau ar y llethrau ar gyfer y ddwy chwarel ac roedd ganddynt felinau fflags yn gweithio â dŵr. Mae melin Ynys y Pandy ar gyfer Chwarel Gorseddau yn edrych fel melin uchelgeisiol iawn. Mae'r cynllun yn adlewyrchu cefndir peirianyddol y perchennog ac mae'n edrych mwy fel abaty na melin lechi. Cododd y perchnogion dai ar gyfer y gweithwyr yn Nhreforys hefyd. Agorwyd rheilffordd o'r Gorseddau i Borthmadog yn 1857 ac, yn ddiweddarach, cysylltwyd hi â Rheilffordd Chwarel Bwlch y Ddwy Elor. Ni chynhyrchwyd llawer o lechi yn Chwarel Gorseddau ar ôl 1866.



Bu cloddio ar raddfa fechan yn y chwarel â'r enw crand, "Prince of Wales", ym Mwlch y Ddwy Elor (Cwm Pennant) o'r 1860au tan 1886.

5) Ffestiniog: ei Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog

Câi agorydd ar wyneb y tir ac o dan y ddaear eu cysylltu â ffyrdd ac afon, ac yn nes ymlaen gan Reilffordd enwog Ffestiniog i Borthmadog.

Chwarelwyr o ardal Nantlle ddaeth i weithio'r chwareli cyntaf ym Mlaenau plwyf Ffestiniog tua diwedd y ddeunawfed ganrif. Erbyn yr 1820au, roedd buddsoddiadau gan wŷr busnes o Loegr (yn cynnwys yr Arglwydd Palmerston) a theuluoedd lleol fel yr Oakeleys a oedd yn byw ym Mhlas Tan y Bwlch, wedi creu cyfres o agorydd, chwareli a cheudyllau llechi.

Ar wyneb y tir y dechreuwyd cloddio yma ond roedd y rhan fwyaf o'r llechfaen o dan y ddaear ac felly agorwyd ceudyllau i ddilyn ongl y llechfaen. Defnyddid inclêns pŵer i halio'r llechfaen a'r rwbel (neu wastraff) i fyni o'r ceudyllau. Melin Chwarel Diffwys oedd y felin stêm gyntaf i gynhyrchu llechi toi yn hytrach na fflags o lechfaen. Agorwyd gorsaf trydan dŵr gynnar ym Mhant yr Afon yn 1904. Manteisiai ar y ffaith bod llawer o law yn yr ardal, gan ddefnyddio dŵr i yrru'r tyrbinau. Mae yno orsaf trydan dŵr sy'n gweithio hyd heddiw.



Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a than yr 1940au, câi llechi o chwareli Ffestiniog eu hallforio o borthladd Porthmadog. Mae ffyrdd dyffryn afon Dwyrdd yn dilyn y llwybrau oedd yn cysylltu'r chwareli â'r ceiau llechi ar yr afon, lle câi'r llechi eu trosglwyddo i gychod bach. Câi'r llwybrau hyn eu defnyddio hyd nes i Reilffordd Ffestiniog agor yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pan agorwyd y rheilffordd yn 1836, roedd y wagenni llawn yn rhedeg i lawr yr allt trwy ddisgyrchiant a cheffylau'n eu tynnu i fyny i'r chwareli. Yn yr 1860au, addaswyd y rheilffordd i ddefnyddio injans stêm a dechreuwyd cludo teithwyr yn ogystal â llechi. Ysbrydolwyd rheilffyrdd gartref a thramor gan draciau cul a llwybr serth y rheilffordd.

Blaenau Ffestiniog, a alwyd gan rai yn 'Ddinas Llechi', oedd tref chwarelyddol fwyaf gogledd-orllewin Cymru ac, erbyn yr 1820au, roedd yn gartref i 12,000 o bobl. Datblygwyd y dref mewn cyfnod byr, ar gyfer y chwarelwyr a'u teuluoedd, a chyn hir, roedd yno bedair eglwys Anglicanaidd a 40 o gapeli anghydfurfiol.

6) Chwarel Bryneglwys, pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn

Roedd y teulu McConnell wedi gwneud arian â'u busnes cotwm ac aethant ati i fuddsoddi mewn technoleg ac yn y rheilffordd lechi gyntaf i gael ei chreu ar gyfer locomotifs. Ganrif yn ddiweddarach, hon oedd y rheilffordd fasnachol gyntaf i gael ei datblygu'n atyniad treftadaeth.

Dechreuwyd gweithio yn Chwarel Bryneglwys yn yr 1840au, ond ni chafwyd buddsoddiad gan y brodyr McConnell tan yr 1860au. Roeddent yn bryderus am eu busnes cotwm ac yn chwilio am gyfleoedd newydd. Câi llechfaen ei gloddio ar wyneb y tir ac o dan y ddaear a chyflwynodd y rheolwyr newydd dechnoleg o chwareli Nantlle a Ffestiniog.



Roedd hyn yn cynnwys inclên gadwyn yn gweithio â dŵr i godi'r blociau llechfaen a'r rwbwl o'r dyffryn a rheilffordd gul bwrpasol. Rheilffordd Talyllyn oedd y rheilffordd lechi gyntaf i'w chreu ar gyfer locomotifs stêm a'r gyntaf i gysylltu â'r brif reilffordd yn hytrach na rhedeg i'r môr. Roedd hyn yn arwydd o effaith y rhwydwaith newydd o brif linellau rheilffordd ar ddiwydiant. Yn ogystal, yn 1951, hon oedd y rheilffordd gyntaf yn y byd i gael ei hailagor a'i gweithredu'n llwyddiannus gan grŵp cadwraeth fel atyniad treftadaeth.

Yn 1910, cymerodd Syr Henry Haydn Jones y chwarel er mwyn cyflawni addewid etholiad i'w chadw'n agored. Bu'r chwarel ar agor tan 1946 pan fu'n rhaid ei chau am ei bod yn rhy beryglus. Caewyd y rheilffordd yn 1950 pan fu farw Syr Henry Haydn Jones. Aeth y chwarelwyr ar streic yn 1920 pan wrthododd ef godi eu cyflogau.

Darparwyd pentref Abergynolwyn gan y brodyr McConnell ac mae'n edrych yn debycach i stryd mewn tref gotwm yn Swydd Gaerhirfryn nag i bentref llechi yng Nghymru. Cynlluniwyd y tai gan James Stevens, pensaer o Fanceinion, a'u codi o lechfaen nad oedd yn addas i'w hollti i wneud llechi toi. Roedd inclên rhwng y pentref a Rheilffordd Talyllyn yn cludo

nwyddau, blociau llechfaen a llechi i'r pentref ac yn cario carthion o'r toiledau i gael ei ddefnyddio fel gwrtaith.

7) Chwarel Aberllefenni

Roedd y cwm cul hwn yn lle anodd i gloddio am lechfaen. Cloddiwyd llechfaen yma ers 500 mlynedd, felly bu'r gloddfa'n gweithio'n ddi-dor am fwy o amser na'r un gloddfa lechi arall yn y byd.

Er nad yw'r ardal hon yn rhan o ardal yr enwebiad bellach, mae ganddi stori bwysig a gyflwynir fel rhan o'r gwaith dehongli.

Câi llechfaen ei gloddio o wyneb y graig ac o dan y ddaear yn y cwm cul a'i gludo i Felin Lechi Aberllefenni. Defnyddiwyd y felin i brosesu llechfaen ers yr 1860au ac mae'n dal i weithio heddiw. Roedd llechfaen Aberllefenni o ansawdd da a châi ei gloddio fel fflags neu slabiau i wneud llefydd tân, rhannau o switshfyrddau a sylfeini peiriannau.



Mae gan adeilad y felin doeau llechi a waliau llechfaen ac fe'i hadeiladwyd i gynnwys dwy olwyn ddŵr i yrru 20 bwrdd llifio i dorri'r llechfaen. Roedd cronfa ddŵr yn cyflenwi dŵr i yrru peiriannau'r felin. Câi'r llechi eu cludo o'r chwareli ar Dramffordd Corris, Machynlleth ac Afon Dyfi a adeiladwyd yn 1859 gan gysylltu â cheiau yn Nerwenlas ac, yn ddiweddarach, â'r brif reilffordd.

Mae tair set o gloddfeydd yn y chwarel gan gynnwys agorydd uchel. Foel Grochan oedd yr olaf i'w chau, a hynny yn 2003. Bu'n rhaid cau'r ddwy arall, chwareli Hen Gloddfa a Cheunant Ddu, gan nad oedd modd mynd iddynt ar ôl cwympau yn yr 1860au. Roedd ymwelwyr o Ffrainc yn yr 1880au yn gweld tebygrwydd rhwng y system siambrau tanddaear a rhai a ddefnyddid yn Nyffryn Loire, Ffrainc. Roedd llawer o'r gweithwyr yn byw ym mhentref Aberllefenni, lle roedd cloch yn y clochdy yn galw'r gweithwyr i'r chwarel ar ddechrau'r dydd.

Yr ardaloedd a enwebwyd a rhanddeiliaid allweddol y prosiect



1. Ogwen
 - 1a. Castell Penrhyn a'r Gerddi
 - 1b. Zip World, Chwarel y Penrhyn
 2. Dinorwig
 - 2a. Amgueddfa Lechi Cymru
 - 2b. Ysbyty'r Chwarel
 - 2c. Mynydd Gwefru
 3. Nantlle
 - 3a. Dorothea Pumped Hydro
 - 3b. Treftadaeth Ddisylw yn Chwarel Nantlle (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd)
 - 3c. Llyfrgell Pen-y-groes
 - 3d. Cae'r Gors (CADW)
 4. Cwm Ystradllyn a Chwm Pennant
 - 4a. Melin Lechi Ynys y Pandy (APCE)
 5. Blaenau Ffestiniog a'r rheilffordd i Borthmadog
 - 5a. Llechwedd
 - 5b. Zip World, Ceudyllau Llechi
 - 5c. Plas Tan y Bwlch (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
 6. Bryneglwys, Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn
 - 6a. Rheilffordd Talyllyn
 - 6b. Y Ganolfan, Abergynolwyn
 7. Aberllefenni (ddim yn rhan o'r enwebiad bellach)
- Arall: Storiell (Bangor/Cyngor Gwynedd)

Terfyn y Safle Treftadaeth Byd

4. Datblygu dull newydd o weithio

4.1 Heriau a chyfleoedd

Yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Dehongli y bu Headland ynddo, gwahoddwyd staff o'r safleoedd perthnasol i gyfrannu at ymarferiad SWOT i ganfod cryfderau a gwendidau'r gwaith dehongli presennol, y cyfleoedd ar ei gyfer a'r bygythiadau sydd iddo. Defnyddiwyd y rhain i bennu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer datblygu'r Strategaeth Ddehongli.

Tirwedd Weladwy

Mae treftadaeth y diwydiant llechi yn rhan amlwg o'r dirwedd, sy'n golygu na ellir ei hanwybyddu ond, heb waith dehongli, gall fod yn anodd i ymwelwyr ddeall ei harwyddocâd. Mae angen i waith dehongli fod yn hawdd ei ganfod ac yn hygyrch. Byddai gwaith dehongli digidol yn galluogi ymwelwyr i ganfod y wybodaeth pan fyddant yn yr ardal. Mae angen iddo adrodd y stori a helpu pobl i ddeall arwyddocâd y dreftadaeth a'i gwerthfawrogi.

Bylchau yn y stori

Mae bylchau yn y stori (rhoddir sylw i'r rhain yn yr archwiliad), yn enwedig o ran hanes cymdeithasol y diwydiant llechi a'r rhan a chwaraeai merched. Adroddir rhannau eraill o'r stori mewn mwy nag un man. Mae angen i'r strategaeth ganfod y bylchau a'r ffyrdd y gellir adrodd y straeon hyn, gyda dulliau o helpu safleoedd i ystyried pa straeon i'w hadrodd ac i ddeall mwy am sut yr adroddir y stori mewn mannau eraill.

Stori pwysig ydym ni'n ei hadrodd?

Mae llawer o bobl yr ardaloedd hyn yn ddisgynyddion chwarelwyr ac yn teimlo'n gryf bod y stori'n perthyn iddyn nhw. Mae'r rheilffyrdd hanesyddol a'r safleoedd antur wedi'u beirniadu am adrodd stori'r diwydiant llechi heb ei deall yn iawn a heb ymgynghori â'r gymuned. Mae'n bwysig ymgynghori â'r gymuned a'i chynnwys wrth baratoi unrhyw ddatblygiad newydd.

Lleoedd digyswllt

Mae safleoedd yn y dirwedd llechi'n adrodd rhannau o'r un stori ond gwnânt hynny mewn ffordd ddigyswllt, heb gyfeirio ymwelwyr i safleoedd eraill. Mae cyfleoedd enfawr i gysylltu safleoedd fel y gall ymwelwyr drefnu diwrnod cyfan o ymweliadau.

Atyniad poblogaidd i ymwelwyr

Mae'r dirwedd llechi wedi'i gosod mewn ardal ddaearyddol gymharol fach sy'n boblogaidd gyda thwristiaid ac yn llawn gweithgareddau yn ogystal â threftadaeth. Mae cyfleoedd i ennyn diddordeb pobl sy'n ymweld â'r ardal yn y dreftadaeth trwy waith dehongli newydd mewn safleoedd awyr agored ac antur. Gellir defnyddio gwaith dehongli hefyd i roi gwybodaeth i ymwelwyr cyn ac ar ôl eu hymweliad.

Rheoli twristiaeth

Os caiff yr ardal statws Safle Treftadaeth y Byd, gallai ddenu mwy o ymwelwyr ond mae pryderon am effaith rhagor o ymwelwyr ar y seilwaith a'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae angen i'r gwaith dehongli gynnwys negeseuon allweddol ynglŷn â pharch at gefn gwlad, olion hanesyddol a chymunedau lleol.

Sicrhau'r bod y stori'n iawn

Mae Cymru'n wlad o straeon a chwedlau ac mae hynny'n wir am y dirwedd llechi hefyd. Yn ddiweddar, mae gwaith ymchwil hanesyddol wedi rhoi pwyslais mawr ar y dirwedd ac adeiladweithiau ac mae peth gwaith ymchwil yn y gorffennol wedi gorbwysleisio'r anghyfiawnder cymdeithasol. Mae'n bwysig bod y stori'n gywir o safbwynt hanesyddol a'i bod yn cael ei hadrodd o wahanol safbwyntiau.

Cyflwyno stori ryngwladol i'r byd


Mae arwyddocâd byd-eang i stori diwydiant a oedd yn allforio nwyddau i bedwar ban byd, ac os caiff yr ardal statws Safle Treftadaeth y Byd, bydd yn denu hyd yn oed fwy o gynulleidfa ryngwladol. Mae angen i'r gwaith dehongli fod yn ddwyieithog ac yn hawdd ei ddeall i bobl nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

4.1.1 Diogelwch yn y dirwedd llechi

Yn naturiol, mae Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn cynnwys rhai elfennau peryglus oherwydd yr adeiladweithiau a'r olion sydd ar ôl. Yn eu plith mae hen adeiladau, peiriannau a gweithfeydd (chwareli, ceudyllau a siafftau). Mae angen rhoi sylw mawr i ddiogelwch ar y rheilffyrdd gweithredol hefyd. Nid yw'r ffaith fod gan le statws Safle Treftadaeth y Byd yn golygu bod y cyhoedd yn cael mynd i eiddo preifat. Mae rhan sylweddol o safle'r enwebiad yn eiddo preifat ac ychydig o hwnnw ar dir na chaniateir i'r cyhoedd fynd iddo oherwydd natur y busnes a/neu y dirwedd. Ni chaniateir mynediad i rai safleoedd am eu bod yn fusnesau masnachol gweithredol (e.e. mae Engie yn rhedeg rhannau o Chwarel Dinorwig fel Gorsaf Trydan Dŵr) a does dim modd mynd i fannau eraill am eu bod yn beryglus (e.e. rhannau o'r rhwydwaith tanddaear). Mae'n rhaid i'r gwaith dehongli newydd ddangos yn glir i ba rannau o ardal yr enwebiad y caniateir mynediad ac i ble na chewch chi fynd.

4.2 Allbynnau ar gyfer y Strategaeth Ddehongli

Gweledigaeth y Prosiect: Bydd y gwaith dehongli ar dreftadaeth y diwydiant llechi'n grymuso, yn ailgysylltu ac yn adfywio cymunedau llechi Gwynedd.



5. Y gwaith dehongli cyfredol

5.1 Cyflwyniad i'r archwiliad o'r gwaith dehongli cyfredol

Mae'r gwaith dehongli cyfredol ledled y dirwedd llechi yn amrywiol ac nid yw'n adrodd stori gydlynol nac yn cynnig profiad cynhwysfawr i ymwelwyr. Yn achos pob ardal, bydd yr archwiliad yn ystyried: mannau lle mae gwaith dehongli eisoes, y straeon a adroddir, sut y cyflwynir y wybodaeth a chyfluoedd ar gyfer gwaith dehongli a fydd yn helpu i lenwi'r bylchau ac yn cynnig gwahanol gyfryngau dehongli. Gwelir crynodeb o hyn mewn tabl yn adran 6.5.

Mae nifer o gynlluniau dehongli sy'n ymddangos ledled y tirwedd llechi. Yn eu plith mae:

- History Points
- Llwybr Llechi Eryri

History Points

Cynllun dehongli digidol sy'n defnyddio codau QR i arwain at wybodaeth dda am adeiladau a mannau hanesyddol. Dangosir y codau QR ar blaciau neu yn ffenestri adeiladau ac maent yn arwain at wefan History Points. Does dim rhaid defnyddio'r codau QR – gallwch fynd yn syth i'r wefan. Yng Nghonwy y cychwynwyd History Points ond erbyn hyn mae'n rhoi gwybodaeth am dreftadaeth Gymreig mewn dros 1,500 o fannau yng Nghymru. Mae'r prosiect yn dibynnu ar nawdd a chomisiynau ond gwirfoddolwyr sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith dehongli ac mae'r adnoddau'n brin. Mae'n wefan ddwyieithog ac mae llawer o'r hanesion ar gael mewn nifer o ieithoedd eraill. Mae yna glipiau fideo gyda iaith arwyddion a chlipiau sain ar gael hefyd sy'n golygu ei fod yn gynllun hygyrch iawn. Gellir chwilio am wybodaeth ar y wefan hefyd ac mae'n cynnwys cyfres o deithiau sy'n gysylltiedig â lle daearyddol neu thema.

Llwybr Llechi Eryri

Cafodd Llwybr Llechi Eryri ei greu gan Grŵp Gweithredu Cymunedol Cwm gyda'r awdur, Aled Owen. Aeth y grŵp ati i greu'r llwybr 85 milltir er mwyn hybu cyfleoedd busnes yn yr hen bentrefi llechi a chyflwyno stori'r diwydiant llechi i gynulleidfa ehangach. Mae'r llwybr yn mynd o Abercegin (ger Bangor) i Fethesda, i fyny i Gapel Curig, trwy Benmachno, Llan Ffestiniog, i Feddgelert, Llanberis ac yn ôl i Fethesda. Mae'r llyfr a gyhoeddwyd i fynd gyda'r paneli gwybodaeth a'r arwyddion cyfeirio yn cynnwys adrannau am hanes y diwydiant llechi, daeareg yr ardal, yr Wyddfa, y rheilffyrdd a'r bywyd gwyllt. Ceir mapiau, gwybodaeth a chyfarwyddiadau ar gyfer pob adran hefyd a phasbort i annog pobl i ymweld â mwy nag un ardal. <https://www.snowdoniaslatetrail.org/cartref.html>



Llwybr Llechi Eryri

I gyd-fynd â'r adroddiad hwn, mae yna brosiectau sy'n canolbwyntio ar y diwydiant llechi ac sy'n cynnwys peth gwaith dehongli:

- Cynllun LleCHI (Lle Arbennig)
- Treftadaeth Ddisylw
- Dyfodol Gwledig
- Cynlluniau Cynefin
- Merched Chwarel

LleCHI – Lle Arbennig

Fel rhan o'r gwaith ehangach o glodfori treftadaeth y diwydiant llechi, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid wedi datblygu prosiect i sicrhau bod cymunedau'r ardal y manteisio i'r eithaf ar y cyffro sydd yn ardal y llechi. Cafodd Cyngor Gwynedd dros £500,000 o wahanol ffynonellau, yn cynnwys Cynllun Lle Arbennig Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Eryri, Arloesi Gwynedd Wledig a'r Cyngor ei hunan, i ddatblygu prosiect "LleCHI" er mwyn sicrhau bod y cymunedau'n elwa, beth bynnag fydd canlyniad y cais am statws Safle Treftadaeth y Byd. Mae LleCHI yn chwarae ar eiriau, gan gyfuno'r geiriau "llechi" a "lle chi" sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i bobl. Bwriad y prosiect yw adfywio cymunedau'r chwareli llechi trwy ddefnyddio'r dreftadaeth, gan ennyn diddordeb y cymunedau, meithrin perthnasoedd, codi ymwybyddiaeth a gwella'r cyrchfannau. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y gwaith dehongli, defnyddio Llysenhadon Ifanc, Cymunedol a Busnes, a gwneud gwelliannau y bydd y cymunedau'n penderfynu arnynt.

Treftadaeth Ddisylw

Ariannir y prosiect archaeoleg hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'i nod yw ennyn diddordeb a brwdfrydedd pobl ifanc ledled Cymru a'u hysbrydoli i ymwneud â threftadaeth eu hardal. Mae Animeiddio Dyffryn Nantlle yn un o chwe phrosiect. Caiff ei reoli gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd gyda'r nod o edrych ar y bobl a'r cymunedau a oedd yn gweithio yn chwareli llechi'r Dyffryn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Bu'r criw o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trwy'r flwyddyn, yn cynnwys teithiau cerdded, ymchwil, archaeoleg a gwneud ffilmiau ac maent yn creu Ap i adrodd hanes Chwarel Dorothea.

Dyfodol Gwledig

Asiantaeth Ynni Hafren Gwy a Phartneriaeth BRO sy'n rhedeg Dyfodol Gwledig ac fe'i hariennir trwy grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn cefnogi pobl yn y cymunedau ac yn rhoi cyfle iddynt ddewis heriau lleol ac i ddatblygu prosiectau a fydd yn eu galluogi i helpu i fynd i'r afael a phroblemau gwledig yn eu hardaloedd.

Prosiect Ein Treftadaeth, Cadw

Cafwyd cyllid i ddatblygu gwaith dehongli newydd yn Ysbyty Chwarel Dinorwig ac adnoddau digidol yn cynnwys Taith y Llechen.

Cynlluniau Cynefin

Datblygwyd Cynlluniau Cynefin fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer yr enwebiad am statws Safle Treftadaeth y Byd yn yr ardaloedd a ganlyn:

- Blaenau Ffestiniog
- Bethesda
- Deiniolen
- Tywyn

- Llanberis
- Penygroes

Amcanion y cynlluniau yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi a'u hannog i ymfalchïo ynddi
- Hybu adfywiad cymdeithasol ac economaidd yr ardal

Mae'r cynlluniau'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd cymunedol a thwristiaeth, yn cynnwys gwaith dehongli newydd mewn rhai achosion. Bydd y prosiectau a ddatblygir yn defnyddio'r Strategaeth Ddehongli er mwyn sicrhau naratif gydlynus.

Merched Chwarel

Cynllun ar y cyd rhwng pedair artist, Marged Pendrell, Jwls Williams, Lisa Hudson a Lindsey Colbourne yw Merched Chwarel. Mae eu gwaith yn gysylltiedig ag ardaloedd chwarelyddol y gogledd. Dechreuodd y merched gydweithio yn 2016, a gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a chydweithrediad y curadur Jill Piercy, maent wedi datblygu cyfres o arddangosfeydd (Storiell Ebrill - Medi 2019, Amgueddfa Lechi ac Ysbyty'r Chwarel, Llanberis Gorffennaf 2019 - Ionawr 2020, Llyfrgell Blaenau Ffestiniog a Cheudyllau Llechi Llechwedd Medi - Tachwedd 2019) mewn ymateb i'r cwestiwn: *"Pwy ydym ni, Merched Chwarel y gorffennol, y presennol a'r dyfodol? Sut mae ein hestheteg, ein hunaniaeth a'n cysylltiad â lle, ein cynefin, diwylliant ac iaith, wedi ei gyfryngu gan y chwareli?"* Mae eu gwaith wedi cynnwys cryn dipyn o ymchwil i straeon nad oedd yn hysbys am ferched, yn cynnwys cydweithio â nifer o ymchwilwyr, perfformwyr ac ysgrifennwyr fel Dafydd Gwyn ac Elin Tomos. Maent wedi meithrin elfen gref o ymgysylltu cymunedol trwy weithdai Canu Chwarel (gyda chefnogaeth y cais am statws Safle Treftadaeth y Byd) a Wal o Ferch (gyda chefnogaeth y Rhwydwaith Cyfuno), cydweithio â grwpiau cymunedol (fel Treftadaeth Ddisylw yn Nhal-y-sarn), sgysiau ac ymweliadau a digwyddiadau cymunedol. Cawsant sylw ar y teledu a'r radio hefyd. Mae eu gwefan www.merchedchwarel.org yn rhan hanfodol o'u gwaith. Mae'n cynnwys straeon Merched Chwarel, gwaith gan bobl greadigol eraill, digwyddiadau, siop ar-lein a sylwebaeth.

5.2 Archwiliad o'r gwaith dehongli cyfredol

Mae'r tabl isod yn dangos sut y caiff y straeon eu hadrodd yn y gwahanol ardaloedd ar hyn o bryd. Mae'r sgwariau glas yn dangos bod y stori'n cael ei hadrodd ac mae'r rhai oren yn dangos cyfleoedd i adrodd y stori. Caiff y rhain eu trafod ymhellach yn y naratif isod.

Pynciau	Ogwen	Dinorwig	Nantlle	Chwareli Gorseddau a Thywsog Cymru	Blaenau Ffestiniog a'r Rheilffordd	Bryneglwys, Abergynolwyn a Rheilffordd Talylyn	Aberllefenni
Y graig a'r gwaith prosesu							
Cludo ac allforio							
Pobl a chymunedau							
Y gweithwyr							
Gwneud arian							

Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth							
Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft							
Y dirwedd a bioamrywiaeth							
Allforio byd-eang							

	Gwaith dehongli cyfredol
	Cyfleoedd i ddehongli

Ogwen

Yn yr ardal hon roedd y chwarel lechi fwyaf yn y byd. Mae yno lawer o gyfleusterau i ymwelwyr ac amrywiaeth o waith dehongli sy'n golygu bod yno ddigonedd i ymwelwyr ei weld a'i wneud. Mae'r dirwedd a'r ffaith fod yno chwarel weithiol yn ei gwneud yn hawdd darllen y dirwedd a deall y broses a'r dreftadaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar Gastell Penrhyn ac yn ei reoli, ac mae yno Amgueddfa Reilffyrdd. Mae paneli graffeg yn tynnu sylw at safleoedd diddorol ac arwyddocaol i'w gweld yma a thraw yn yr ardal. Mae llwybrau treftadaeth o gwmpas pentref Bethesda ac mae llwybr antur yn Zip World. Mae Zip World yn cynnig teithiau o gwmpas y chwarel ar eu Bws Mawr Coch hefyd ac mae Breedon Welsh Slate, perchnogion Chwarel y Penrhyn, sy'n dal i weithio, yn cynnig teithiau i'r chwarel honno'n achlysurol. Mae canolfan ymwelwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Canolfan Ogwen) yn cael ei hadnewyddu a bydd y gwaith dehongli newydd yn canolbwyntio ar dirwedd a bioamrywiaeth yr ardal.



Amgueddfa rheilffyrdd yng Nghastell Penrhyn



Ystafell y gwely llechfaen, Castell Penrhyn



Zip World, Llechwedd

Mae'r gwaith dehongli presennol yn tueddu i ganolbwyntio ar olion y chwareli a stori perchnogion y chwareli a'u perthynas â'r gweithwyr. Mae stori Streic Fawr y Penrhyn yn wybyddus i lawer ac fe'i hadroddir trwy baneli graffeg a gwefan a phlac History Points. Mae'r dirwedd, gwybodaeth yn Zip World a'r chwarel sy'n dal i weithio yn helpu i esbonio gwaith prosesu llechi. Mae arddangosiadau a

gwybodaeth am y dreftadaeth yn Neuadd Ogwen a Llys Dafydd, Bethesda ac fe gynhelir digwyddiadau diwylliannol yno hefyd.



Panelli graffeg ym mhentref Bethesda

Cyfleoedd

Bydd gwaith dehongli newydd yng Nghastell Penrhyn yn gyfle i adrodd stori ystad a adeiladwyd ar gefn y fasnach gaethweision, i ystyried sut y casglwyd yr holl gyfoeth ac i ddeall cost y gwaith adeiladu. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ailarddangos ac yn dehongli'r casgliad rheilffyrdd hefyd er mwyn adrodd stori ehangach y gweithwyr yn ogystal â'r locos a'r rheilffordd. Mae prosiect LleCHI yn cydweithio â'r gymuned i benderfynu ar brosiectau a fydd yn adrodd eu hanes.

Dinorwig



Amgueddfa Lechi Cymru

Yma y mae Amgueddfa Lechi Cymru ac mae hynny'n help i'r ardal adrodd holl stori'r diwydiant llechi. Mae yma rai chwareli y gellir mynd iddynt, mae'r amgueddfa'n dangos sut y câi'r llechfaen ei brosesu, mae'r rheilffordd a'r inclêns yn dangos heriau cludiant a sut y cawsant eu datrys, mae'r ysbyty'n tynnu sylw at realiti bywyd chwarelwr ac mae digonedd o baneli graffeg, llwybrau a phwyntiau digidol sy'n adrodd

agweddau ar y stori. Fodd bynnag, mae'r amgueddfa'n canolbwyntio ar ardal Dinorwig yn hytrach na'r stori genedlaethol ac mae'r gwaith dehongli'n tueddu i fod braidd yn hen ac angen ei adfywio. Yn ôl adolygiadau TripAdvisor, mae 'na ddiddordeb yn y pwnc ond bod yr arddangosiadau braidd yn hen-ffasiwn, neu'n "sylfaenol". Mae adolygiadau o Ysbyty'r Chwarel yn cyfeirio at yr amserau agor (dydi'r ysbyty ddim ar agor bob dydd ac mae'n ffordd bell i ddringo'r grisiau cyn cael gwybod hyn!). Mae pobl sydd â diddordeb yn y pwnc yn mwynhau'r arddangosfeydd ond yn nodi ei bod hi'n arddangosfa eithaf bach.



Ysbyty Chwarel Dinorwig

Tŷ wedi'i ddodrefnu yn null cyfnod hanesyddol, Amgueddfa Lechi Cymru

Mae'n hen bryd ailwampio'r Amgueddfa Genedlaethol sy'n adrodd stori diwydiant llechi Cymru trwy chwareli Dinorwig. Mae Rheilffordd Llyn Llanberis, Ysbyty'r Chwarel a Mynydd Gwefru yn atyniadau llai sydd hefyd yn apelio at ymwelwyr. Gallai'r safleoedd gael eu cysylltu'n well trwy'r straeon y maent yn eu hadrodd.

Cyfleoedd

Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn bwriadu gwneud gwaith mawr i ailwampio'r amgueddfa a'r gwaith dehongli er mwyn adlewyrchu'r stori genedlaethol a manteisio i'r eithaf ar wahanol ddulliau dehongli. Mae'r Mynydd Gwefru ar gau ar hyn o bryd i'w adnewyddu a bydd yr atyniad newydd i ymwelwyr yn cynnwys gwaith dehongli newydd am chwareli Dinorwig. Bydd prosiect LleCHI yn datblygu gwaith dehongli a gwaith celf newydd yn Ysbyty'r Chwarel a gwaith am y Streic Fawr yng Nghraig yr Undeb. Bwriedir gwneud gwaith dehongli ym mhentref Llanberis hefyd trwy'r Gronfa Datblygu Gwledig.

Nantlle

Ychydig o waith dehongli sydd yn yr ardal ar hyn o bryd. Mae Cae'r Gors, cartref yr awdur Kate Roberts, a reolir gan Cadw, ar agor un diwrnod yr wythnos ac mae golygfeydd o fyd y chwareli llechi ar gofeb ryfel Nantlle. Nid oes llawer o bobl yn mynd i Gae'r Gors (dim ond 7 adolygiad sydd ar TripAdvisor). Mae stori Kate Roberts yn un bwysig ond nid oes llawer y tu allan i Gymru yn gwybod am ei gwaith. Mae'r prosiect Treftadaeth Ddisylw gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd wedi gwneud gwaith ymchwil a chloddio archaeolegol ac maent yn creu Ap i ddehongli stori pobl a safleoedd Chwarel Dorothea. Mae'n bosib y bydd y prosiect LleCHI yn gwneud mwy o waith dehongli. Mae wrthi'n cydweithio â'r gymuned i benderfynu ar brosiectau a fydd yn adrodd eu hanes.

Cyfleoedd

Mae nifer o leoliadau cymunedol lle gellid cynnwys gwaith dehongli graffig, yn cynnwys: Y Banc, Trigonos, Yr Orsaf, Barics Nantlle (siopau) a Llyfrgell Pen-y-groes. Byddai modd ailddatblygu Cae'r Gors, lle magwyd yr awdur Kate Roberts, i adrodd hanes ehangach merched yn y diwydiant llechi, gan elwa ar y manylion yn ei nofelau am fywyd cartref y teuluoedd.

Chwareli Gorseddau a Thywysog Cymru

Mae bwriad i osod panel graffeg newydd ym Melin Lechi Ynys y Pandy. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gynlluniau i wneud y felin lechi'n fwy hygyrch a gwella'r gwaith dehongli. Does dim modd mynd i Chwarel Gorseddau ond mae cyfle i wneud gwaith dehongli newydd yn Chwarel Bwlch y Ddwy Elor.

Cyfleoedd

Bydd gwaith dehongli newydd ym Melin Lechi Ynys y Pandy yn ei gwneud yn haws deall y safle a bydd yn ganolbwynt ar gyfer dehongli. Gallai gyfeirio ymwelwyr at Chwarel Bwlch y Ddwy Elor gerllaw lle gellid cael gwaith dehongli newydd gyda phwyslais gwahanol.

Blaenau Ffestiniog a'r Rheilffordd

Mae'n debygol mai dyma'r ardal sy'n cael y nifer fwyaf o ymwelwyr, gydag atyniadau mawr i ymwelwyr fel Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, Llechwedd a Zip World. Nid atyniadau treftadaeth yw'r rhain yn bennaf ond mae iddynt sylfaen gadarn yn y diwydiant llechi a chysylltiad agos ag ef ac mae yno beth gwaith dehongli. Does bron ddim gwaith dehongli am y diwydiant llechi a hanes y



Boston Lodge, Rheilffordd Ffestiniog



Yr Amgueddfa Forwrol, Porthmadog

rheilffordd ar y rheilffordd hanesyddol (dim ond yn yr arweinyfr) ond maen nhw'n datblygu prosiect i sicrhau cyllid i ddatblygu gwaith peirianyddol hanesyddol Boston Lodge ac i wneud gwaith dehongli newydd ar gyfer y rheilffordd. Yn Llechwedd, yn ogystal â'r gweithgareddau anturus, ceir teithiau tywys o'r ceudyllau llechi hanesyddol. Mae gwaith dehongli a gwaith celf yn nhref Blaenau Ffestiniog ac yn Antur Stiniog a Thŷ Mawddach. Ym Mhlas Tan y Bwlch, cartref y teulu Oakeley, perchnogion chwareli, mae peth gwaith dehongli am y tŷ, y teulu a'r diwydiant llechi yn ehangach ond nid yw'n hygyrch iawn, ac nid yw'n glir pa lwybr y dylai ymwelwyr ei ddilyn. Caiff Amgueddfa Forwrol Porthmadog ei rhedeg gan wirfoddolwyr a cheir yno arddangosiadau graenus o bethau sy'n adrodd stori Porthmadog a Rheilffordd Ffestiniog. Mae gan y prosiect LleCHI a'r Cynlluniau Cynefin fwriadau i ddarparu gwaith dehongli newydd ym Mlaenau Ffestiniog. Mae hyn yn cynnwys syniadau ar gyfer cysylltu'r dref â llwybr cerdded i gyrraedd atyniadau Llechwedd. Mae llwybrau beicio Antur Stiniog (a enwyd ar ôl termau'r chwarel) yn elwa ar dirwedd drawiadol y diwydiant llechi.

Ar hyn o bryd, cyflwynir gwaith dehongli trwy baneli graffeg, teithiau tywys (yn Llechwedd), gwaith celf a llwybrau yn dilyn cyfarwyddiadau digidol a thafenni,

fel y wefan History Points. Mae rhai arddangosiadau rhyngweithiol syml yn yr Amgueddfa Forwrol ond, ar y cyfan, gwybodaeth ysgrifenedig wedi'i hanelu at oedolion sydd yno. Mae arddangosfa Cymdeithas Hanes Ffestiniog yng Nghaffi Antur Stiniog yn enghraifft wych o waith dehongli cymunedol.



Gwaith graffeg ac arddangosiadau awyr-agored ym Mhlas Tan y Bwlch

Cyfleoedd

Mae cynlluniau ar y gweill am brosiect i warchod a dehongli melin lechi Maenofferen a cheudwll Llechwedd. Gwnaeth Rheilffordd Ffestiniog gais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol am arian i ddatblygu gwaith dehongli a gweithgareddau newydd yn gysylltiedig â gwaith peiranyddol Boston Lodge. Bydd hyn yn cynnwys gwaith dehongli ledled y safle i adrodd stori ehangach y diwydiant llechi yn yr ardal. Ym Mhlas Tan y Bwlch, byddai dehongli mwy cydlynus yn fwy apelgar i ymwelwyr a gallai adrodd stori ehangach. Gall gwaith dehongli a llwybrau cerdded newydd helpu i ddenu ymwelwyr i Flaenau Ffestiniog a'u galluogi i ganfod stori'r bobl a'r cymunedau a greodd y dirwedd llechi. Mae cynlluniau i gyfuno prif orsaf reilffordd a gorsaf reilffordd dreftadaeth Blaenau Ffestiniog ac i sicrhau bod hyn yn cynnwys gwaith dehongli.

Bryneglwys, Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn



Rheilffordd Fach Gul, Tywyn



Panel graffeg, Rheilffordd Talyllyn

Yn Nhywyn ac Abergynolwyn y mae'r rhan fwyaf o'r gwaith dehongli yn yr ardal hon. Yn Nhywyn, mae Amgueddfa'r Rheilffordd Bach Cul yn adrodd stori'r leiniau bach hynny gan ganolbwyntio ar y rhai a grëwyd ar gyfer y diwydiant llechi a'r cysylltiadau â'r Parch Wilbert Awdry (awdur gwreiddiol straeon Tomos y Tanc). Er bod yr amgueddfa'n annibynnol ar y lein fach, mae llawer o'r teithwyr yn

ymweld â'r amgueddfa hefyd. Mae gan Reilffordd Talyllyn ychydig o baneli graffeg yng Ngorsaf Reilffordd Tywyn i roi'r rheilffordd yn ei chyd-destun ac i esbonio'i harwyddocâd. Mae History Points am y rheilffordd ym mhentref Tywyn hefyd. Mae'r gymdeithas hanes leol wedi gwneud gwaith dehongli newydd o gwmpas y dref, yn cynnwys teithiau cerdded hanesyddol, taflenni a phaneli graffeg newydd. Mae panel graffeg yn Chwarel Bryneglwys ac arddangosfa o ffotograffau hanesyddol yn neuadd gymuned Abergynolwyn.



Rheilffordd Talyllyn

Ychydig o waith dehongli sydd yn yr ardal hon ac mae'n canolbwyntio ar y rheilffordd a chyd-destun rheilffyrdd bach cul, yn hytrach na'r diwydiant llechi. Mae gan Reilffordd Talyllyn gyfres o gynlluniau i ddatblygu gwaith dehongli newydd. Mae hyn yn cynnwys gwaith dehongli mewn wagen, man newydd i gadw cerbydau a wagenni, a datblygiadau yn Abergynolwyn ac yng ngweithdy peirianyddol Pendre, Tywyn.

Cyfleoedd

Gallai gwaith dehongli newydd yng Ngorsaf Abergynolwyn adeiladu ar y diddordeb mewn arddangos ffotograffau hanesyddol er mwyn cyflwyno hanes chwarel Bryneglwys a'r pentref a godwyd gan fasnachwyr cotwm o Swydd Gaerhirfryn.

Aberllefenni

Mae modd myn i'r pentref a'r chwarel. Yn y pentref, ceir cyfres o baneli graffeg am hanes yr ardal a'r diwydiant llechi ac mae yna lwybrau cyhoeddus i'r chwarel. Mae paneli dehongli ym mhentref Corris (y tu allan i ardal y cais) ac mae Rheilffordd hanesyddol Corris ac atyniad Corris Mine Explorers yn rhoi profiad o'r dreftadaeth.



Paneli graffeg yng Nghorris



Institiwt y pentref, Corris

Cyfleoedd

Byddai modd datblygu rhagor o waith dehongli ym mhentrefi Aberllefenni a Chorris gan gysylltu storïau'r gweithwyr a'r cymunedau â'r diwydiant llechi.

Y tu allan i ardal yr enwebiad am statws Safle Treftadaeth y Byd

Adroddir stori diwydiant llechi Cymru mewn mannau gerllaw ardal yr enwebiad am statws Safle Treftadaeth y Byd. Mae rhai o'r mannau a drafodir uchod yn rhan o ardal yr enwebiad ond nid yn elfennau a restrir. Mae llefydd eraill gerllaw sydd naill ai'n adrodd rhan o'r stori neu a fyddai'n gallu gwneud hynny.



Merched Chwarel, Storiol

Mae **Cei Llechi yng Nghaernarfon** yn cael ei ddatblygu i greu atyniad bach i ymwelwyr yn Swyddfa'r Harbwrfeistr ynghyd â lle i fusnesau. Bydd gwaith dehongli ledled y safle'n adrodd stori cludo ac allforio llechi a datblygiad y cei llechi yng Nghaernarfon. Yn **Storiol, Bangor**, mae'r arddangosfeydd yn adrodd stori pobl Gwynedd. Ceir yno arddangosiadau o eitemau hardd wedi'u gwneud o lechfaen a stori'r diwydiant yn y sir. Cynhelir arddangosfeydd dros dro yn yr amgueddfa hefyd ac mae wedi cydweithio â Merched Chwarel.

5.3 Ymgynghori â rhanddeiliaid ac atyniadau allweddol

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, cyfarfu'r ymgynghorwyr â rhanddeiliaid a phartneriaid mewn cyfarfodydd a gweithdai. Yn achos rhai o'r llefydd mwyaf, trefnwyd sgysiau ychwanegol er mwyn deall cynlluniau a chyfleoedd.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Gweithdy rhanddeiliaid
- Cyfarfod yng Nghastell Penrhyn
- Cyfarfod yn Amgueddfa Lechi Cymru
- Cyfarfod ac ymweliad safle, Rheilffordd Talyllyn
- Cyfarfod yn Rheilffordd Ffestiniog
- Gweithdy adborth i rhanddeiliaid
- Digwyddiadau ymgynghori ac ymweliad safle gyda'r Llysgenhadon Ifanc a Grŵp Ieuenctid Treftadaeth Ddisylw
- Cyfarfod Perchnogion Tir Llechi Cymru
- Sgwrs gyda Dave Penberthy – Pennaeth Dehongli, Cadw
- Cyfarfod gyda Croeso Cymru

Ceir crynodeb o'r sgysiau a'r cyfarfodydd hyn yn y nodiadau isod.

Gweithdy Rhanddeiliaid

Mae'r grŵp hwn yn cynrychioli prif bartneriaid a rhanddeiliaid y dirwedd llechi. Cymerodd y grŵp ran mewn gweithdy cychwynnol, gan ddechrau gyda SWOT i edrych ar gryfderau a gwendidau gwaith dehongli presennol y diwydiant llechi, y cyfleoedd ar ei gyfer a'r bygythiadau sydd iddo. Yn

ogystal, bu'r grŵp yn trafod cynulleidfaoedd presennol eu hatyniadau neu eu safleoedd, a oedd yn amrywio o safle i safle, ac a oedd yn cynnwys twristiaid a phobl leol, pobl hŷn a selogion yn ogystal â theuluoedd a phobl sy'n chwilio am wefr. Bu'r grŵp yn edrych ar fodel Theori Newid ac yn trafod canlyniadau tymor hir y prosiect hwnnw. Fe'i defnyddiwyd i ddatblygu'r model Theori Newid yn adran 4.2 sy'n dangos canlyniadau a chynnyrch y prosiect.

Cyfarfod yng Nghastell Penrhyn

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi buddsoddi mewn prosiect o'r enw Trawsnewid Castell Penrhyn a fydd yn archwilio hanes y Castell a'i berchnogion ac yn adrodd y stori gyflawn. Bydd y gwaith dehongli newydd yn canolbwyntio ar ddiwydiant, cyfoeth a llafur, hanes crynhoi grym a chyfoeth, a chrefft a dylunio. Mae'r gwaith dehongli presennol yn canolbwyntio ar stori teulu Pennant.

Dyma sut y maent yn disgrifio'r weledigaeth: "to collaboratively share the complete story of Penrhyn Castle, reconciling what it once stood for and its impact and influence locally and worldwide, with what it is now and into the future: a dynamic and engaging place, which is as relevant and captivating to those new to the story as it is to those who live with its legacy." Ar hyn o bryd, mae'r castell yn cyfeirio ymwelwyr at safleoedd eraill yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond gellid sôn am fannau eraill sy'n gysylltiedig â threftadaeth y diwydiant llechi hefyd. Mae cynlluniau ar y gweill i addrefnu'r arddangosfa reilffyrdd. Mae'r arddangosfa bresennol wedi'i hanelu at bobl sydd â diddordeb mawr mewn rheilffyrdd ond, pe bai'r stori'n cael ei ehangu, gellid cael arddangosfa fwy atyniadol sy'n helpu i adrodd stori'r bobl oedd yn gweithio ar y rheilffordd ac yn y chwareli.

Amgueddfa Lechi Cymru

Mae staff yr amgueddfa'n gweithio ar Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer adeilad newydd i groesawu ymwelwyr, lle newydd i storio'r casgliadau, lle ar gyfer arddangosfeydd teithiol a lle ar gyfer gwaith dehongli ar ei newydd wedd. Byddai pedwar cam i'r prosiect:

- Yr adeilad newydd
- Prentisiaethau a gweithdai newydd i warchod ac arddangos sgiliau traddodiadol
- Datblygu rhagor o adeiladau wedi'u dodrefnu yn null cyfnodau hanesyddol
- Datblygu llwybrau a mynediad i chwareli Dinorwig fel y gall ymwelwyr fynd yno a'u gweld yn ddiogel

Un o'r heriau yw adrodd stori genedlaethol y diwydiant llechi mewn adeilad eiconig sy'n berthnasol i'r ardal leol. Mae'r amgueddfa'n nodi hanner canmlwyddiant cau'r chwarel (yn 1969) gyda digwyddiadau a gweithgareddau mewn partneriaeth â Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Maent yn cofnodi hen enwau'r ponciau ochr yn ochr ag enwau modern ac yn creu map a gwaith celf.

Sgwrs gyda Dave Penberthy, Pennaeth Dehongli, Cadw

Yng Nghae'r Gors y magwyd yr awdur, Kate Roberts. Mae ei nofelau a'i straeon byrion yn disgrifio profiadau pobl oedd yn byw ac yn gweithio yn y gogledd a gosodwyd llawer ohonynt yn ardaloedd y llechi. Dim ond un diwrnod yr wythnos (neu trwy drefniant) y mae'r tŷ ar agor ar hyn o bryd a bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Gellid datblygu'r gwaith dehongli i adrodd stori ehangach y rhan a chwaraeai merched yn y diwydiant llechi ac yn y gymuned. Byddai hyn yn apelio at fwy o bobl.

Rheilffordd Talyllyn

Mae'r Rheilffordd ac Amgueddfa'r Rheilffyrdd Bach Cul yn cael eu rhedeg gan ddwy ymddiriedolaeth wahanol. Mae'r Rheilffordd yn agor yn dymhorol ond mae'r siop a'r caffi ar agor trwy'r flwyddyn. Mae'r rheilffordd yn dibynnu ar wirfoddolwyr ac mae'n denu 46,000 o deithwyr y flwyddyn. Yn ddiweddar, cafwyd cyllid i wella'r toiledau ac mae cynlluniau ar y gweill i greu hostel newydd ar gyfe gwirfoddolwyr a rhagor o le ar gyfer gweithdai ym Mhendre fel y gall yr ymwelwyr weld y gwaith adfer yn cael ei wneud. Mae cynlluniau hefyd i ddatblygu gwaith dehongli newydd yng ngorsaf Abergynolwyn a fyddai'n denu sylw ymwelwyr ar y pen hwnnw i'r rheilffordd ac yn gyfle i adrodd stori ehangach y rheilffordd, y diwydiant llechi yn yr ardal a'r bobl oedd yn gweithio yma. Agorwyd yr amgueddfa yn yr 1950au ar ôl cael eitemau'n ymwneud â rheilffyrdd bach cul. Un o'r atyniadau mwyaf poblogaidd yw'r astudiaeth o'r Parch Wilbert Awdry (awdur gwreiddiol llyfrau Tomos y Tanc) a fu'n gwirfoddoli ar y rheilffordd hanesyddol ac yn frwd ei gefnogaeth iddi.

Ymgynghori â'r Llysgenhadon Ifanc a Grŵp Ieuencid Treftadaeth Ddisylw



Cyfarfu pobl ifanc o Raglen Llysgenhadon Ifanc y Safle Treftadaeth y Byd â phobl ifanc o'r grŵp Treftadaeth Ddisylw i drafod straeon a themâu treftadaeth y diwydiant llechi ac i adolygu'r Fframwaith Dehongli oedd yn datblygu. Bu'r grŵp yn trafod y straeon a ddaeth i'r golwg yn ystod eu hymchwil a'r mathau o waith dehongli yr oeddent yn eu ffafrio. Buont yn rhannu straeon rhai o'r bobl a fu'n gweithio yn y chwareli a'u teuluoedd. Roeddent yn arbennig o hoff o

stori Alice Griffiths a stori pobl a gafodd ddamweiniau yn y chwareli a gwella wedyn. Roedd ganddynt ddiddordeb yn y dechnoleg a ddefnyddid yn y chwareli, fel yr injan drawst yn chwarel Dorothea a'r Blondins ym Mlaen-y-cae a Phen yr Orsedd. Hoffent weld gwaith dehongli ar y diwydiant llechi yn y dyfodol, ynghyd â gwarchod y dirwedd a denu rhagor o ymwelwyr. Mae'r Grŵp Treftadaeth Ddisylw yn creu gwaith dehongli digidol a bu pobl ifanc eraill yn cymryd rhan mewn drama o'r enw Llechan Wen o dan arweiniad cwmni theatr Frân Wen yn Amgueddfa Lechi Cymru yn ddiweddar.

Ymateb o'r gweithdy i randdeiliaid

Gwahoddwyd rhanddeiliaid a'r grŵp dehongli i gyfarfod i adolygu'r Fframwaith Dehongli a'r themâu oedd yn dod i'r amlwg. Cafwyd ymateb i'r ddogfen gan lawer o bobl trwy'r ebost, ac fe gafodd hyn ei gynnwys hefyd.

Cyfarfod yn Rheilffordd Ffestiniog

Mae'r staff wedi gwneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol am gyllid i warchod y dreftadaeth a datblygu arlwy newydd i ymwelwyr yng Ngwaith Peiranyddol Boston Lodge ac i wneud gwaith dehongli ledled y safle a fydd yn helpu ymwelwyr a theithwyr i ganfod stori'r rheilffordd unigryw hon. Bydd y gwaith dehongli newydd yn cynnwys canolfannau dehongli yng ngorsafedd Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon ac yn Boston Lodge ynghyd â gwaith dehongli ategol ar hyd y llwybr ac yn y cerbydau. Bydd y gwaith dehongli yn esbonio pam y mae hwn yn lle ysbrydoledig, bydd yn adrodd hanes adeiladu'r rheilffordd, hanes Porthmadog a Boston Lodge a stori

adfer y rheilffordd. Bydd ymwelwyr yn darganfod cyd-destun ehangach stori'r diwydiant llechi ac yn cwrdd â chymeriadau o'r gorffennol a fu'n gweithio ac yn teithio ar y rheilffordd.

Cyfarfod Perchnogion Tir Llechi Cymru

Mae'r perchnogion tir a'r rheolwyr ystadau sy'n rheoli eiddo yn ardal y cais am statws Safle Treftadaeth y Byd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod effaith datblygu'r cais. Gwahoddwyd y grŵp i gynnig sylwadau ar y Fframwaith Dehongli ac i drafod y cynlluniau ar gyfer cyfryngau dehongli newydd. Roedd gan y grŵp ddiddordeb mewn dull sy'n caniatáu i ymwelwyr ddarganfod y straeon heb orfod ymweld â'r safle. Yn yr un cyfarfod cafwyd cyflwyniad am yr ymgyrch Adventure Smart sy'n cymryd agwedd gadarnhaol at annog diogelwch ymwelwyr. Teimlai'r grŵp fod angen i waith dehongli ynghylch ymweld â'r dirwedd llechi gynnwys egwyddorion ymddygiad cyfrifol o ran diogelwch a'r cod cefn gwlad.

Cyfarfod gyda staff Croeso Cymru

Sgwrs gydag Andrew Forfar (Rheolwr Ymgysylltu Rhanbarthol) a Catrin Elis (Rheolwr Marchnata). Buom yn trafod y pecyn cymorth marchnata a digidol arfaethedig ac roeddent yn awyddus i sicrhau bod brand Croeso Cymru yn cael ei ystyried. Mae Croeso Cymru wedi defnyddio 'Blwyddyn ..' ers tair blynedd fel rhan o'r Strategaeth ar gyfer 2016-2020. Disgwylir strategaeth newydd ddiwedd eleni a fydd yn canolbwyntio ar Ddiwylliant, Antur a Thirwedd. Bydd ymgyrchoedd blynyddol yn cysylltu â'r tair agwedd hyn. Mae Croeso Cymru yn helpu i ddatblygu marchnad dwristiaeth ryngwladol Cymru. Yn aml, dim ond cyn belled â Llangollen a Thrachont Ddŵr Pontcysyllte y mae twristiaid rhyngwladol sy'n ymweld â Safleoedd Treftadaeth y Byd yn mynd, heb fentro ymhellach i'r gorllewin. Bydd yr enwebiad hwn ar gyfer yr ardal lechi yn helpu i newid hyn. Buom hefyd yn trafod ymgyrch Cadw, Dilynwch y Stori. Roedd hon yn gweithio'n dda mewn rhai ffyrdd, gan gysylltu safleoedd â'i gilydd ond nid oedd digon o rym y tu ôl i'r negeseuon allweddol ac roedd yn eithaf cymhleth i'w rhoi ar waith.

5.4 Rhwystrau i fynediad a chyfleoedd i'w datrys

Mae'r darlun isod yn nodi'r heriau a ddaeth i'r amlwg trwy ymgynghori a'r archwiliad, a'r datrysiadau posibl a drafodir yn yr adrannau isod.

HERIAU	FFYRDD O'U DATRYS
Bylchau yn y stori, dim cysylltiad rhwng safleoedd, a'r stori anghywir yn cael ei hadrodd mewn rhai mannau	Creu ymbarél a phorth digidol sy'n cyflwyno'r stori gyfan ac yn cysylltu safleoedd. Creu fframwaith a rheoli ansawdd
Dim un corff cydlynus yn dwyn ynghyd wahanol atyniadau a lleoedd	Creu hunaniaeth weledol ar gyfer y dirwedd llechi a helpu rhanddeiliaid i'w defnyddio
Anawsterau rheoli a diffyg cyfleusterau a seilwaith i ymdopi â chynnydd mewn ymwelwyr i'r ardal	Ymestyn y tymor ymwelwyr ac annog pobl i ymweld â mwy o atyniadau
Dim ond i ychydig o atyniadau mawr y mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr yn mynd	Datblygu llefydd i roi blas ar yr ardal neu bytiau o wybodaeth a helpu cymunedau i adrodd eu stori
Mae'r gwaith dehongli mewn amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol yn hen ffasiwn	Datblygu amrywiaeth o gyfryngau dehongli, gan ddefnyddio celf, perfformiadau a graffeg digidol, rhyngweithiol ac anturus
Mae gan gymunedau ymdeimlad cryf o hunaniaeth ac maent yn awyddus i adrodd eu stori	Parhau i ymgysylltu â chymunedau er mwyn sicrhau y gallant adrodd eu straeon
Mae'r ardal yn wasgaredig yn ddaearyddol	Datblygu atyniadau canolig eu maint a all helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal gyfan

6. Dull gweithredu newydd

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn disgrifio'r strategaeth ar gyfer dehongli'r diwydiant llechi. Mae'n nodi'r themâu a'r negeseuon allweddol, hunaniaeth y safleoedd perthnasol, agwedd strategol at brofiad yr ymwelwyr, y mannau i'w dehongli a chyfleoedd i ddehongli, ac argymhellion ar gyfer dehongli yn y dyfodol.

6.1 Themâu a negeseuon allweddol

Yn ystod y prosiect, gwahoddwyd grwpiau i sôn wrthym am straeon allweddol y diwydiant llechi. I gyd-fynd â hyn, rydym wedi elwa ar y gwaith ymchwil a wnaed eisoes ar gyfer dogfennau'r enwebiad. Casglwyd y straeon hyn at ei gilydd yn dopigau ac, yn eu tro, datblygwyd y rhain yn themâu.

Dyma'r topigau:

- Y graig a'r gwaith prosesu
- Cludo ac allforio
- Pobl a chymunedau – diwylliant ac iaith
- Y gweithwyr
- Gwneud arian
- Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth
- Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft
- Y dirwedd a bioamrywiaeth
- Allforio byd-eang

Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant unigryw gogledd-orllewin Cymru ynghlwm wrth y diwydiant llechi a bydd yn edefyn sy'n rhedeg trwy'r holl dopigau. Yn neilltuol, mae'n rhan allweddol o: Pobl a Chymunedau, y Gweithwyr, ac Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth.

Defnyddir y topigau hyn fel y gellir cyfeirio atynt yn hwylus mewn tablau yn yr adrannau a ganlyn. Nodir y themâu a ddatblygodd ar gyfer pob topig ar y dudalen nesaf ynghyd â'r brif neges allweddol.

Mae themâu'r gwaith dehongli yn wahanol i'r topigau a dylent:

- Hoelio sylw
- Cynnwys syniad neu neges allweddol nid dim ond ffeithiau
- Procio'r darlennydd (neu'r gwrandäwr) i dalu sylw a dweud, "Dyna ddiddorol. Dwedwch fwy wrtha i," neu "Waw! Wyddwn i ddim o hynny"

THEMÂU A NEGESEUON ALLWEDDOL

PRIF NEGES ALLWEDDOL:

Mae hanes epig diwydiant llechi Cymru, a ddefnyddiwyd i doi'r byd, wedi saernïo tirwedd a chymunedau gogledd-orllewin Cymru.

THEMÂU

Oherwydd eu nodweddion unigryw, roedd llechi'n ddelfrydol ar gyfer toi. Am bron i 200 o flynyddoedd, defnyddiwyd llechi o'r fan hon i doi'r byd.

Roedd rhaid i berchnogion y chwareli a pheirianwyr ganfod ffyrdd dyfeisgar a thechnoleg newydd i gludo llechi o'r chwareli i'r porthladdoedd. Mae rheilffyrdd cul a adeiladwyd i gludo llechi wedi ysbrydoli rheilffyrdd ym mhedwar ban byd.

Yn sgil y chwareli, datblygodd trefi prysur, gydag ymdeimlad cryf o hunaniaeth a balchder sydd wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

Roedd y chwarelwyr yn fedrus, yn annibynnol ac ar brydiau mewn anghydfod â'r perchnogion. Roedd merched yn chware rhan weithredol, ond llai amlwg, yn y chwareli.

Mae tirwedd y chwareli, a fu'n esgor ar gyfoeth, yn dal i ysbrydoli pobl sy'n chwilio am hanes, diwylliant ac antur.

Yn ystod y blynyddoedd prysuraf, roedd y chwareli'n toi adeiladau ledled y byd ac roedd y chwarelwyr yn gwneud y gorau o'r cyfnod llewyrchus.

Roedd angen dyfeisgarwch a medrusrwydd ar weithwyr y chwareli ac roedd y perchnogion yn buddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf ac mewn atebion deallus i oresgyn heriau gweithio yn y dirwedd hon.

Mae'r dirwedd unigryw a ffurfiwyd gan y chwareli llechi wedi creu amgylchedd trawiadol a phwysig sydd wedi'i hawlio yn ôl gan fyd natur.

Nid llechi yn unig a allforiwyd ledled y byd, ond syniadau, technoleg a gweithwyr medrus a deithiodd oddi yma.

6.2 Y Fframwaith Dehongli a'r themâu

Mae'r fframwaith dehongli isod yn nodi'r themâu gyda'r straeon allweddol, yr asedau treftadaeth a'r safleoedd allweddol.

Prif neges allweddol:

Mae hanes epig i ddiwydiant llechi Cymru, a'r ffordd y bu iddo doi'r byd a llunio tirwedd a chymunedau Gogledd-orllewin Cymru.

Y graig a'r gwaith prosesu	
<i>Oherwydd eu nodweddion unigryw, roedd llechi'n ddelfrydol ar gyfer toi. Am bron i 200 o flynyddoedd, defnyddiwyd llechi o'r fan hon i doi'r byd.</i>	
Straeon allweddol	Asedau treftadaeth a safleoedd hanesyddol
- Ffurfiwyd llechfaen o fwd a oedd dan bwysedd a gwres. - Mae llechfaen yn hawdd i'w hollti. - Mae lliwiau'r llechfaen yn amrywio o chwarel i chwarel. - Daeth chwarelwyr yn fedrus yn cloddio llechfaen ac yn hollti clytau ohono. - Mae llechfaen yn ddefnydd eithaf ysgafn a gwerthfawr ac felly roedd yn werth ei allforio. - Câi llechfaen ei gloddio o chwareli, o byllau agored neu o geudyllau tanddaear. - Wrth gloddio ar lethrau'r brynau, câi cyfres o bonciau eu creu ar ochrau serth y chwareli. Câi'r ponciau enwau digrif ac amserol fel Agor Boni (Cloddfa Bonaparte). Defnyddir yr enwau hyd heddiw. - Defnyddid rhaffyrdd i fynd i'r pyllau. - Byddai'r dynion yn defnyddio inclên, siafft neu sinc i gyrraedd y ceudyllau. Byddai pileri llechfaen yn cael eu gadael yn eu lle i weithredu fel pyst cynnal. - Roedd amgylchiadau gwaith chwareli a cheudyllau yn wahanol i'w gilydd. Roedd y naill a'r llall yn beryglus (ond roedd llefydd gwaith i'w cael). - Mormoniaid o Ferthyr Tudful a ymfudodd i Salt Lake City oedd twnelwyr Chwarel y Penrhyn. - Roedd y llechfaen yn cael ei gloddio ag offer llaw. Yna datblygwyd y drefn o ffrwydro'r graig a bu cryn fecaneiddio ond roedd llechi to'n dal i gael eu hollti â llaw. - Defnyddid llifiau i dorri'r blociau llechfaen. - Roedd y prosesu'n cael ei wneud yn ddigon pell o'r man cloddio rhag i'r gwastraff grynhoi yno. Cynnyrch gwastraff oedd o leiaf 90% o'r hyn a gloddiwyd – mae'r tomenni gwastraff yn nodwedd	Tystiolaeth bod llechfaen wedi'i ddefnyddio yn ystod y cyfnod Rhufeinig. Cestyll Edward I – adeiladau o statws uchel gyda thoeau llechi Offer y chwarelwyr Ffotograffau o'r gweithwyr wrth eu gwaith. Paentiadau a ysgythriadau'n dangos y chwareli Melinau llifio Chwareli

arbennig yn ardaloedd y chwareli. Yn ddiweddarach, mewn cyfnodau tlawd, byddai pobl yn chwilota trwy'r tomenni am ddarnau o lechfaen y gellid eu gwerthu. • Roedd llechi'n ddeunydd adeiladu tenau, ysgafn a chryf ar gyfer toeau, cladin, blociau, lloriau a lintelydd. • Dibenion eraill – byrddau biliards, cerrig beddau a chofebau, llechi i ysgrifennu arnynt mewn ysgolion, byrddau duon, wrinalau, switsfyrddau, dodrefn a chafnau mewn bragdai. • Canfuwyd llechfeini o Gymru ar safleoedd Rhufeinig ac fe'u defnyddiwyd yng nghestyll Edward I – mannau o bwys. • Câl'r defnydd o lechfaen effaith ar ddyluniad pensaernïol – roedd Samuel Wyatt yn fasnachwr llechi ac yn bensaer a wnâi ddefnydd helaeth o lechi. • Roedd datblygiad tai teras yn gysylltiedig â llechi. • Y defnydd o lechfaen heddiw – anrhegion, agregau, nodweddion gerddi a'i allforio (gan gynnwys drwy Abercegin). • Gellir ymweld â gwaith llechi Inigo Jones.	
Cludo ac allforio <i>Roedd rhaid i berchnogion y chwareli a pheirianwyr ganfod ffyrdd dyfeisgar a thechnoleg newydd i gludo llechi o'r chwareli i'r porthladdoedd. Mae rheilffyrdd cul a adeiladwyd i gludo llechi wedi ysbrydoli rheilffyrdd ym mhedwar ban byd.</i>	
Straeon allweddol	Asedau treftadaeth a safleoedd hanesyddol
Cludiant yn y chwareli: • Defnyddid dulliau arloesol i symud blociau llechfaen a darnau o wastraff: • Incleiniau – yn seiliedig ar dechnoleg a ddefnyddiwyd mewn camlesi. • Rhaffyrdd awyr a Blondins (o'r Alban). • Ffyrdd haearn mewnol a rheilffyrdd. Cludiant o'r chwareli: • Ar hyd ffyrdd ac afonydd – ceiau afon Dwryd. • Y certmyn. • 'Philistiaid' – cychwyr afon Dwryd a wisgai 'fel Gwyddelod o Tipperary'. • Leiniau rheilffyrdd – ceffylau ac yna locomotifau.	Locos Wagenni Rheilffyrdd hanesyddol Cwch llechi yn Amgueddfa Forwrol Porthmadog Cei llechi, Caernarfon Rheilffordd Ffestiniog Rheilffordd Talyllyn Inclên yn Chwarel Vivian (Dinorwig) Porthmadog (Amgueddfa Forwrol)

• Certmyn llechi a weithiai gyda cheffylau i gario llechi o'r chwareli – roedd y gweithwyr hyn yn cynnwys merched. • Rheilffordd Ffestiniog – defnydd cynnar o leiniau bach cul ar fynyddoedd – dylanwadodd y rhain ar reilffyrdd eraill • Rheilffordd Talyllyn – y rheilffordd lechi gyntaf ar gyfer locomotifau a'r rheilffordd gyntaf i gael ei troi'r rheilffordd dreftadaeth. • Porthladdoedd yn Abercegin, Caernarfon a Phorthmadog – câi llechi eu llwytho ar longau a'u hallforio i bedwar ban y byd. • Yn ddiweddarach, roedd rheilffyrdd y chwareli'n cysylltu â rheilffyrdd cenedlaethol ac o'r fan honno neu ar hyd ffyrdd i'r rhwydwaith camlesi fel y gellid cludo'r llechi ledled y Deyrnas Unedig. • Datblygodd harbwr Porthmadog i gludo llechi a thyfodd diwydiant adeiladu llongau yno. • Defnyddid cheffylau ar Reilffordd Nantlle tan 1963. • Mae llechi'n dal i gael eu hallforio i bedwar ban y byd. Arwyddocâd: • Mae patrwm y rheilffyrdd yn dangos sut y datblygodd rheilffyrdd mewn amgylchedd diwydiannol – o wagenni'n cael eu tynnu gan geffylau i locomotifau, a phwysigrwydd leiniau bach cul mewn amryw o sefyllfaoedd (diwydiant, y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd). • Rheilffordd Chwarel y Penrhyn – dyma oedd y rheilffordd haearn arloesol ar gyfer cludo cerrig o chwarel, ac enghraifft gynnar o reilffordd haearn yn defnyddio olwynion fflanjys (yn hytrach na phlatiau tramffordd). • Rheilffordd Ffestiniog – dechreuodd ddefnyddio locos yn yr 1860au a bu'n ysbrydoliaeth i leiniau bach cul ledled y byd. Mae gwaith peirianeg Boston Lodge yn parhau i wneud cerbydau ac injans. • Rheilffordd Talyllyn – adeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer locos stêm a hi oedd y gyntaf i gysylltu â phrif lein reilffordd. • Y rhwydwaith o leiniau bach cul a ddenodd y rheilffyrdd mawr i'r ardal.	Ceiau llechi ar afon Dwryd
--	-----------------------------------

Pobl a chymunedau (diwylliant) <i>Creodd y chwareli drefi llewyrchus ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth a balchder a basiwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.</i>	
Straeon allweddol	Asedau treftadaeth a safleoedd

	hanesyddol
Aneddiadau: - Yn ystod y ddeunawfed ganrif roedd llai na 1,000 o bobl yn gweithio mewn chwareli ac felly roedden nhw'n byw ar ffermydd / gyda'u teuluoedd. Erbyn yr 1800au roedd y rhan fwyaf yn weithwyr llawn amser ac arnynt angen tai. - Trigai'r chwarelwyr mewn barics gerllaw'r chwareli – adeiladau cyfyng. Yr enw Saesneg ar farics 'Y Dre' Newydd' oedd 'Anglesey Barracks' am fod llawer o'r gweithwyr oedd yn byw yno wedi mudo o Sir Fôn. - Adeiladodd y perchnogion bentrefi i'r chwarelwyr a'u teuluoedd er mwyn cadw rhywfaint o reolaeth dros y gweithlu. Roedd yn well gan rai teuluoedd fyw yn rhywle arall a bu iddynt adeiladu eu tai eu hunain drwy gymdeithasau adeiladu gyda benthyciadau ac adnoddau a rannwyd – Roedd Bethesda a Blaenau Ffestiniog yn drefi a 'adeiladwyd gan y chwarelwyr'. Bywyd diwylliannol: - Roedd ar gymunedau'r chwareli llechi angen eglwysi a chapeli ac fe ddaeth y rhain yn ganolbwyntiau i fywyd y gymuned. Mae maint a chrandrydd y capeli'n dangos cyfoeth yr ardaloedd hyn a'r twf yn hyder Anghydffurfiaeth. - Mae'r trefi a'r pentrefi newydd a adeiladwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar gyfer y chwarelwyr ymhlith prif gadarnleoedd y Gymraeg a diwylliant Cymru heddiw ac mae tua 70% o drigolion y cymunedau a dyfodd o gwmpas y chwareli llechi yn siarad Cymraeg. - Roedd llyfrgelloedd yn darparu deunydd darllen ac roedd llawer o'r gweithwyr yn ddarllenwyr brwd. Roedd y gweithwyr yn gefnogol i agor ysgolion newydd a Phrifysgol Bangor i helpu i wella addysg eu plant. Sefydlwyd corau (Côr y Penrhyn a Chôr y Brythoniaid), bandiau pres a thimau pêl-droed yn y cymunedau llechi. - Chwaraeai merched ran amlwg yn y gymuned. - Roedd Angharad Ellis (chwaer Tom Ellis AS) yn dysgu coginio a chwynai hi bod gwragedd y chwarelwyr yn wastraffus ac yn rhy hoff o hel straeon. Dywedai ei bod yn well ganddynt agor tuniau na choginio bwyd iawn. Roedd rhai gweinidogion yn feirniadol o ymddygiad menywod – efallai mai adlewyrchiad o wahaniaeth mewn agweddau rhwng y trefi a chefn gwlad oedd hyn. - Roedd gweithwyr yn barddoni ac roedd llawer yn canu yn y caban (yn y gwaith), a gartref (yn y pentref / y dref). Symudai gweithwyr Cymraeg eu hiaith o ardaloedd eraill o Gymru, felly prin oedd y gweithwyr di-Gymraeg. Serch hynny, roedd yno rai gweithwyr o fannau eraill. Roedd Saeson mewn swyddi uchel neu'n arbenigwyr ac roedd yno weithwyr o Ddenmarc, Prwsia a Gwlad Pwyl ymhlith	Atgofion torfol / hanes llafar laith y chwareli Barics – Dinorwig a Nantlle Tai chwarelwyr Pentrefi Blaenau Ffestiniog, Abergynolwyn a Bethesda

gwledydd eraill. Mae Mary King Sarah, y gantores adnabyddus, yn enghraifft dda – o Gernyw y deuai ei thad ac fe ymfudodd hi i America. • Roedd llawer o'r chwarelwyr yn byw ar dyddynnod oedd yn cael eu rhedeg gan y merched yn bennaf – roedd llawer yn priodi fwy nag unwaith am fod pobl yn marw'n ifanc.	
Y gweithwyr <i>Roedd y chwarelwyr yn fedrus, yn annibynnol ac ar brydiau mewn anghydfod â'r perchnogion. Roedd merched yn chware rhan weithredol, ond llai amlwg, yn y chwareli.</i>	
Straeon allweddol	Asedau treftadaeth a safleoedd hanesyddol
• Yn aml disgrifir y diwydiant llechi fel y Cymreiciaf o holl ddiwydiannau Cymru – yr unig ddiwydiant o unrhyw faint yn y Deyrnas Unedig a weithredai'n gyfan gwbl drwy gyfrwng iaith ar wahân i Saesneg. Defnyddiai'r gweithwyr eu hiaith eu hunain i ddisgrifio agweddau ar y gwaith. Cymraeg oedd iaith busnes. • Cymraeg oedd enwau llefydd a thermau technegol. • Bu'r diwydiant o gymorth mawr i warchod y Gymraeg. • Roedd y chwarelwyr yn gweithio mewn 'bargen' – trafodai grwpiau o rhwng chwech ac wyth gweithiwr y gyfradd tâl a chaent eu talu yn ôl pwysau'r llechfaen a gloddwyd. • Ar y dechrau, doedd y rheolwyr ddim yn llawdrwm ar y gweithwyr – gan fod y tâl yn seiliedig ar bwysau'r llechfaen, nid oedd rheolaeth gaeth ar oriau gwaith. • Câl labrwyd eu talu fesul tunnell am glirio gwastraff neu gloddio twneli. • Roedd amryw o swyddi eraill yn y chwareli – câl peirianwyr a gofaint eu talu fesul diwrnod. • Yn ystod y rhan fwyaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg byddai'r chwarelwyr yn ennill cyflog da ond roedd y gwaith yn beryglus – defnyddio ysgolion a rhaffau i gyrraedd y mannau cloddio. Roedd damweiniau'n digwydd, ac roedd y perygl cudd o glefyd ar yr ysgyfaint (silicosis) oherwydd llwch llechi o'r 1890au i'r 1930au. Yn yr 1940au cyflwynwyd offer i helpu i ddiagnosisio silicosis. Gwnaeth yr Arglwydd Dafydd Wigley (AS) lawer iawn o waith i gael iawndal i'r gweithwyr. • Peryglon anafiadau ac anabledd. • Adeiladodd perchnogion tair o'r chwareli mawr (y Penrhyn, Ffestiniog a Dinorwig) ysbytai. Penrhyn yn 1840 yn seiliedig ar arferion ystadau siwgr Jamaica. Agorwyd ysbyty Chwarel Dinorwig yn yr 1860au ac erbyn hyn mae'n amgueddfa sy'n agored i'r cyhoedd. Mrs Oakeley oedd yn gyfrifol am godi ysbyty'r	Offer y chwarelwyr Olion adeilad y caban Castell Penrhyn Plas Tan y Bwlch Cofeb Streic Fawr y Penrhyn, Bethesda

chwarel yn Ffestiniog. - Nid dim ond bwyta'u cinio a wnâi'r chwarelwyr yn y caban. Roedd hefyd yn ganolfan ddiwylliannol ac yn fan trafod. - Yn y 18fed ganrif, gweithiau merched yn y chwareli yn symud llechi. Ceir peth tystiolaeth eu bod yn gweithio yno yn ystod y 19eg ganrif hefyd. Roedd Alice Griffiths yn briod â chwarelwr a hi oedd y cigydd lleol. Roedd hi'n enwog am ei sgiliau marchogaeth a hi oedd yn gyfrifol am gynnal y tŷ. Bu farw mewn gwrth o oedran yn dilyn damwain farchogaeth. - Sefydlodd y gweithwyr Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru i warchod eu buddiannau. Roedd hwn yn un o'r undebau cyntaf. - Llwybrau'r gweithwyr i'w gwaith – llwybrau serth, car gwyllt a ddefnyddid i ddod i lawr yr inclên, stepiau (i fwynefeydd ac i fyny mynyddoedd), llwybrau o bentrefi a threfi a theithio ar y rheilffyrdd. - Byddai llawer o bobl yn hel atgofion am glywed sŵn traed y chwarelwyr yn mynd a dod i'w gwaith yn eu hesgidiau hoelion mawr. Yn aml, soniai chwarelwyr am y teimlad o ddod yn ddyn pan gawsant eu trowsusau melfaréd a'u hesgidiau hoelion newydd ar gyfer y gwaith. - Bu streic gan weithwyr y Penrhyn rhwng 1900 a 1903. Dyma oedd un o'r streiciau hiraf erioed ym Mhrydain. Symudodd rhai o'r chwarelwyr i'r de a chael gwaith yn y pyllau glo, yn hytrach nag aros ar streic. Cefnogai'r merched y streicwyr drwy ganu mewn corau i godi arian. - Agwedd annibynnol y gweithwyr – defnyddient eu hoffer eu hunain, cawsent eu talu yn ôl pwysau'r llechfaen a gloddient ac felly doedd y rheolwyr ddim yn pwysu arnynt i weithio nac i gadw amser.	
Gwneud arian <i>Yn ystod y blynyddoedd prysuraf, roedd y chwareli'n toi adeiladau ledled y byd ac roedd y chwarelwyr yn gwneud y gorau o'r cyfnod llewyrchus.</i>	
Straeon allweddol	Asedau treftadaeth a safleoedd hanesyddol
- Deuai llawer o'r cyfalaf a fuddsoddwyd yn y chwareli o arian a wnaed ar ystadau yn yr Ymerodraeth Brydeinig, yn cynnwys ystadau caethwasiaeth. Roedd gan deulu Douglas-Pennant ystadau yn Jamaica, deuai arian ar gyfer chwareli Nantlle o fasnach caethwasiaeth Lerpwl a gwnaeth y teulu Oakeley eu cyfoeth yn yr India. - Gan y tiffeddianwyr yr oedd yr hawliau cloddio. Gosodai rhai perchnogion eu hawliau ar brydles i eraill – unigolion a chorfforaethau. - Câi dwy o'r chwareli mwyaf, y Penrhyn a Dinorwig, eu rheoli gan eu perchnogion. Mae hyn yn anarferol	Castell Penrhyn a'i gynnwys Plas Tan y Bwlch Neuadd y Farchnad, Blaenau Ffestiniog

ar safleoedd diwydiannol oherwydd gan amlaf roedd y perchnogion yn gosod eu hawliau ar brydles. • Mae maint tai perchnogion y chwareli'n dangos faint o elw a wnaent – Penrhyn a Phlas Tan y Bwlch. Mae'r dodrefn a'r gwaith addurno moethus yng Nghastell Penrhyn yn rhan o brofiad yr ymwelwyr. • Cât'r chwarelwyr fywyd da pan oedd arian i'w wario ond gwelwyd adegau pan oedd yr incwm yn llai. Roedd y siopau a neuadd y farchnad ym Mlaenau Ffestiniog yn dangos cyfoeth y gweithwyr oedd ag arian i'w wario (ar adegau llewyrchus). Yn aml, gwisgent y ffasiynau diweddaraf. Byddai'r siopau'n gwerthu nwyddau er cysur a mwynhad yn ogystal â'r hanfodion. • Yn ystod yr 1870au a'r 1880au buddsoddodd rhai chwarelwyr yn y diwydiant llongau yng Nghaerdydd. Bu'n fuddsoddiad proffidiol iddynt. • Ar rai adegau doedd dim digon o waith. • Cyfalafiaeth – arian wedi'i wneud yn y fasnach gaethweision a masnach ryngwladol yn cael ei fuddsoddi mewn diwydiant.	
Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth <i>Mae tirwedd y chwareli, a fu unwaith yn ffynhonnell cyfoeth, yn dal i ysbrydoli pobl sy'n chwilio am hanes, diwylliant ac antur.</i>	
Straeon allweddol	Asedau treftadaeth a safleoedd hanesyddol
• Gwaith celf llechi mewn tai – pentref Bethesda a chasgliad amgueddfa Storiell • Merched Chwarel – y chwareli'n ysbrydoli artistiaid cyfoes heddiw. • Beirdd y chwareli yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. • Nofelau Kate Roberts am fywyd yn ardal y chwareli. Awduron a beirdd eraill – T. Rowland Hughes a Caradog Prichard • Ysbrydoliaeth i artistiaid – llawer o ddarluniau'n dangos pobl yn gweithio yn y chwareli ac un gan Henry Hawkins yn dangos twristiaid. Teithiau astudio o dramor i weld chwareli a rheilffyrdd a hanes pobl yn dod i ryfeddu at y chwareli. • Datblygiad twristiaeth antur gan ddefnyddio tirwedd y llechi - <i>Zip World, Bounce Below</i>, llwybrau beicio a cherdded, ogofa a phlymio. • Twristiaeth treftadaeth a rheilffyrdd hanesyddol. • Annog ymwelwyr i barchu'r dirwedd a chymunedau, i ddysgu enwau llefydd Cymraeg a defnyddio'r iaith Gymraeg. • Dechreuodd twristiaid gael eu hysbrydoli i ymweld yn y 19eg ganrif pan ddaeth yn hawdd dod	Llechi wedi'u cerfio ac addurniadau llechi mewn tai Gwrthrychau ac addurniadau yng Nghastell Penrhyn Nofelau Kate Roberts Gwelyau llechfaen yng Nghastell Penrhyn Darluniau o ymwelwyr – Henry Hawkins

yma ar hyd y ffordd newydd i Ynys Môn. Ymwelodd y Frenhines Victoria pan oedd yn blentyn a bu hi a'r Tywysog Albert yn aros yng Nghastell Penrhyn yn 1859. Ysbrydolwyd byd y theatr a cherddoriaeth gan y chwareli. Mae gan y diwylliant pop gysylltiadau cryf â chymunedau'r chwareli gan gynnwys y Super Furry Animals, Anweledig, 9Bach a Martin Dawes.	
---	--

Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft <i>Roedd angen dyfeisgarwch a medrusrwydd ar weithwyr y chwareli ac roedd y perchnogion yn buddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf ac mewn atebion deallus i oresgyn heriau gweithio yn y dirwedd hon.</i>	
Straeon allweddol	Asedau treftadaeth a safleoedd hanesyddol
- Roedd y chwarelwyr yn grefftwyr medrus ac roedd arnynt angen pen busnes hefyd er mwyn trafod pris y llechi. - Roedd y gweithwyr a'r trefsurwyr yn deall daeareg ardal y chwareli ac yn defnyddio hynny i'w mantais. - Câi sgiliau eu trosglwyddo o'r tad i'r mab a'u rhannu wrth i weithwyr a pheirianwyr symud o chwarel i chwarel. - Yn y chwareli cynnar, defnyddid offer llaw i gloddio a phrosesu'r graig. Wrth i'r galw gynyddu, cyflwynwyd technoleg i ddatrys problemau ac i wneud y broses yn fwy effeithlon a phroffidiol. - Defnyddiai'r peirianwyr dechnoleg a ddatblygwyd mewn diwydiannau eraill fel inclêns o gamlesi, ffyrdd haearn o weithfeydd haearn de Cymru, peiriannau pwmpio o fwyngloddiau tun Cernyw a rhaffyrdd Blondin o'r Alban. - Câi blociau o lechfaen eu llifio â llifiau tywod a llifiau crwn, wedi'u pweru mewn melinau llifio – hyd y gwyddom, y Felin Fawr oedd y lle cyntaf yn y byd i ddefnyddio llifiau crwn i dorri cerrig. - Câi dŵr, stêm a thrydan eu defnyddio i bweru incleinau, rhaffyrdd, offer cloddio, cerbydau cludo ac offer llifio'r llechi. Yn aml roedd y chwareli'n hunangynhaliol oherwydd roeddent yn defnyddio disgrychiant a phŵer dŵr, yn ogystal â choed o'u tiroedd eu hunain. - Er bod dŵr yn ddefnyddiol i bweru offer, roedd hefyd yn her yn y mwynfeydd gan ei fod yn casglu yno a bod rhaid ei bwmpio allan. Roedd sianelau a thwneli'n helpu i ddraenio'r gweithfeydd. Cyflwynwyd trydan i Chwarel Llechwedd gan beiriannydd o'r enw Charles Warren Roberts. - Y diwydiant llechi heddiw – cloddfeydd, melin lifio a gorsaf bŵer trydan dŵr yn dal i weithio heddiw. Perchnogion y chwareli'n dal i arloesi ac yn defnyddio technoleg newydd – llifiau diemwnt.	Offer y chwarelwyr Llechi parod Felin Fawr

• Erbyn heddiw, mae gan wirfoddolwyr lu o wahanol sgiliau, yn enwedig beirianwyr ar reilffyrdd treftadaeth. • Mae sgiliau wedi'u trosglwyddo a'u hailddarganfod. • Er mwyn datblygu technoleg newydd, ddyfeisgar, bu'n rhaid i'r perchnogion fod yn barod i fentro a methu.	
Y dirwedd a bioamrywiaeth <i>Mae'r dirwedd unigryw a ffurfiwyd gan y chwareli llechi wedi creu amgylchedd trawiadol a phwysig sydd wedi'i hawlio yn ôl gan fyd natur.</i>	
Straeon allweddol	Asedau treftadaeth a safleoedd hanesyddol
• Mae gwahanol fathau o greaduriaid a rhai planhigion yn byw ar safleoedd chwareli – ar yr wyneb ac o dan y ddaear. • Mae agorydd a thwneli'r chwareli yn safleoedd gaeafgyssu pwysig i lawer o rywogaethau o ystlumod, yn arbennig yr ystlum pedol lleiaf. • Mae'r frân goesgoch (mae hanner poblogaeth Cymru yn magu yng Ngwynedd) – yn nythu mewn chwareli, siafftiau mwynfeydd a hen adeiladau chwareli. • Mae'r gwalch glas, y gigfran a'r fwyalchen fynydd hefyd yn nythu o gwmpas chwareli llechi. • Mae llygoden bengron y dŵr (mewn ardaloedd heb lawer o fincod) a'r dyfrgi yn byw ger afonydd, nentydd a llynnoedd yn yr ardaloedd hyn • Mae safleoedd chwareli tanddaear yn addas hefyd ar gyfer mathau arbennig o gen, prysgwydd, rhostiroedd a gweundiroedd. Mae yno ardaloedd o goetiroedd hynafol hefyd. • Mae Chwarel Lechi Aberllefenni yn rhan o Fiosffer Dyfi sy'n nodweddiadol o systemau aberoedd a morfeydd heli ac sy'n cynnwys un o ganolfannau pwysicaf Cymru ar gyfer adar dŵr ac adar y glannau. Mae hefyd yn SoDdGA. • Mae safleoedd archaeolegol ledled yr ardal wedi'u gwarchod a'u hamddiffyn gan berchnogion tir, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Cadw.	Chwareli, o dan y ddaear ac ar yr wyneb, lle mae ystlumod yn byw SoDdGA Dyfi
Allforio syniadau a llechi i bedwar ban byd <i>Nid llechi yn unig a allforiwyd ledled y byd, ond syniadau, technoleg a gweithwyr medrus a deithiodd oddi yma.</i>	
Straeon allweddol	Asedau treftadaeth a safleoedd hanesyddol

Allforio byd-eang: • Tua diwedd yr 17eg ganrif, defnyddid llechi o Gymru yn India'r Gorllewin (ar ystâd y Penrhyn). • Roedd galw am lechi o Gymru ar gyfer adeiladau mawreddog – credir bod llechi o Gymru ar ran o do y Tŷ Gwyn ar un adeg. • Erbyn 1830 roedd gan hanner adeiladau Efrog Newydd doeau llechi. • Yn dilyn tân yn Hambwrg yn 1842 gorchynnwyd y dylai pob adeilad newydd gael to o lechi o Gymru. • Defnyddir llechi o Gymru o hyd ar adeiladau mawreddog / hanesyddol. • Symudai gweithwyr o gwmpas Gwynedd a thu hwnt gan rannu sgiliau a phrofiad ac aethant dramor i chwareli eraill. Ymweliadau rhwngwladol i weld chwareli a rheilffyrdd. • Roedd digwyddiadau yn y byd y tu allan yn effeithio ar y diwydiant – roedd y rhyfel â Ffrainc yn 1793 yn gostus ac fe gynyddodd Pitt y dreth ar lechi a allforiwyd o borthladdoedd i helpu i dalu am y rhyfel. • Gallai ystâd y Penrhyn fuddsoddi mewn chwareli oherwydd y ffortiwn a wnaeth ar yr ystadau siwgr gan ddefnyddio llafur caethweision. • Dechreuodd cystadleuaeth o dramor amharu ar y diwydiant llechi yn yr 1880au. • Defnyddiwyd technoleg leiniau rheilffyrdd bach cul ym mhedwar ban y byd. • Gan fod y cymunedau hyn yn allforio llechi, roeddent hefyd yn derbyn mewnforynion o bob rhan o'r byd. Defnyddid pinwydd pyg o Dde America a Chanada yn nhai'r ardal a deuai capteiniaid llongau â phowlenni Elsinor yn swfenîrs o Sgandinafia. • Cysylltiadau â Safleoedd Treftadaeth y Byd – adegau pwysig yn hanes Cymru – gyda dyfodiad Cestyll Edward I daeth trefi i Gymru a dechreuwyd defnyddio arian. Daeth y diwydiant llechi â diwydiant i ogledd Cymru (defnyddiwyd llechi ar doeau'r cestyll). Ysbrydolwyd Rheilffordd Darjeeling (un o Safleoedd Treftadaeth y Byd) gan Reilffordd Chwarel Ffestiniog.	Castell Penrhyn Amgueddfa Lechi Cymru Rheilffordd Ffestiniog
--	---

6.3 Hunaniaeth pob un o'r safleoedd dan sylw

Datblygwyd negeseuon allweddol i bob un o'r safleoedd dan sylw. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y straeon hanesyddol allweddol y gall y safleoedd eu hadrodd ac maent yn gysylltiedig â'r themâu a nodir yn y Fframwaith Dehongli. Gallant fod yn wahanol i'r negeseuon marchnata allweddol a ddefnyddir gan y safleoedd a gellid eu datblygu'n neges allweddol drosfwaol ar gyfer gwaith dehongli yn y gwahanol safleoedd yn y dyfodol.

Ffeithiau Mawr:

Mae'r Ffeithiau Mawr isod yn berthnasol i'r rhanbarth cyfan ac yn grynodeb ohono. Ychwanegwyd rhagor o ffeithiau at hunaniaeth pob un o'r safleoedd dan sylw.

- Ar un adeg y rhanbarth hwn oedd yn gyfrifol am draean o'r llechi toi a'r llechi pensaernïol oedd yn cael eu cynhyrchu yn y byd
- Hwn oedd y Cymreiciaf o ddiwydiannau mawr Cymru a dyma'r ardal sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg heddiw
- Roedd 15,000 o ddynion yn gweithio yn y diwydiant llechi yn ei anterth
- Câi ½ miliwn o dunelli o lechi eu cynhyrchu bob blwyddyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Amgueddfa Lechi Cymru

Calon a cheidwad treftadaeth y diwydiant llechi. Mae'r amgueddfa'n adrodd stori genedlaethol y diwydiant llechi, gyda chysylltiad lleol â Chwarel Dinorwig. Dyma ddechrau'ch taith i ganfod hanes y diwydiant llechi.

- Yr olwyn ddŵr yn yr hen waith peiranyddol yw'r olwyn ddŵr fwyaf sydd ar ôl ar dir mawr Prydain.
- Mae ger chwareli Dinorwig, sef y mwyaf ond un yn y byd ar un adeg.
- Crëwyd dros 30 o bonciau yn y chwareli rhwng 1700 ac 1969.
- Yr inclên yn Ninorwig yw'r unig inclên yn y diwydiant llechi sydd wedi para ers y 19eg ganrif
- Mae chwarel Dinorwig yn dangos y rhwydwaith trafnidiaeth gydag olion ffyrdd, ffyrdd haearn a'r rheilffordd

Zip World, Chwarel y Penrhyn

Mae'r wifren wib gyflymaf yn y byd wedi'i gosod yn yr hyn a fu unwaith yn chwarel lechi fwyaf y byd. Bu pobl yn cloddio am lechfaen yma ers dros 500 mlynedd ac fe'i gwelir mewn adeiladau ym mhedwar ban byd.

- Bu llechfaen yn cael ei gloddio yma ers dros 500 mlynedd
- Ar un adeg, roedd yn un o'r chwareli mwyaf yn y byd
- Trwy fuddsoddi yn y chwareli, daethant yn fwy cynhyrchiol ond roedd pris i'w dalu. Ar ystadau caethweision yn India'r Gorllewin y gwnaeth y teulu Pennant, perchnogion y chwarel hon, eu harian
- Yn Chwarel y Penrhyn, cafwyd anghydfod gyda'r hiraf erioed rhwng gweithwyr a pherchnogion y gwaith

Llechwedd

Cafwyd cryn arloesi a dyfeisgarwch yn y diwydiant llechi erioed, gyda'r peirianwyr yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i wynebu heriau'r dirwedd. Sefydlwyd atyniadau newydd ym maes treftadaeth ac anturiaethau epig yn y ceudyllau llechi.

- Yn y ceudyllau y mae'r rheilffordd gebl fwyaf serth ym Mhrydain
- Mae'r chwarel ger Blaenau Ffestiniog, tref wlypaf Cymru (am ei bod yn cael mwy o law nag unman arall)
- Tua 5,000 o bobl sy'n byw ym Mlaenau Ffestiniog erbyn hyn, llai na hanner y nifer oedd yn byw yno tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (12,000)
- Roedd gwaith cloddio tanddaear yn digwydd yn chwarel Maenofferen uwchlaw Llechwedd tan 1999
- Mae gorsaf trydan dŵr Pant yr Afon yn enghraifft gynnar sy'n dal i weithio

Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri

Lle a fu'n ysbrydoli pobl ers dros 150 o flynyddoedd. Defnyddiai'r rheilffordd dechnoleg arloesol i gludo llechi o chwareli Ffestiniog i harbwr Porthmadog. Nid dim ond llechi a gâi eu hallforio; ysbrydolwyd rheilffyrdd eraill ym mhedwar ban byd gan hon.

- Dyma'r rheilffordd annibynnol hynaf yn y byd
- Un o'r rheilffyrdd bach cul cyntaf i ddefnyddio locos stêm
- Atyniad i ymwelwyr a phŵer dylanwadol – deuai pobl o bell ac agos i'w gweld
- Gwnâi ddefnydd dyfeisgar o gerbydau Bogie a locos cymalog Fairlie

Rheilffordd Talyllyn

Gwelwyd chwarel Bryneglwys yn ehangu oherwydd buddsoddiad gan berchnogion busnes cotwm o Swydd Gaerhirfryn a greodd reilffordd gyntaf y diwydiant llechi lle defnyddid locos stêm. Rheilffordd Talyllyn oedd y gyntaf yn y byd i gael ei hailagor fel atyniad treftadaeth.

- Lein fach gul gynnar a grëwyd ar gyfer locos a theithwyr
- Y gyntaf o'r rheilffyrdd llechi i gysylltu â'r rhwydwaith rheilffyrdd cyffredin
- Y rheilffordd gyntaf i grŵp cadwraeth ei chymryd drosodd a'i rhedeg yn llwyddiannus
- Mae'r locos a'r cerbydau gwreiddiol yn dal yno

Castell Penrhyn

Codwyd y castell mawreddog hwn gydag arian y diwydiant llechi a seiliwyd yn ei dro ar elw caethwasiaeth. Mae ganddo stori i'w adrodd am berchnogion y chwarel lechi fwyaf yn y byd a'r bobl oedd yn gweithio yno.

- Castell neo-Normanaid a godwyd rhwng 1820 ac 1837 ar safle adeilad cynharach
- Roedd y teulu oedd yn byw yma yn berchen ar chwarel lechi fwyaf y byd
- Daeth yr arian i'w fuddsoddi mewn technoleg ddyfeisgar o ystadau caethweision y teulu yn India'r Gorllewin
- Dyma un o'r tai mwyaf moethus ym Mhrydain

Mynydd Gwefru

Gorsaf bŵer yn cuddio yng nghrombil mynydd, i gynhyrchu trydan dŵr mewn ardal lechi.

- Mae'r orsaf bŵer 750m y tu mewn i'r mynydd
- Mae 16km o dwneli o dan y ddaear
- Mae pob generadur yn pwyso 450 tonnall ar gyfartaledd (yr un faint â 90 eliffant)

Chwarel Lechi Dorothea

Cafodd y chwarel a'r gymuned eu llunio gan y llechfaen a gloddiwyd yno. Mae injan drawst o Gernyw yn dal i'n hatgoffa o'r ffyrdd cost-ffeithiol o ddatrys yr heriau sy'n codi wrth weithio yn yr amgylchedd hwn.

- Yr Injan Drawst Gernywaidd yn Chwarel Dorothea oedd yr olaf i'w gosod erioed
- Dyma'r gofeb ddiwydiannol gyntaf i'w threfnu ar gyfer Cymru

Cae'r Gors

Yn nofelau Kate Roberts, disgrifir bywyd cymunedau'r chwareli yn y gwaith ac yn y cartref ac mae'r tŷ lle magwyd hi yn datgelu straeon cudd y merched y llywiwyd eu bywydau gan y diwydiant llechi.

- Ganed Kate Roberts yn 1891 pan oedd y diwydiant llechi yn ei anterth
- Magwyd hi yma ac, yn ddiweddarach, prynodd y tŷ a'i roi'n rhodd i'r genedl
- Dechreuodd ysgrifennu nofelau ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf pryd y lladdwyd ei brawd
- Hi a'i gŵr oedd biau Gwasg Gee ac fe ddaliodd ati i redeg y busnes ar ôl iddo ef farw

Plas Tan y Bwlch

Cartref perchnogion chwarel oedd y tŷ hwn sy'n adrodd am effaith y diwydiant llechi ar gymunedau a'r amgylchedd naturiol.

- Hwn oedd cartref teulu'r Oakeley, perchnogion chwareli llechi yn Ffestiniog
- Mae'r tŷ yn edrych i lawr dros afon Dwyrdd, lle câi'r llechi eu symud o gerti i gychod
- Mae Rheilffordd Ffestiniog, a osodwyd i gludo llechi, yn pasio trwy dir y tŷ
- Mae'r gerddi'n llawn planhigion egsotig o India lle'r oedd ystadau gan y teulu

6.4 Edrych ar brofiad ymwelwyr mewn ffordd strategol


O ganlyniad i waith ymchwil desg, rydym wedi nodi mannau lle ceir gwaith dehongli am y diwydiant llechi eisoes, mannau lle byddai modd cael gwaith dehongli, neu'r ddau. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd sy'n rhan o'r cais am statws Safle Treftadaeth y Byd, atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau lleol fel llyfrgelloedd. Rydym wedi rhestru'r mannau hyn ar y map ac mewn tabl yn dangos beth a wyddom hyd yma am y gwaith dehongli presennol a mannau lle credwn y bydd cyfleoedd i wneud gwaith dehongli yn y dyfodol.

Bydd y gwaith dehongli newydd yn defnyddio gwahanol gyfryngau dehongli a bydd maint y gwaith yn amrywio gan adlewyrchu maint y lleoliadau (y tu mewn a'r tu allan), yr hyn sy'n briodol yn y lleoliad hanesyddol, a'r cyfleoedd sydd ar gael i ariannu'r gwaith. Gall hyn amrywio o baneli graffeg neu waith celf awyr agored i waith graffeg ac arddangosfeydd bach y gallir eu rhoi mewn siopau, llyfrgelloedd neu fannau cyhoeddus, taflenni a gwefannau sy'n helpu pobl i gysylltu gwahanol

leoedd, a gweithiau cyfalaf mawr i greu gwaith dehongli newydd trwy deithiau tywys, arddangosfeydd ar gyfer amgueddfeydd. a gwaith dehongli ymhellach i ffwrdd.

Mae'r gwaith dehongli wedi'i ddatblygu gan roi sylw i Brif Ganolfannau a Chanolfannau Lloeren – mae safleoedd mawr yn denu ymwelwyr i'r ardal ac eu cyfeirio i'r safleoedd a'r atyniadau llai y Canolfannau Lloeren). Rhwng y ddau fath hyn o ganolfannau, mae canolfannau canolig eu maint a elwir yn Ganolfannau Canolig sy'n cynnig arlwy sylweddol ym maes treftadaeth eisoes.

Mae'r diagram isod yn disgrifio'r ffordd o weithio.



PROFIAD YMWELWYR - STRATEGAETH

DEITHIOL

ARDDANGOSFA
DEITHIOL
ALLANOL

GWAITH DEHONGLI RHITHWIR AR-LEIN

Amgueddfa
Lechi Cymru

Penrhyn

Rheilffordd
Ffestiniog

Llechwedd

Rheilffordd
Talyllyn

Ysbyty
Chwarel
Dinorwig

Canolfan
Ymwelwyr
Mynydd
Gwefru

Cae'r
Gors

Melin
Lechi
Ynys y
Pandy

Plas
Tan y
Bwlch

Inigo
Jones

Canolfan
Grefftau
Corris

ARDDANGOSFA
DEITHIOL
FEWNOL

DEITHIOL

RHITHWIR

Gwaith dehongli rhithwir ar-lein

- Ysbrydoli pobl cyn iddynt ymweld
- Gwybodaeth i dwristiaid
- Deunydd dehongli
- Beth sy'n digwydd / Digwyddiadau
- Adnodd i roi gwybodaeth hyrwyddo i randdeiliaid

PRIF GANOLFANNAU

Gwaith dehongli ar lefel sylfaenol

- Arddangosfeydd parhaol mawr
- Paneli graffeg awyr-agored
- Gosodweithiau celf
- Llwybrau i'w dilyn
- Gweithgareddau
- Teithiau tywys

CANOLFANNAU CANOLIG

Gwaith dehongli ar lefel ganolradd

- Arddangosfeydd parhaol bychan
- Paneli graffeg awyr-agored
- Gweithiau celf
- Llwybrau i'w dilyn
- Mynediad at ddeunyddiau ar-lein
- Gweithgareddau
- Teithiau hunan-dywys

CANOLFANNAU LLOEREN

Gwaith dehongli ar lefel eilaidd

- Arddangosiadau graffeg bychan y tu mewn
- Paneli graffeg awyr-agored
- Gweithiau celf
- Llwybrau i'w dilyn
- Mynediad at ddeunyddiau ar-lein
- Gweithgareddau
- Teithiau hunan-dywys

6.5 Lleoedd a chyfleoedd i'w dehongli

6.5.1 Cyflwyniad i leoedd i'w dehongli

Prif Ganolfannau

Mae pedwar o'r mannau hyn y gellir eu dehongli yn ceisio grantiau mawr i fuddsoddi mewn gwaith dehongli newydd. Bydd pum safle'n gweithredu fel Prif Ganolfannau, gan gynnig gwaith dehongli ar raddfa fawr a mynediad at gyfleusterau. Dyma nhw:

- Rheilffordd Ffestiniog – Gwaith Peiranyddol Boston Lodge ym Mhorthmadog a'r rheilffordd yn ehangach. Cyflwynodd y rheilffordd gais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) ym mis Awst 2019.
- Mae gan Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis gynlluniau hirdymor i ddatblygu Strategaeth Ddehongli ac maent yn bwriadu ailddatblygu'r lle fesul tipyn.
- Llechwedd – y gobaith yw canfod diben newydd ar gyfer Melin Lechi Maenofferen gyda chymorth grant Menter Treftadaeth o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
- Mae gan Gastell Penrhyn (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) Brosiect Trawsnewid i edrych ar y ffordd y caiff y stori ei chyfleu ac i ganolbwyntio'n well ar stori'r llechi a chaethweision, gyda'r nod o gael prosiect mawr i ailwampio'r gwaith dehongli yn y dyfodol.
- Mae gan Reilffordd Talyllyn gynlluniau i wneud gwaith dehongli newydd yng Nghei Tywyn, yng ngwaith Pendre, Tywyn ac yn ehangach a hyd y rheilffordd.

Canolfannau Canolig

Y Canolfannau Canolig yw:

- Ysbyty Chwarel Dinorwig (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
- Canolfan Ymwelwyr y Mynydd Gwefru
- Cae'r Gors, lle magwyd yr awdur, Kate Roberts (Cadw)
- Melin Lechi Ynys y Pandy
- Plas Tan y Bwlch
- Inigo Jones
- Canolfan Greffttau Corris

Canolfannau Lloeren

Mae'r Canolfannau Lloeren yn gyfuniad o safleoedd hanesyddol sydd â dim ond un panel graffeg, canolfannau cymuned, pentrefi sydd wedi creu gwaith celf neu lwybrau hanes neu atyniadau i ymwelwyr sy'n rhan o'r ardal ond sydd â chysylltiad bychan yn unig â'r stori.

Mae'r map ar y dudalen nesaf yn dangos lleoliad y safleoedd hyn a rhoddir disgrifiad ohonynt yn y tabl.

Lleoedd a chyfleoedd i ddehongli



A. Ogwen

- A1. Castell Penrhyn a'r Gerddi
- A2. Abercegin
- A3. Neuadd Ogwen
- A4. Zip World: Chwarel y Penrhyn
- A5. Pentref Bethesda
- A6. Llyfrgell Bethesda
- A7. Ffarm Moelyci
- A8. Canolfan Ogwen (Bwthyn Ogwen)

B. Dinorwig

- B1. Amgueddfa Lechi Cymru
- B2. Adran Vivian yn y chwarel
- B3. Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru
- B4. Ysbyty'r Chwarel
- B5. Craig yr Undeb
- B6. Rheilffordd Llyn Llanberis
- B7. Rheilffordd yr Wyddfa
- B8. Llanddeiniolen
- B9. Pentref Llanberis
- B10. Y Felinheli (Port Dinorwig)

C. Nantlle

- C1. Chwarel Lechi Dorothea a Threftadaeth Ddisylw
- C2. Tomen Chwarel Lechi'r Cilgwyn
- C3. Yr Orsaf (Nantlle)
- C4. Inigo Jones
- C5. Nantlle a Thal-y-sarn
- C6. Pen-y-groes & Llanllyfni
- C7. Y Banc (Antur Nantlle)
- C8. Y Barics, Nantlle
- C9. Llyfrgell Pen-y-groes
- C10. Cae'r Gors

D. Cwm Ystradllyn a Chwm Pennant

- D1. Melin Lechi Ynys y Pandy
- D2. Chwarel Lechi Gorseddau
- D3. Chwarel Bwlch y Ddwy Elor

E. Blaenau Ffestiniog a'r Rheilffordd

- E1. Tŷ Mawddach – Cymdeithas Hanes Blaenau Ffestiniog
- E2. Chwareli Llechi Ffestiniog – Mynydd Llechi Llechwedd
- E3. Zip World, Ceudyllau Llechi
- E4. Gorsaf trydan dŵr Pant yr Afon (modd mynd yno ac yn dal i weithio)
- E5. Go Below Cwmorthin
- E6. Blaenau Ffestiniog a Chaffi a Llwybrau Beicio Lawr Allt Antur Stiniog
- E7. Plas Tan y Bwlch – Canolfan Astudio'r Parc Cenedlaethol
- E8. Ceiau llechi ar afon Dwyrdd
- E9. Rheilffordd Ffestiniog (a Rheilffordd Eryri)
- E10. Harbwr ac Amgueddfa Forwrol Porthmadog
- E11. Cell B – hostel a man i gynnal digwyddiadau

F. Bryneglwys, Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn

- F1. Rheilffordd Talyllyn
- F2. Y Ganolfan, Abergynolwyn
- F3. Chwarel Bryneglwys
- F4. Pentref Tywyn

G. Aberllefenni

- G1. Pentref Aberllefenni
- G2. Corris Mine Explorers
- G3. Rheilffordd Corris
- G4. Institiwt Corris a'r pentref
- G5. Labrinth y Brenin Arthur

H. Arall

- H1. Cei Llechi
- H2. Llwybr Llechi Eryri (Heb ei ddangos)
- H3. Storiell (Bangor)
- H4. Gwasanaeth Archifau Gwynedd
- H5. History Points (Heb eu dangos)
- H6. Canolfan y Dechnoleg Angen

6.5.2 Lleoedd a chyfleoedd i'w dehongli

Yn y tabl isod, gwelir safleoedd yn y gwahanol ardaloedd lle ceir gwaith dehongli eisoes neu y byddai modd cael gwaith dehongli yno yn y dyfodol. Caiff safleoedd treftadaeth sy'n rhan o'r enwebiad am Safle Treftadaeth y Byd eu nodi isod fel 'elfennau' gyda rhifau cyfeirnod o'r Dossier. Mae'r llythrennau cyfeirnod yn cyfeirio at y map yn 6.5.1)

Safle	Atyniad / elfen / grŵp cymunedol	Gwaith dehongli presennol Digidol	Cyfleoedd	Cysylltiad â themâu a straeon
(A) Ogwen				
(A1) Castell Penrhyn a'r Ardd - yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Elfen 1.7	Tŷ, gerddi ac arddangosiadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, dodrefn ac eitemau o lechfaen Teulu Douglas-Pennant	Cynlluniau ar gyfer gwaith dehongli newydd – hanes byd-eang eitemau. Y tŷ yn symbol o gyfoeth	Gwneud arian Y gweithwyr Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth
(A1) Yr Amgueddfa Reilffyrdd – Castell Penrhyn	Safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Amgueddfa Reilffyrdd	Cynlluniau ar gyfer gwaith dehongli newydd	Cludo ac allforio Y gweithwyr
(A2) Abercegin – Penrhyn Estates	Elfen 1.4	Paneli graffeg ar hyd llwybrau beicio/cerdded (ni ellir mynd i bob man oherwydd lechyd a Diogelwch)	Mynediad cyfyngedig	
(A2) Ffordd haearn Chwarel y Penrhyn	Elfen 1.3	Paneli graffeg yn rhan o'r llwybrau llechi Gwefan Ein Treftadaeth	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	
(A3) Neuadd Ogwen	Cynhelir digwyddiadau diwylliannol yno	Digwyddiadau diwylliannol yn cynnwys rhai'n gysylltiedig â threftadaeth y diwydiant llechi – rhaglen flynyddol	Potensial ar gyfer digwyddiadau eto	
(A4) Zip World – Chwarel y Penrhyn	Atyniad – teithiau Elfen 1.1	Gwifrau gwib a thaith o gwmpas y chwarel (Big Red Bus) Tipyn o waith dehongli newydd yn adeilad y llwybr antur	Bydd gwaith dehongli newydd mewn adeilad a agorwyd yn ddiweddar	Y graig a'r gwaith prosesu Pobl a chymunedau Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft
(A4) Chwarel y Penrhyn (chwarel weithredol)	Elfen 1.1	Taith o gwmpas y chwarel lechi	Bwriad i gynnig teithiau tywys o gwmpas y chwarel weithredol	Y graig a'r gwaith prosesu Pobl a chymunedau Dyfeisgarwch, sgiliau a

				chrefft
(A5) Pentref Bethesda yn cynnwys (A6) y Llyfrgell ac (A7) Ffarm Moelyci	Elfen 1.6 ac 1.5	Llwybrau o gwmpas y pentref – llwybrau llechi Llys Dafydd Gwefan Ein Treftadaeth https://www.visitsnowdonia.info/cy/treftadaeth-diwylliant History Points a chodau QR http://www.historypoints.org/ Cerflun o chwythwr corn y chwarel ym Methesda History Points – cofeb streic y chwarel, neuadd y farchnad, Eglwys Grist, cerflun http://www.historypoints.org/	Gwaith dehongli a gwaith celf i'w datblygu trwy gynllun LleCHI Arddangosfa fechan	Pobl a chymunedau
(A8) Canolfan Ogwen (Bwthyn Ogwen) APCE	Canolfan ymwelwyr Parc Cenedlaethol Eryri – y tu allan i ardal Safle Treftadaeth y Byd	Gwaith dehongli'n cael ei ailwampio	Gwaith dehongli newydd ynghylch hanes natur a'r dirwedd	Y graig a'r gwaith prosesu Y dirwedd a bioamrywiaeth
(B) Dinorwig				
(B1) Amgueddfa Lechi Cymru – Amgueddfa Cymru	Atyniad Elfen 2.5 – adran beiranyddol	Arddangosfeydd amgueddfa Gweithdai Arddangosiadau a theithiau	Bwriad i ail-ddehongli'r safle yn y dyfodol	Pob thema
(B2) Adran Vivian yn y chwarel – Amgueddfa Cymru (?)	Elfen 2.4	Panel graffeg ac inclên sy'n gweithio History Point http://www.historypoints.org/	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	
(B3) Canolfan Ymwelwyr y Mynydd Gwefru	Atyniad y tu allan i ardal Safle Treftadaeth y Byd	Gwaith dehongli'n cael ei ailwampio	Gwaith dehongli chwarel lechi Dinorwig	Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft Y graig a'r gwaith prosesu Pobl a chymunedau
(B4) Ysbyty'r Chwarel – Cyngor Gwynedd	Atyniad Elfen 2.10	Dehongli ac ail-greu'r ysbyty History Point http://www.historypoints.org/	Gwaith dehongli a gwaith celf i'w datblygu trwy gynllun LleCHI	Y gweithwyr Gwneud arian Pobl a chymunedau

(B5) Craig yr Undeb	Elfen 2.9	Paneli graffeg ar y safle History Point http://www.historypoints.org/	Gwaith newydd i'w ddatblygu trwy gynllun LleCHI	Y gweithwyr Gwneud arian
(B6) Rheilffordd Llyn Llanberis	Atyniad y tu allan i ardal Safle Treftadaeth y Byd	Rheilffordd a locos (nid rhai gwreiddiol y rheilffordd hon) History Point http://www.historypoints.org/	Dim cynlluniau ar hyn o bryd ond gellid ehangu'r gwaith dehongli i gynnwys llechi	Cludo ac allforio
(B7) Rheilffordd yr Wyddfa	Atyniad y tu allan i ardal Safle Treftadaeth y Byd	Dim cysylltiad â llechi ond golygfeydd trawiadol o chwareli, a thrên stêm	Dim cynlluniau ar hyn o bryd, gellid gwneud cysylltiad â'r golygfeydd	Y dirwedd Y graig a'r gwaith prosesu
(B8) Llanddeiniolen	Y cyngor cymuned		Llwybrau cerdded a chysylltiad ag Amgueddfa Lechi Cymru Diogelu enwau lleoedd Cymraeg	Pobl a chymunedau
(B9) Pentref Llanberis	Grŵp cymunedol – Menter Fachwen	Paneli graffeg History Point – yr orsaf a wagen rwbel, cofeb ffrwydrad, hen storfa fomiau http://www.historypoints.org/	Bwriedir gwneud gwaith dehongli newydd trwy'r Gronfa Datblygu Gwledig, yn gysylltiedig â'r felin llechi ysgrifennu	Pobl a chymunedau Y gweithwyr Allforio byd-eang
(B10) Y Felinheli (Port Dinorwig)		History Point – cei llechi a'r harbwr http://www.historypoints.org/	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	Cludo ac allforio
(C) Nantlle				
(C1) Chwarel Lechi Dorothea a Threftadaeth Ddisylw	Safle y gellir mynd iddo ar dir preifat Elfennau 3.1, 3.2, 3.3	Mae Treftadaeth Ddisylw Dyffryn Nantlle yn datblygu ap realiti estynedig, prosiect hanes llafar, gwelliannau cymunedol a phrosiect llysgenhadon llechi https://treftadaethddisylw.cymru/dyffryn-nantlle/	Byddai modd cael gwaith dehongli ar y safle neu mewn mannau eraill Gellid cynnwys gwybodaeth am yr Injan Drawst Gernywaidd	Pobl a chymunedau Y gweithwyr
(C2) Tomen Chwarel Lechi'r Cilgwyn	Elfen 3.1		Yn y domen	Y graig a'r gwaith prosesu
(C3) Yr Orsaf (Nantlle)	Atyniad y tu allan i ardal Safle		2022 – Canolfan Wasanaethau a Illecyn	Pobl a chymunedau Y gweithwyr

	Treftadaeth y Byd		digidol i bobl ifanc Gallai'r ganolfan newydd gynnwys gwaith dehongli Portread o'r tafarnwr (y gorsaf-feistr cyntaf)	
(C4) Inigo Jones	Gwaith llechi	Taith annibynnol o gwmpas y gwaith		Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth
(C5) Nantlle a Thal-y-sarn	Pentref	Cofeb ryfel yn Nantlle â golygfeydd o chwarel lechi	Gellid cael gwaith dehongli yn Trigonos, Nantlle (Tŷ Rheolwr y Chwarel) Bwriedir gwneud rhagor o ddehongli trwy LleCHI	Pobl a chymunedau Y gweithwyr
(C6) Penygroes a Llanllyfni	Y Pentref	Datblygwyd trwy brosiect LLeCHI – baneri stryd, swyddog marchnata newydd, a ffilm o anthem Dyffryn Nantlle	Grŵp dehongli Llanllyfni yn datblygu cynigion	??
(C7) Y Banc (Antur Nantlle)	Deli Bwyd	Na	Gellid cynnal arddangosfa deithiol / gwib- arddangosfa yno	
(C8) Y Barics, Nantlle	Caffi a siopau	Na	Gellid cynnal arddangosfa deithiol / gwib- arddangosfa yno	Pobl a chymunedau Y gweithwyr
(C9) Llyfrgell Penygroes	Llyfrgell	Na	Gellid cynnal arddangosfa deithiol / gwib- arddangosfa yno	
(C10) Cae'r Gors	Safle gan Cadw y tu allan i'r Safle Treftadaeth y Byd (ar gau ar hyn o bryd)	Cartref Kate Roberts, awdur Cymreig o fri	Gallai gwaith dehongli newydd adrodd stori ehangach menywod ym myd y chwareli llechi	Pobl a chymunedau
(D) Cwm Ystradllyn a Chwm Pennant				
(D1) Melin Lechi Ynys y Pandy (gall y cyhoedd fynd yno)	Elfen 4.3	Hen banel graffeg	Mae gan APCE gynlluniau i ddatblygu'r safle gan gynnwys elfennau	Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft

			mynediad a gwaith dehongli	
(D2) Chwarel Lechi Gorseddau	Elfen 4.1 - amgylchedd bregus	Mynediad cyfyngedig – angen i'r gwaith dehongli fod yn rhywle arall	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	
(D3) Chwarel Bwlch y Ddwy Elor	Elfen 4.		Panelli graffeg ar y safle	Y graig a'r gwaith prosesu Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft
(E) Blaenau Ffestiniog a'r Rheilffordd				
(E1) Cymdeithas Hanes Blaenau Ffestiniog	Arddangosiadau yn Antur Stiniog	Arddangosfa am yr hanes	Arddangosfeydd yn y dyfodol	Y gweithwyr Pobl a chymunedau
(E2) Safle Llechwedd	Elfen 5.1	Panelli graffeg ar y safle	Datblygu rhagor o waith dehongli	Y graig a'r gwaith prosesu
(E2) Chwareli a cheudyllau Llechwedd – Ffestiniog	Elfen 5.2 Atyniad yn cynnwys teithiau i'r ceudyllau	Teithiau tywys yn y ceudyllau – treftadaeth Oes Fictoria	Datblygu defnydd i adrodd y stori ehangach ac i greu dolen gyswllt â lleoedd eraill	Y graig a'r gwaith prosesu Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft
(E2) Chwarel Lechi Maenofferen – Llechwedd	Elfen 5.5	Rhai teithiau tywys i'r ceudwll	Bydd cynlluniau'r felin lechi'n cyfuno addysg, treftadaeth a thwristiaeth	Y graig a'r gwaith prosesu
(E3) Zip World Blaenau Ffestiniog	Bounce Below, gwifren wib a chws rhwystrau tanddaear	Cael mynd i'r ceudyllau llechi	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	Y graig a'r gwaith prosesu Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft
(E4) Pant yr Afon – gorsaf trydan dŵr (modd mynd yno ac yn dal i weithio)	Elfen 5.3		Dim cynlluniau ar hyn o bryd	Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft
(E5) Go Below, Cwmorthin	Atyniad antur	Teithiau antur Ymweld â'r ceudwll yng ngolau cannwyll (angen trefnu ymlaen llaw)	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	Y graig a'r gwaith prosesu Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft
(E6) Blaenau Ffestiniog a Chaffi a Llwybrau Beicio	Elfen 5.6	Geiriau Stryd – yn y palmant ac yn adeilad y toiled Gwelliannau i ganol y dref – gwaith dehongli a	Cysylltu'r dref â'r chwarel / atyniad Mynydd Llechi –	Pobl a chymunedau Y gweithwyr

Lawr Allt Antur Stiniog		cherfluniau Tŷ Mawddach – arddangosfa hanes (gan Gymdeithas Hanes Bro Ffestiniog) ar Stryd Fawr y Blaenau Arddangosfa gan David Nash History Point – Olion Cwmorthin Terrace, yr orsaf reilffordd a chyn gartref Mary a Robert Silyn Roberts http://www.historypoints.org/	defnyddio llwybrau'r chwarelwyr Gwaith dehongli trwy LleCHI a'r Cynllun Cynefin Byddai modd cael arddangosfa yn y llyfrgell	
(E7) Plas Tan y Bwlch – Canolfan Astudio'r Parc Cenedlaethol	Elfen 5.7 Atyniad	Sgyrsiau cyhoeddus a chysiau'n edrych ar chwareli a rheilffyrdd bach cul Gwaith dehongli am y dirwedd a'r tŷ Gwefan APCE	Gellid datblygu'r gwaith dehongli i adrodd stori ehangach gan ddefnyddio mwy o gyfryngau dehongli	Gwneud arian (y teulu Oakeley) Y dirwedd a bioamrywiaeth
(E8) Ceiau llechi ar afon Dwyrdd	Elfen 5.8		Datblygu gwaith dehongli ar y safle	Cludo ac allforio
(E9) Rheilffordd Ffestiniog (a Rheilffordd Eryri)	Elfen 5.9	Ychydig o waith dehongli sydd yno ar hyn o bryd ac mae'n canolbwyntio ar hanes y rheilffordd	Prosiect i ddatblygu gwaith dehongli yn Boston Lodge (gwaith peirianyddol) ac ar hyd y rheilffordd	Cludo ac allforio Pobl a chymunedau Allforio byd-eang
(E10) Harbwr ac Amgueddfa Forwrol Porthmadog	Elfen 5.10 Atyniad	Amgueddfa mewn cwt llechi ar yr harbwr, casgliad mawr o eitemau ac arddangosiadau am ddatblygiad y dref, y diwydiant llechi, adeiladu llongau (sgwneri a 'Western Ocean Yachts) a'r rheilffordd History Point – harbwr, amgueddfa, gorsafoedd rheilffordd, Lombard St, Ffowndri Britannia http://www.historypoints.org/	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	Y graig a'r gwaith prosesu Cludo ac allforio Allforio byd-eang Pobl a chymunedau
(E11) Cell B – hostel a man i gynnal digwyddiadau				
(F) Chwarel Bryneglwys, pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn				
(F1) Rheilffordd Talyllyn	Atyniad Elfen 6.3	Paneli graffeg yng ngorsaf Tywyn yn esbonio hanes y rheilffordd	Cynlluniau i wneud mwy o waith dehongli yng ngorsaf Abergynolwyn, mewn	Cludo ac allforio Pobl a chymunedau Dyfeisgarwch, sgiliau a

			wagen, mewn cwt newydd ac yn y gwaith peiranyddol	chrefft
(F1) Amgueddfa Rheilffyrdd Bach Cul – Tywyn	Atyniad (yn annibynnol ar y rheilffordd)	Mae'n adrodd stori'r rheilffyrdd bach cul, mae'n dweud llawer am lechi a'r Parch Wilbert Awdry	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	Cludo ac allforio Pobl a chymunedau Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft
(F2) Y Ganolfan Abergynolwyn	Atyniad (pentref) Elfen 6.3	Casgliad o ffotograffau yn y neuadd gymuned, yn cynnwys rhai o'r diwydiant llechi	Gellid datblygu gwaith dehongli newydd o gwmpas y pentref	Pobl a chymunedau
(F3) Chwarel Lechi Bryneglwys	Elfen 6.1	Panel graffeg ar y safle	Byddai modd datblygu gwaith dehongli newydd	Y graig a'r gwaith prosesu
(F4) Pentref Tywyn	Y Llyfrgell	History Point – yr orsaf a wagen trên http://www.historypoints.org/	Gwaith dehongli newydd o gwmpas y pentref – teithiau cerdded hanesyddol, taflen a phaneli graffeg gan y gymdeithas hanes leol History Point	
(F4) Cymdeithas Hanes Tywyn	Y Gymdeithas Hanes	Teithiau tywys hanesyddol	Cynlluniau ar gyfer gwaith dehongli newydd yn y dyfodol	Cludo ac allforio Pobl a chymunedau
(G) Aberllefenni				
(G1) Pentref Aberllefenni	Elfen 7.4		Gellid datblygu gwaith dehongli newydd o gwmpas y pentref	Allforio byd-eang (Chwareli Ffrengig)
(G2) Corris Mine Explorers	Atyniad y tu allan i ardal Safle Treftadaeth y Byd	Ymweliad tanddaear i weld y cloddfeydd llechi	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	Y graig a'r gwaith prosesu
(G3) Rheilffordd Corris	Atyniad y tu allan i ardal Safle Treftadaeth y Byd (y rheilffordd a'r amgueddfa)	Lein fach gul i gario llechi	Dim cynlluniau ar hyn o bryd	Cludo ac allforio

(G4) Institiwt a phentref Corris	Canolfan gymuned y tu allan i ardal Safle Treftadaeth y Byd	Paneli graffeg am hanes y pentref	Gellid datblygu gwaith dehongli newydd yn y pentref	
(G5) Labrinth y Brenin Arthur				
(H) Arall				
(H1) Cei Llechi, Caernarfon	Adeiladau'r harbwr wedi'u hadfer	Gwaith adfer ar y gweill History Point – Cei Llechi, yr orsaf, Ffowndri De Winton a loco o chwarel	Gwaith dehongli a gwaith celf newydd am yr harbwr, cysylltiadau byd-eang, y diwydiant llechi a'r rheilffordd	Cludo ac allforio Pobl a chymunedau Y graig a'r gwaith prosesu
(H2) Llwybr Llechi Eryri	Llwybr llechi gyda llyfr a gwefan	Llyfr a gwefan Ap		
(H3) Storiell (Bangor)	Amgueddfa	Casgliadau perthnasol a gwaith dehongli	Cyfeirio ymwelwyr	
(H4) Gwasanaeth Archifau Eryri	Archif			
(H5) History Points	Codau QR a gwefan	Codau QR yn Rheilffordd Ffestiniog a Lonydd Glas Gwynedd Pwllfanog, Ynys Môn (llechi ysgrifennu) a Doc Deganwy http://www.historypoints.org/		
(H6) Canolfan y Dechnoleg Amgen				

6.6 Argymhellion

Datblygwyd yr argymhellion o'r cyfleoedd a nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn. Maent yn cydnabod bod dehongli'r dirwedd lechi yn broses sy'n datblygu'n raddol a'i bod yn cynnwys llawer o randdeiliaid, partneriaid a pherchnogion. Mae hyn yn golygu y caiff y gwaith dehongli ei ddatblygu ad hoc pan fydd cyllid ar gael. Mae'r strategaeth hon yn cyflwyno'r stori ac egwyddorion y gwaith dehongli er mwyn sicrhau cysondeb yn y naratif a'r dull o ddehongli ar draws y dirwedd lechi.

Bwriad yr argymhellion yw:

- Sicrhau bod y stori gyfan yn cael ei hadrodd a nodi ffyrdd o adrodd rhannau o'r stori nad ydynt yn cael eu hadrodd
- Sicrhau bod Prif Ganolfannau sy'n gyrchfannau ymwelwyr sylweddol, o safon uchel ar gael
- Cysylltu safleoedd a lleoedd hanesyddol nad yw pobl yn gwybod amdanynt nac yn ymweld â nhw
- Creu dull strategol a chydlynol o ddehongli
- Sefydlu gweithgor a phennu ceidwad y stori a'r brand
- Defnyddio gwahanol gyfryngau dehongli sy'n apelio at gynulleidfaoedd newydd a'r rhai presennol
- Defnyddio'r gwaith dehongli a'r cyfleusterau sydd eisoes mewn atyniadau ac adeiladu arnynt

6.6.1 Y Camau Cyntaf

Mae gan y prosiect hwn gyllideb o £35,000 i ddechrau datblygu gwaith dehongli'r dirwedd llechi. Mae angen defnyddio'r arian mewn dull strategol i greu dull gweithredu cyffredinol a fydd o fudd i'r holl ardal ac yn dechrau adrodd y stori gyfan.

Bydd y gweithgor presennol yn dal i gydweithio gan ddatblygu cylch gorchwyl a gweledigaeth newydd.

A) Datblygu hunaniaeth brand gweledol

Y man cychwyn yw creu hunaniaeth weledol ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd. Bydd hyn yn adeiladu ar y stori frandio ac yn arwain yr holl waith marchnata ar-lein a dehongli a wneir yn y dyfodol. Bydd yn creu hunaniaeth, arddull graffig a llais unigryw ar gyfer y gwaith dehongli.

B) Creu porth digidol newydd

Bydd gwefan newydd yn cynnig ysbrydoliaeth, gwybodaeth a gwaith dehongli ar gyfer ymwelwyr. Bydd yn fwy na gwefan a bydd yn helpu pobl nid yn unig i ganfod llefydd i ymweld â nhw ond bydd hefyd yn ennyn eu diddordeb yn y stori epig. Bydd y tudalennau cychwynnol yn ysbrydoli pobl i ymweld, ac yna rhoddir gwybodaeth hanfodol am lefydd i ymweld â nhw a bydd y gwaith dehongli yn sicrhau bod pobl yn gallu canfod atebion i'w cwestiynau am y diwydiant llechi a'r dirwedd. Bydd ar gael i ymwelwyr sydd eisoes yn yr ardal ac yn dymuno dysgu mwy am hanes y lle, yn ogystal ag i ymwelwyr sy'n cynllunio taith neu'n edrych yn ôl ar eu hymweliad. Bydd hefyd yn cysylltu â'r gwaith o ddatblygu adnoddau ar gyfer y Pecyn Cymorth Marchnata.

Mae deunyddiau a gwaith dehongli digidol yn dibynnu ar gael eu hyrwyddo'n dda a bod gennych gysylltiad â'r rhyngwrdd neu wi-fi. Mae pobl yn fwy tebygol o chwilio am wybodaeth ddigidol cyn iddynt ymweld ac ar ôl bod. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod pobl yn gallu cael gwybodaeth ddigidol tra byddant yn yr ardal. Gellir gwneud hyn mewn partneriaeth â busnesau a mannau cymunedol yn yr ardal sy'n darparu wi-fi, ac sy'n gallu cysylltu ymwelwyr â'r wefan newydd. Os nad

oes signal ffôn dda na wi-fi yn rhywle, dylid ystyried rhyngwrwyd leol fel Info-point. Mae hyn yn creu signal leol ac yn eich galluogi i weld cynnwys digidol ond nid i gysylltu â'r rhyngwrwyd yn ehangach.

Cost un uned Info-point sy'n cael ei phweru o'r brif gyflenwad, heb y cynnwys - £ 3,000 - £ 3,500 heb gynnwys TAW

Cost un uned Info-point fel uchod ond wedi'i phweru gan yr haul - £ 6,000 - £ 7,000 heb gynnwys TAW

6.6.2 Datblygu'r Prif Ganolfannau

Mae'r pum Prif Ganolfan yn atyniadau ymwelwyr mawr sydd eisoes yn denu pobl i'r ardal ac sydd â chyfleusterau digonol ar gyfer nifer fawr o ymwelwyr. Mae pob un o'r llefydd wedi pennu prosiect cyfalaf i warchod y dreftadaeth lechi ac i ddatblygu gwaith dehongli newydd i'w wneud yn hygyrch i ymwelwyr. Bydd y prosiectau hyn yn ceisio arian grant o wahanol ffynonellau gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae angen i'r prosiectau adeiladu ar waith y Strategaeth Ddehongli a datblygu'r straeon allweddol a nodwyd, gan gysylltu â lleoedd eraill er mwyn annog ymwelwyr i grwydro'n ehangach.

Castell Penrhyn

Bydd y gwaith dehongli newydd yn creu gweithiau celf ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau dehongli er mwyn creu ffordd newydd o adrodd stori teulu Penrhyn a'u cysylltiadau â'r fasnach gaethweision ac ystadau yn Jamaica. Bydd y stori'n ennyn trafodaeth a chwestiynau am bentryrru cyfoeth ynghyd â chost caethwasiaeth a'r diwydiant llechi.

Dolen i'r topigau allweddol Gwneud arian ac Y gweithwyr

Rheilffordd Ffestiniog

Bydd prosiect i warchod treftadaeth unigryw gwaith peirianyddol Boston Lodge yn creu gweithgareddau a gwaith dehongli sy'n adrodd stori'r rheilffordd a'r datrysiadau peirianyddol a grëwyd i oresgyn heriau'r dirwedd. Ehangwyd y prosiect i gynnwys gwaith dehongli ledled y safle a fydd yn cysylltu â stori'r diwydiant llechi a'r bobl

Dolen i'r topigau allweddol: Cludo ac allforio, Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth, Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft, ac Allforio syniadau a llechi yn fyd-eang

Amgueddfa Lechi Cymru

Mae'r amgueddfa'n bwriadu mynd ati'n raddol i ailddatblygu'r safle'n llwyr gan greu gwell cyfleusterau a dull newydd o ddehongli. Bydd yr amgueddfa'n adrodd stori genedlaethol y diwydiant llechi heb golli golwg ar y cysylltiad â'r ardal leol a'r gymuned. Dyma'r unig safle a all adrodd stori gyflawn y diwydiant llechi, gan gyflwyno'r holl themâu a sicrhau cysylltiad â safleoedd eraill.

Dolen i'r topigau allweddol: Cyflwyno'r holl themâu

Llechwedd – Melin Lechi Maenofferen

Y felin hon, uwchlaw'r chwarel lechi, yw'r adnodd mwyaf na fanteisiwyd arno eto i adrodd hanes treftadaeth llechi yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae ymhlith yr asedau a reolir gan Llechwedd ac mae cynlluniau i adfer yr adeiladau. Dechreuwyd gweithio eisoes ar rai o'r adeiladau. Byddai'n rhan o economi cymysg twristiaeth yn Llechwedd a byddai'n cynnwys treftadaeth, addysg a thwristiaeth.

Dolen i'r topigau allweddol: Y graig a'r gwaith prosesu, a Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft

Rheilffordd Talyllyn

Mae'r ymddiriedolwyr yn cynllunio cyfres o safleoedd dehongli cysylltiedig yng Nglanfa Tywyn. Yn gyntaf, bwriedir adfer rhan o seidin y brif reilffordd ar hyd ymyl y Lanfa gan roi wagen lled safonol arni. Bydd hyn yn dangos sut y câi'r llechi eu trosglwyddo o'r lein fach gul i'r lein lled safonol. Wedyn, datblygir canolfan dreftadaeth newydd lle cedwir cerbydau a wagenni gwreiddiol pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Bydd yno arddangosiadau deongliadol am hanes y trenau a'r bobl a'r nwyddau a gludent yn ogystal ag effaith y rheilffordd ar y gymuned leol. Bydd arddangosfa glyweledol newydd yn adrodd stori'r rheilffordd. Ym Mhendre, Tywyn, bwriedir cael gweithdy peirianyddol newydd a fydd yn cynnwys canolfan ddehongli wedi'i seilio ar agwedd beirianyddol y rheilffordd, ei hanes a'i heffaith.

6.6.3 Argymhellion ar gyfer y Cynlluniau Cynefin

Mae'r Cynlluniau Cynefin yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer twristiaeth, cyfleusterau cymunedol a gwaith dehongli mewn gwahanol gymunedau. Mae angen datblygu'r rhain a symud ymlaen â nhw pan fydd cyllid ar gael. Mae angen i'r cynnwys a'r dyluniad llynu at yr egwyddorion a'r dull gweithredu a nodir yn y Strategaeth Ddehongli, ac yn hunaniaeth weledol a gwaith brandio'r prosiect.

6.6.4 Datblygu'r Canolfannau Canolig a'r Canolfannau Lloeren

Rhwng y Prif Ganolfannau a'r Canolfannau Lloeren, mae cyfres o ganolfannau canolig eu maint sydd eisoes yn darparu ar gyfer ymwelwyr ac sy'n bwriadu datblygu gwaith dehongli newydd. Bydd rhai o'r rhain yn digwydd yn annibynnol a gallai eraill gael eu datblygu fel rhan o brosiect ehangach mewn partneriaeth â sefydliadau a safleoedd eraill. Caiff y prosiectau hyn fwy o effaith os cânt eu datblygu o amgylch thema a chysylltu gwahanol leoedd, gan greu partneriaethau newydd. Mae'r prosiectau a nodir isod yn syniadau ar gyfer datblygiadau. Mae dau brosiect eisoes ar y gweill ac wedi'u disgrifio o dan 'Prosiectau cyfredol'.

Prosiectau cyfredol:

Mae Mynydd Gwefru a Chanolfan Ymwelwyr Ogwen yn datblygu gwaith dehongli newydd a fydd, er nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â llechi, yn cysylltu â stori'r Tirwedd Llechi ac yn helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal.

Straeon heb eu hadrodd

Mae stori menywod yn y diwydiant llechi yn cael ei datgelu trwy waith ymchwil gan grwpiau ac unigolion fel Merched Chwarel. Bydd gwaith dehongli newydd yng Nghae'r Gors, cartref yr awdur Kate Roberts, yn cael ei ddatblygu i adrodd stori ehangach am ferched a oedd yn byw ac yn gweithio yn y dirwedd llechi, ochr yn ochr â stori Kate Roberts. Yn ogystal, datblygir gwaith dehongli newydd ar safleoedd ledled yr ardal i adrodd rhai o'r straeon a ddatgelir fel stori Margery Jones y nodir yng nghyfrifiad 1871 ei bod yn gludwr llechi a merched a restrwyd fel cludwyr yn Chwarel y Penrhyn yn yr 1740au.

Datgelu'r dirwedd

Nid yw'r gwaith dehongli presennol ym Mhlas Tan y Bwlch, cartref y teulu Oakeley, perchnogion chwareli, yn cynnig croeso amlwg i ymwelwyr, strwythur clir ar eu cyfer na llwybr penodol iddynt ei ddilyn. Mae'r gwaith dehongli presennol yn eithaf cyffredinol am y diwydiant llechi a gellid rhoi mwy o bwyslais ar stori'r teulu Oakeley, eu rôl yn y diwydiant chwareli a'u cysylltiad ag India yn ogystal â helpu pobl i archwilio'r amgylchedd naturiol ac i ddysgu mwy am fyd natur yn yr ardal. Byddai

ailldatblygu'r arlwy ar gyfer ymwelwyr yn eu helpu i ddarganfod y stori a gallai'r safle ddod yn Ganolfan Ganolig a chysylltu â'r canolfannau lloeren.

Cludo llechi

Rheilffordd Talyllyn oedd y rheilffordd lechi gyntaf i'w hadeiladu ar gyfer locomotifau stêm a'r gyntaf i gysylltu â'r brif reilffordd. Mae ymddiriedolaeth y rheilffordd yn cynllunio prosiect i ailldatblygu Gorsaf Abergynolwyn fel cyrchfan i deithwyr ar y rheilffordd hanesyddol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith dehongli newydd a gallai gysylltu â gwaith dehongli ehangach am y diwydiant llechi yn Chwarel Bryneglwys ynghyd ag arwyddocâd y rheilffordd a'i stori hi a'r bobl a fu'n gweithio yma. Bydd y gwaith dehongli hwn yn cysylltu â themâu 'Cludo ac allforio', 'Gwneud arian', 'Pobl a chymunedau' a 'Dyfeisgarwch, Sgiliau a Chrefft'. Dylai'r gwaith dehongli newydd gysylltu hefyd â phrosiect o dan arweiniad y gymuned yng Nghanolfan Gymuned Abergynolwyn gan ddefnyddio ffotograffau o'r archif a'r prosiect o dan arweiniad y gymdeithas hanes leol yn Nhywyn.

Mae rhagor o gyfleoedd ar gyfer Canolfannau Canolig eraill

- Gallai'r Amgueddfa Forwrol (Porthmadog) ddatblygu arddangosiadau newydd sy'n cysylltu â phobl a chymunedau gan ddefnyddio gwrthrychau i gyflwyno hanes trafndiaeth ac allforio a chysylltiadau byd-eang
- Bu gan Felin Lechi Ynys y Pandy baneli graffeg ar y safle yn y gorffennol ond nid oes gwaith dehongli yno ar hyn o bryd
- Gallai Zip World ddatblygu set o baneli graffeg i helpu ymwelwyr i grwydro'r ardal ehangach gan gyflwyno thema 'Pobl a chymunedau' ac awgrymu lleoedd eraill gerllaw i ymweld â nhw
- Mae Ysbyty Chwarel Dinorwig yn lle poblogaidd i ymweld ag ef ond mae'r amseroedd agor yn gyfyngedig. Mae angen adolygu hyn neu gynnig gwaith dehongli y tu allan i'r adeilad

Arddangosfa deithiol

Bydd dwy arddangosfa fodiwlaid ar gael i'w benthyca gan amgueddfeydd, safleoedd hanesyddol, llyfrgelloedd a chanolfannau cymuned. Bydd un arddangosfa wedi'i chynllunio i fod mewn lleoedd yn y dirwedd lechi a bydd yn helpu i symud ymwelwyr o amgylch yr ardal gan ymwneud â'r gymuned leol. Bydd y llall ar gael i'w rhoi ar fenthyg i fannau y tu allan i Wynedd gan gynnwys siroedd fel Swydd Gaer a Swydd Amwythig. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r stori ac yn helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal neu bydd yn dehongli'r stori ar gyfer pobl na fydd, o bosib, byth yn ymweld â hi.

Cyflwyno'r cymeriadau

Bydd gwaith dehongli ar raddfa lai yn helpu i ddatgelu hanesion pobl trwy gelfyddyd, perfformio a phaneli graffeg newydd mewn llecynnau cymunedol.

History Points

Mae History Points mewn gwahanol fannau – bydd dull gweithredu strategol a thema briodol ar gyfer y diwydiant llechi yn hybu'r adnodd hwn nad yw'n cael ei ddefnyddio i'r eithaf.

6.6.5 Costau dangosol

Costau ar gyfer gwaith dehongli newydd

Canllaw yw'r costau hyn a gallai fod yn fuddiol gofyn i gwmnïau am ddyfynbrisiau cyn sicrhau cyllid.

Panel graffeg awyr-agored

Un arwydd GRP wedi'i mewngapsiwleiddio, 1200 o uchder x 800 o led yn cynnwys	£2,800.00
--	-----------

dylunio, gwaith celf, ffrâm gynnal - (Yn tybio bod y cynnwys a'r lluniau wedi'u cyflenwi)	
Swm prif gost ar gyfer danfon a gosod pob arwydd	£600.00

Panel graffeg dan do

Un panel MDF 12mm gyda lapio digidol (digital wrap) a laminiad clir i'w warchod - 1200 o uchder x 800 o led yn cynnwys dylunio, gwaith celf. (Yn tybio bod y cynnwys a'r lluniau wedi'u cyflenwi)	£1,200.00
Swm prif gost ar gyfer danfon a gosod	£600.00

Cerflun cyffwrdd 3D

Model/cerflun efydd bwrw	£10,000 - £20,000
Swm prif gost ar gyfer danfon a gosod	£1000.00

Gwib-arddangosfa deithiol

Gwib-arddangosfa gyda graffeg a chasys cludo. Yn cynnwys dylunio a gwaith celf. (Yn tybio bod y cynnwys a'r lluniau wedi'u cyflenwi)	£5,200.00
Eitem ryngweithiol syml i fynd gyda'r arddangosfa	£5,000.00
Sgrin gyffwrdd 22" gyda CMS a chysylltiad wi-fi. (Yr offer yn unig, heb y cynnwys)	£3,500.00
Cas arddangos bach, diogel, cludadwy o safon arddangosfa	£7,000.00
Swm prif gost ar gyfer danfon a gosod	£600.00
	£21,300.00

6.7 Pecynnau a awgrymir ar gyfer ymwelwyr

Bydd angen datblygu'r rhain ochr yn ochr â'r gwaith dehongli newydd. Bydd y pecynnau ymwelwyr yn cael eu creu o amgylch pynciau thematig yn ogystal â lleoliadau daearyddol.

Recordiau'r Byd – y mwyaf a'r hynaf

Anelir y pecyn ymwelwyr hwn at deuluoedd. Bydd yn cychwyn yng Nghastell Penrhyn lle bydd ymwelwyr yn dysgu mwy am y chwarel lechi – y fwyaf yn y byd ar un adeg dros 100 mlynedd yn ôl. Byddant yn mynd ymlaen i Reilffordd Ffestiniog, sydd â thair Record Byd Guinness ac i Flaenau Ffestiniog, y dref wlypaf yng Nghymru.

Dod i nabod pobl yr ardal

Bydd y pecynnau hyn yn helpu pobl sy'n ymweld â'r atyniadau mawr i ddarganfod y cymunedau a'r pentrefi sy'n swatio yn y dirwedd lechi a byddant yn awgrymu mannau i ymweld â nhw sy'n adrodd stori'r bobl a greodd y dirwedd epig hon.

Gwisgwch eich esgidiau cerdded

Bydd y pecynnau hyn yn annog ymwelwyr i fynd allan i'r brynau a'r mynyddoedd ac i archwilio'r gweithfeydd llechi a'r adeiladau hanesyddol. Byddant yn cynnwys cyngor am fapiau a llwybrau ac yn sicrhau diogelwch ymwelwyr ac ymddygiad cyfrifol.

Thematig

Cysylltir safleoedd gan y straeon y maent yn eu hadrodd. Bydd hyn yn defnyddio egwyddor ymgyrch Cadw 'Dilyn y Stori', gan annog ymwelwyr i fynd i leoedd eraill cyfagos sy'n adrodd stori gysylltiedig

7. Monitro a gwerthuso

7.1 Deilliannau a mesurau

Deilliannau Dysgu Generig

Datblygwyd y Deilliannau Dysgu Generig (GLOs) fel rhan o Fframwaith Ysbrydoli Dysgu i Bawb. Fe'i seilir ar ddiffiniad eang o ddysgu sy'n nodi sut y mae pobl yn elwa o ymwneud â sefydliadau celfyddydol a diwylliannol. Mae GLOs yn ffordd gydnabyddedig o gynllunio ar gyfer arddangosiadau a gweithgareddau mewn amgueddfeydd a chyflwyno tystiolaeth o'u heffaith. Mae'r tabl isod yn nodi'r cynulleidfaoedd targed a'r deilliannau y dymunwn eu gweld ar gyfer pob un.



Y Gynulleidfa Darged	Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Agweddau a gwerthoedd	Mwynhad, ysbrydoliaeth a chreadigrwydd	Gweithgarwch, ymddygiad a dilyniant
Twristiaid	Darganfod treftadaeth fawreddog y dirwedd lechi Dysgu am yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a luniwyd gan y diwydiant llechi	Cymryd rhan mewn gweithgareddau a dysgu sgil newydd. Rhoi cynnig ar ddefnyddio geiriau Cymraeg	Deall arwyddocâd treftadaeth y diwydiant llechi a gwerthfawrogi'r rhan bwysig y mae'n ei chwarae yn hanes Cymru a Phrydain. Parch at dreftadaeth gymunedol a dealltwriaeth ohoni	Pobl yn cael eu hysbrydoli gan y dirwedd. Mwynhau eu hymweliad a dod yn ôl / rhannu'r profiad	Dysgu am lefydd eraill i ymweld â nhw yn yr ardal ac aros am dipyn Meithrin parch at gymunedau lleol a dealltwriaeth ohonynt
Ymwelwyr rhyngwladol	Dysgu am arwyddocâd bydeang y diwydiant llechi a'i gysylltiadau rhyngwladol Dysgu pam mai llechi Cymru yw'r gorau yn y byd	Cymryd rhan mewn gweithgareddau a dysgu sgil newydd	Deall arwyddocâd treftadaeth y diwydiant llechi	Mwynhau eu hymweliad a dod yn ôl / rhannu'r profiad	Dysgu am lefydd eraill i ymweld â nhw yn yr ardal ac aros am dipyn
Pobl ar dripiâu bws	Darganfod treftadaeth fawreddog y dirwedd lechi Dysgu am yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a luniwyd gan y diwydiant llechi	Cymryd rhan mewn gweithgareddau a dysgu sgil newydd	Deall arwyddocâd treftadaeth llechi a gwerthfawrogi ei rôl bwysig yn hanes Cymru a Phrydain	Mwynhau eu hymweliad a dod yn ôl / rhannu'r profiad Cael eu hysbrydoli gan y dirwedd i ddarganfod pam a sut y cafodd ei llunio	Dysgu mwy am yr hanes a threfnu i ymweld eto yn y dyfodol
Disgyblion ysgol	Darganfod treftadaeth fawreddog y dirwedd lechi Dysgu am y bobl oedd yn gweithio yn y diwydiant	Cael eu hysbrydoli i ddysgu sgiliau ymchwilio newydd a darganfod mwy	Deall arwyddocâd treftadaeth llechi Deall a gwerthfawrogi'r dreftadaeth gymunedol	Cymryd rhan mewn celfyddydau a diwylliant yn yr ardal	Cael eu hysbrydoli i fod yn llysgenhadon treftadaeth dros dreftadaeth y broydd llechi
Cymunedau lleol	Dysgu am y bobl oedd yn	Dysgu sgiliau newydd i helpu i	Balchder ac ymdeimlad o	Mwynhau cymryd rhan er	Dysgu rhywbeth newydd am eu

	gweithio yn y diwydiant llechi	gasglu eu straeon a'u rhannu gyda chynulleidfaoedd newydd	berchnogaeth dros hanes y diwydiant llechi Gallu rhannu eu straeon	mwyn helpu i ddehongli'r dreftadaeth a rhannu straeon Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol	treftadaeth leol a chymryd rhan mewn prosiectau gwirfoddoli'n ymwneud â threftadaeth
Teuluoedd	Darganfod treftadaeth fawreddog y dirwedd llechi Dysgu ffeithiau hwyliog am y mwyaf, yr hynaf a'r cyflymaf	Cymryd rhan mewn gweithgareddau a dysgu sgîl newydd	Deall a gwerthfawrogi treftadaeth fawreddog a graddfa'r dirwedd llechi	Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol	Darganfod rhagor o lefydd i ymweld â nhw i fwynhau antur a threftadaeth
Selogion (treftadaeth / rheilffyrdd)	Deall y diwydiant llechi sydd wedi arloesi a chreu ffyrdd dyfeisgar o ymateb i heriau	Gwirfoddoli a dysgu sgiliau newydd i gynnal y dreftadaeth Rhoi cynnig ar ddefnyddio enwau llefydd Cymraeg	Gwerthfawrogi a deall stori ehangach treftadaeth a diwylliant broydd y llechi	Mwynhau crwydro'r broydd llechi yn ehangach	Trefnu i gymryd rhan a dod yn ôl yn y dyfodol
Pobl sy'n chwilio am wefr	Deall sut y lluniodd y diwydiant llechi y dirwedd hon, a'r heriau a wynebwyd	Cymryd rhan mewn gweithgareddau a dysgu sgîl newydd	Deall arwyddocâd treftadaeth y diwydiant llechi a'i heffaith ar yr ardal	Mwynhau dysgu mwy am y dreftadaeth	Darganfod y dreftadaeth wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill a threulio amser yn dysgu mwy
Cerddwyr a beicwyr	Deall sut y lluniodd y diwydiant llechi y dirwedd hon	Cymryd rhan mewn gweithgareddau a dysgu sgîl newydd	Deall arwyddocâd treftadaeth y diwydiant llechi a'i heffaith ar yr ardal	Mwynhau dysgu mwy am y dreftadaeth	Darganfod y dreftadaeth wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill a threulio amser yn dysgu mwy

7.2 Rhaglen ar gyfer monitro a gwerthuso

Tasgau	Dyddiad	Canlyniad
Briff hunaniaeth weledol		Creu hunaniaeth weledol newydd
Hyb digidol: Cyfarfod gydag adran TG Cyngor Gwynedd Briff ar gyfer gwefan newydd / cynnwys newydd		Creu hyb digidol newydd
Bwriadau ar gyfer Cynlluniau Cynefin		Cyflenwi prosiectau cymunedol
Grŵp Dehongli Rhaglen o gyfarfodydd a gweithdai Newyddion diweddaraf am brosiectau'r Prif Ganolfannau a'r Canolfannau Canolig Datblygu cynlluniau i ariannu'r argymhellion		Rhaglen o gyfarfodydd a gweithdai

Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Cyflwyno Ymweliad gan bwyllgor Safle Treftadaeth y Byd Penderfyniad ar yr enwebiad	Ionawr 2020 Medi 2020 Gorffennaf 2021	
---	---	--